# Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

## ADRODDIAD TERFYNOL

## Mawrth 2013

**Gan Dr David Hirst**

**a**

**Teresa Crew**

**Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor.**

**Ar ran y Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr.**

Diolchiadau ........ 2
Geirfa ac Acronymau ........ 4
Crynodeb Gweithredol ........ 8
1. Trosolwg........ 17
2. Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal yr Astudiaeth. ........ 24
3 Methodoleg yr Arolwg........ 34
4. Ymgynghori â rhanddeiliaid........ 44
5 Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd sydd â Chaniatâd Cynllunio ........ 53
6. Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd a gwersylloedd diawdurdod. 57
7. Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn Brics a Morter ........ 62
8. Sipsiwn a Theithwyr Ifanc........ 69
9. Teithwyr Sioe........ 74
10. Mynediad at wasanaethau ........ 76
11 Cyfrifiadau o'r Angen am Safleoedd Parhaol ........ 86
12. Cyfrifiadau o'r Angen am Safleoedd Pontio........ 96
13. Myfyrdod ........ 107
Llyfryddiaeth ........ 109

## Diolchiadau

Ni ellid bod wedi cwblhau'r astudiaeth hon heb wybodaeth, cydweithrediad a chymorth llawer o bobl.  Rhoddodd aelodau o Grŵp Llywio'r prosiect, gan gynnwys aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr, sefydliadau cenedlaethol Sipsiwn a Theithwyr, swyddogion o'r awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan ac o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri arweiniad a chymorth drwy gydol y prosiect, a rhaid diolch i bob un ohonynt am y gefnogaeth a roddasant i dîm yr astudiaeth.

Diolch hefyd i staff yr awdurdod lleol a atebodd yr holiaduron rhanddeiliaid, i GTAC ac i'r cyfwelwyr cymunedol am gwblhau'r gwaith maes, ac i'r holl Sipsiwn a Theithwyr a atebodd yr holiaduron, neu a rannodd eu profiadau.

Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn rhoi adlewyrchiad cywir o'u barn a'u hanghenion.   Mae'n bosibl na fydd y dadansoddiad hwn o'r data yn adlewyrchu safbwyntiau a barnau'r awdurdodau lleol, nac unrhyw randdeiliaid eraill.

## Geirfa ac Acronymau

Defnyddir y termau canlynol yn yr adroddiad hwn. Yn achos y termau hynny sy'n gysylltiedig â llety a diwylliant Sipsiwn a Theithwyr, nodir bod sawl un yn aml yn destun dadl a thrafodaeth. Nid bwriad yr awduron yw cyflwyno'r termau fel diffiniadau terfynol. Yn hytrach, yr esboniadau a roddir yw'r rhai a ddefnyddiodd yr awduron yn yr asesiad hwn fel eu fframiau cyfeirio.

**Aelwyd gudd** Aelwydydd sy'n byw ar aelwydydd eraill, na allant sefydlu unedau teuluol ar wahân, ac na n gallu sefydlu unedau teuluol ar wahân ac na allant gael lle ar safle awdurdodedig, na chaffael neu fforddio tir i ddatblygu safle o'r fath.

**Arhosfan** Ardal o dir a nodwyd i'w defnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr ar daith; mae'n bosibl y bydd uchafswm yr amser aros yn fyrrach na'r amser aros ar Safle Pontio.

**AMDL** Asesiad Marchnad Dai Leol.

**AMDLGOC** Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru.

**Brics a morter** Tai prif ffrwd parhaol

**Carafán** Symudol cerbydau byw a ddefnyddir gan Sipsiwn a Theithwyr. Gelwir y rhain yn ôl-gerbydau.

Gall 'carafán' gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- cartrefi symudol, carafanau, ôl-gerbydau a cherbydau byw eraill ar safleoedd a gwersylloedd Sipsiwn neu Deithwyr, p'un a ydynt yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol cyfyng o garafán;
- carafanau teithiol ar safleoedd a gwersylloedd Sipsiwn neu Deithwyr, hyd yn oed os nad oes rhywun yn byw ynddynt yn barhaol;

**Cartref symudol** Y dosbarthiad cyfreithiol yw carafán, ond carafán nad yw fel arfer yn symudol heb ei thynnu oddi wrth ei gilydd/ei chludo ar lori.

**CCC** Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn y cyd-destun hwn, mae hyn yn cyfeirio at yr holl gyhoeddiadau gan Gynulliad etholedig Cenedlaethol Cymru ers ei sefydlu yn 1999.

**CDLl** Y Cynllun Datblygu Lleol. Fframwaith manwl o bolisïau a chynigion cynllunio ar gyfer safleoedd penodol dros gyfnod o 10 mlynedd, sy'n cynnwys datganiad ysgrifenedig a map o'r safleoedd arfaethedig. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn cynnwys polisïau cyffredinol ar ddefnyddio a datblygu tir, ynghyd á chynigion penodol ar gyfer safleoedd ac ardaloedd. Yn benodol, mae'n dyrannu safleoedd i fodloni'r angen am dai a nodir yn y cynllun fframwaith. Nodir ar y map yr union ardaloedd o dir y mae'r polisïau a'r cynigion safle-benodol yn berthnasol iddynt.

**Cefnogi Pobl** Rhaglen ariannu sy'n darparu grantiau er mwyn cynorthwyo i ddarparu cefnogaeth yn gysylltiedig â thai er mwyn meithrin a chynnal gallu'r unigolyn i fyw'n annibynnol yn ei lety.

**CYBLD** Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Bellach **CYB** y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol. Yn cynnwys casglu data ar ethnigrwydd.

**Y gymuned/pobl sefydlog** Cyfeiriad at rai nad ydynt yn Deithwyr (rhai sy'n byw mewn tai).

**Datblygiadau Diawdurdod -** Mae safleoedd carafanau ymhlith y mathau o ddatblygiad y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Defnyddir y term hwn lle bydd Sipsiwn a Theithwyr yn byw ar eu tir eu hunain mewn carafanau / anheddau symudol heb ganiatâd cynllunio na hawliau defnydd sefydledig. Gall safleoedd o'r fath amrywio o ran maint ac o ran y graddau y mae'r tir wedi cael ei 'datblygu' gyda ffyrdd, lleiniau penodol, arwynebeddau caled, blociau amwynder ac ati.

Safle 'nas goddefir' yw safle lle:

• mae hysbysiad gorfodi cynllunio wedi cael ei gyflwyno (gan gynnwys Hysbysiad Aros Dros Dro);

• disgwylir canlyniadau ymholiad cynllunio;

• ceisiwyd gwaharddeb;

• neu lle cafodd y cyfnod cydymffurfio ei ymestyn.

**DCLG** Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**Dyblu** Rhannu llain ar safle awdurdodedig.

**EHRC** Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**GAiD -** Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Gwasanaeth cefnogi gan yr awdurdod addysg lleol sy'n cydweithio'n agos ag ysgolion a theuluoedd er mwyn sicrhau mynediad, ac i godi cyflawniad disgyblion sy'n Deithwyr.

**Gaujo / Gorger** Y cyfieithiad llythrennol yw rhywun nad yw o dras Sipsi Romani. Gair Romani a ddefnyddir yn bennaf gan Sipsiwn Romani, a chan bobl eraill, i gyfeirio at aelodau o'r gymuned sefydledig/rhai nad ydynt yn Sipsiwn neu'n Deithwyr

**GTAC** Eiriolaeth Sipsiwn Teithwyr Cymru

**GTLO** Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr. Swyddog (fel arfer mewn awdurdod lleol, ond hefyd o fewn heddluoedd) sy'n gyfrifol yn benodol am Sipsiwn a Theithwyr.

**Gwersyll Diawdurdod** Aros wrth ochr y ffordd, neu ar dir preifat/cyhoeddus nad yw'n eiddo i Sipsiwn neu Deithwyr ac nad oes caniatâd cynllunio arno.

Gwersyll 'a oddefir' yw gwersyll lle mae'r awdurdod lleol ac/neu berchennog y tir wedi penderfynu peidio ceisio cael gwared â'r gwersyll, a lle mae'r gwersyll wedi cael ei 'oddef', neu'n debygol o gael ei 'oddef' am gyfnod amhenodol o fisoedd neu flynyddoedd.

Gwersyll 'nas goddefir' yw gwersyll lle: mae'r awdurdod lleol neu'r heddlu'n defnyddio, neu'n paratoi i ddefnyddio, eu pwerau o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i symud y gwersyll, neu lle mae'r tirfeddiannwr (gan gynnwys yr awdurdod lleol) wedi cychwyn, neu'n paratoi i gychwyn, camau naill ai drwy'r llysoedd neu drwy hawliau'r gyfraith gyffredin i adfeddiannu'r tir.

**Iard** Term a ddefnyddir gan Deithwyr Sioe i gyfeirio at safle

**Llain** Ardal o dir ar safle Sipsiwn a Theithwyr a fydd fel arfer wedi'i meddiannu gan un teulu trwyddedig. Fe'i gelwir weithiau yn 'plot'.

**LlC** Llywodraeth Cymru. Yn dilyn y refferendwm ym mis Mai 2011 o blaid mwy o bwerau deddfu, dechreuwyd defnyddio'r term Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.

**LlCC** Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y cyd-destun hwn, defnyddir y term Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob cyhoeddiad gan y corff gweithredol rhwng sefydlu CCC a refferendwm mis Mai 2011.

**ODPM** Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

**Ôl-gerbyd** Term a ddefnyddir yn gyffredin gan Sipsiwn a Theithwyr i gyfeirio at garafán symudol.

**OS** Offeryn Statudol.

**Pobl y Wlad / Byffers** Term a ddefnyddir gan Deithwyr Gwyddelig i gyfeirio at bobl sefydledig / nad ydynt yn Deithwyr.

**Safle -** Yn gyffredinol, ardal o dir a osodir ac a ddefnyddir ar gyfer carafanau Sipsiwn a Theithwyr. Bydd gan safle awdurdodedig ganiatâd cynllunio (a thrwydded safle, os yw'n eiddo preifat) i'w ddefnyddio fel safle i garafanau Sipsiwn; ni fydd caniatâd cynllunio ar safle diawdurdod. Bydd safleoedd yn amrywio o ran math a maint a gallant amrywio rhwng safleoedd preifat un garafán ar dir y Sipsiwn a'r Teithwyr eu hunain a safleoedd awdurdod lleol mawr.

**Safle Awdurdodedig** Safle gyda chaniatâd cynllunio a allai gynnwys:

- safleoedd gyda chaniatâd cynllunio sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr er mwyn iddynt hwy eu hunain ac/neu eu teulu gael eu meddiannu, ac/neu i'w gosod yn fasnachol;
- safleoedd sy'n eiddo i unrhyw unigolyn neu gorff preifat arall gyda chaniatâd cynllunio i'w defnyddio fel safle i Sipsiwn neu Deithwyr. Gall y rhain fod yn safleoedd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr, wedi'u rhentu neu'n gymysgedd o leiniau sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac wedi'u rhentu.
- safleoedd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol neu i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ond ar brydles i unigolyn neu gorff nad yw'n awdurdod lleol, neu wedi'i reoli gan yr unigolyn neu'r corff hwnnw, drwy drefniadau nad ydynt yn rhoi'r rheolaeth ar y safle i'r awdurdod lleol (rheolaeth ar bennu'r rhent a gosod lleiniau yn bennaf).

- safle Sipsiwn awdurdod lleol neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n eiddo i'r awdurdod ac wedi'i reoli gan yr awdurdod

**Safle Pontio** Safle awdurdodedig a fwriedir ar gyfer arosiadau byr. Bydd safleoedd o'r fath fel arfer yn barhaol, ond cyfyngir ar ba mor hir y gall defnyddwyr aros arnynt.

**Safle preswyl** Safle Sipsiwn y bwriedir i breswylwyr ei feddiannu'n barhaol neu am y tymor hir. Ni phennir uchafswm arhosiad.

**Safleoedd a oddefir** Safle 'a oddefir' yw safle lle mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu peidio ceisio cael gwared â gwersyll, a lle gadawyd i wersyll aros am gyfnod amhenodol o fisoedd neu flynyddoedd, neu lle bo'n debygol y bydd hynny'n digwydd.

**SG** Y Swyddfa Gymreig Fe'i chwalwyd ym mis Gorffennaf 1999 gan drosglwyddo llawer o'i swyddogaethau i CCC. Roedd llawer o gyhoeddiadau'r Swyddfa Gymreig yn adlewyrchu cyhoeddiadau Adrannau eraill, yn enwedig yn y cyd-destun hwn, y rhai sy'n gyfrifol am dai a llywodraeth leol.

**Sipsi** Cafodd Sipsiwn Romani eu cydnabod yn grŵp ethnig ym 1989. Nid yw'r term hwn yn dderbyniol gan bob Teithiwr.

**Sipsiwn a Theithwyr** Mae'r diffiniad a ddefnyddir yn Neddf Tai 2004 yn cynnwys: yr holl Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig, Teithwyr Sioe, Pobl Syrcas a Sipsiwn a Theithwyr mewn llety brics a morter.

**Teithiwr Gwyddelig**: Mae gan Deithwyr Gwyddelig darddiad cynhenid unigryw o Iwerddon ac fe'u cydnabuwyd fel grŵp ethnig yn 2000.

**Teithiwr Newydd:** Term a ddefnyddir yma i gyfeirio at aelodau o'r gymuned sefydlog sydd wedi mabwysiadu ffordd grwydrol o fyw. Bydd Teithwyr Newydd hefyd weithiau'n cael eu galw'n Deithwyr yr Oes Newydd.

**Teithwyr Sioe** Fe'u gelwir yn aml yn Siewmyn. Dyma grŵp o Deithwyr galwedigaethol sydd yn gweithio ar sioeau a ffeiriau teithiol ledled y DU a thramor

**Uned amwynder** cyfleusterau ymolchi sylfaenol (baddon/cawod, toiled a sinc) fel arfer wedi'i darparu ar gyfradd o un fesul llain ar y rhan fwyaf o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr . Weithiau wedi'u cyfuno mewn bloc Amwynder.

## Crynodeb Gweithredol

1.1 Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau ac argymhellion yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) a gynhaliwyd ar gyfer consortiwm o bum awdurdod yng ngogledd Cymru, ac ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Amcan y GTANA yw asesu anghenion aelodau o'r cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr o ran llety, gan roi llais uniongyrchol iddynt yn y broses. Rheolwyd y GTANA gan Grŵp Llywio, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, ac aelodau o'r cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr. Yn rhan o'r gwaith maes, gofynnwyd i aelodau o'r gymuned gynnal cyfweliadau. Lluniwyd yr adroddiad hwn gan aelodau o Brifysgol Bangor, ar ran y Grŵp Llywio. Yr awduron yn unig sydd yn gyfrifol am unrhyw gasgliadau.

1.2 Mae'r astudiaeth yn defnyddio tair ffynhonnell o wybodaeth:

- Cynhaliwyd dadansoddiad o'r ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys testunau ac arolygon GTANA eraill, gan nodi cryfderau a gwendidau'r ffynonellau a oedd ar gael.
- Casglwyd gwybodaeth gan randdeiliaid allweddol o fewn awdurdodau lleol.
- Casglwyd safbwyntiau'r gymuned drwy holiaduron, grwpiau ffocws a thrafodaethau. Cafwyd cyfanswm o 93 o ymatebion gan oedolion o blith y Sipsiwn a Theithwyr, a 43 o ymatebion eraill o arolwg ymhlith Sipsiwn a Theithwyr iau, o ystod o ddeiliadaethau a grwpiau cymunedol. Yn yr holiadur cymunedol, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu dyheadau am safleoedd a'r lleoliad y byddent yn ei ffafrio.

## Y Cefndir

1.3 Ers 2006, mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau tai strategol lleol i gydweithio er mwyn cynhyrchu asesiadau o Ardaloedd Marchnad Dai Leol, er mwyn canfod beth fydd lefel a natur y galw am dai yn y dyfodol. Mae proses yr Asesiadau Marchnad Dai Leol (AMDL) yn cyfrannu at gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol. Rhan annatod o broses yr AMDL yw cynhyrchu Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Ar gyfer y GTANA hwn, mae siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn wedi dod ynghyd i gynnal y GTANA, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor. Cafodd yr astudiaeth ei rheoli a'i chomisiynu gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol [ac o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri], aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr, a Phrifysgol Bangor.

1.4 Dyma amcanion ehangach yr astudiaeth:

- o Cynhyrchu, mewn ymgynghoriad â Sipsiwn a Theithwyr lleol, gwybodaeth fanwl am eu proffil demograffig, cyfansoddiad aelwydydd, anghenion llety presennol, anghenion yn gysylltiedig â gwasanaethau a chefnogaeth llety, a rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau.
- o Creu amcangyfrifon dibynadwy o'r angen am lety yn y dyfodol.
- o Asesu anghenion presennol o fewn y cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr, a'u hanghenion posibl i'r dyfodol, yn Ardal Marchnad Dai Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint, h.y. Ardal yr Astudiaeth, o ran dysgu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol a'u sefydliadau partner.
- o Asesu perthnasedd polisïau a strategaethau a ddefnyddir gan awdurdodau Partner mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr.

## Y Prif Ganfyddiadau

### Sipsiwn a Theithwyr Lleol

1.5 Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ynghylch faint o Sipsiwn a Theithwyr sydd yn y DU gyfan, yng Nghymru, neu yn ardal yr astudiaeth. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer y DU gyfan yn amrywio rhwng 82,000 a 300,000, gan gynnwys y rhai hynny sy'n byw mewn tai Brics a Morter. Cytunir yng Nghymru fod trwch y boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yn byw ar hyd y prif lwybrau trafnidiaeth yng Ngogledd a De Cymru. Yn ardal yr astudiaeth, ceir 78 o leiniau awdurdodedig, a phedair carafán arall ar ddatblygiadau diawdurdod. Mae deg o gerbydau a feddiannir gan Deithwyr Newydd wedi'u lleoli ar wersyll diawdurdod, ond gwersyll a oddefir, ar Ynys Môn. Amcangyfrifir bod rhwng hanner a dwy ran o dair o boblogaeth y DU o Sipsiwn a Theithwyr bellach yn byw mewn tai 'brics a morter', naill ai o ddewis, ond hefyd o bosib o reidrwydd, oherwydd prinder lleiniau ar safleoedd awdurdodedig. Nid oes unrhyw amcangyfrif dibynadwy o gyfanswm y Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai brics a morter yn ardal yr astudiaeth, ond mae'r arolwg yn dangos yn glir bod y nifer hwn yn sylweddol, ac wedi'i ddosbarthu rhwng yr awdurdodau lleol. Roeddent yn byw mewn llety rhent preifat a rhent cymdeithasol, a hefyd yn berchen-feddianwyr.

### Nodweddion Sipsiwn a Theithwyr lleol

1.6 Roedd 24 y cant yn eu disgrifio eu hunain fel Sipsi Romani, 58 y cant fel Teithwyr, yr oedd 34 y cant ohonynt yn Deithwyr Gwyddelig, 17 y cant yn Deithwyr Newydd, ac 1 y cant yn Deithwyr Sioe.

1.7 Maint cymedrig aelwydydd oedd 4.37 o bobl, y maint canolrif oedd pedwar o bobl. Teuluoedd iau yr oeddynt yn bennaf. Ni chysylltodd yr arolwg ag unrhyw un oedd yn 65 oed neu'n hŷn.

1.8 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn eu disgrifio'u hunain fel pobl o'r ardal leol.

**Sipsiwn a Theithwyr a gwasanaethau lleol**

1.9 Yn yr arolwg hefyd, holwyd Sipsiwn a Theithwyr ynglŷn â'r defnydd a wnânt o wasanaethau lleol a'u safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir. Y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr - Adroddodd rhai eu bod yn teimlo bod gwasanaethau lleol, asiantaethau iechyd a lles, yr heddlu ac awdurdodau lleol wedi ymddwyn mewn modd gwahaniaethol tuag atynt, ond ystyriai ymatebwyr eraill eu bod yn cael eu trin 'fel pobl eraill'. Derbyniodd y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr ganmoliaeth ar y cyfan, ac fe groesawyd y ffaith bod staff cyswllt penodedig, fel y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr (GTLO) ar gael.

**Dewisiadau a Dyheadau o ran Llety**

1.10 Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynghylch lleoliad a natur safleoedd parhaol i'w darparu yn y dyfodol. Dylid nodi bod Sipsiwn a theithwyr sydd am ddatblygu safleoedd yn breifat yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth gael caniatâd cynllunio, er bod mwy o achosion o roi caniatâd cynllunio drwy'r prosesau cynllunio ac apeliadau cyfreithiol.

**Yr angen am lety a'r cyflenwad ohono**

1.11 O ddefnyddio cyfrifiadau safonol, canfuwyd diffyg o 62 o leiniau erbyn 2016. Er bod y cyfrifiadau hyd at 2016 wedi'u cyflwyno ar sail awdurdod lleol, dylid nodi nad yw hyn yn awgrymu unrhyw reidrwydd i gyfyngu darpariaeth i'r dyfodol i'r ffiniau a geir ar hyn o bryd. Mae cyfarwyddyd LlC (LlC, 2006) a chynigion polisi presennol (LlC, 2011) yn cefnogi'r safbwynt y dylid ffafrio ymagweddau cydweithredol at y materion hyn.

Tabl 1: Anghenion llety preswyl sy'n deillio o boblogaethau presennol o Sipsiwn a Theithwyr ar sail ardal

| Awdurdod | Darpariaeth bresennol | Cyfanswm y gofyniad am leiniau preswyl ychwanegol (2011-2016) | Cyfanswm y gofyniad am ddarpariaeth pontio i garafanau (2011-2016) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | 11 | 28* |
| Conwy | 0 | 3 | |
| Sir Ddinbych | 0 | 2 | |
| Sir y Fflint | 66 | 36 | |
| Gwynedd | 12 | 10 | |
| **Ardal yr Astudiaeth** | **78** | **62** | **28***|

- *Wedi'i rannu

Sylwer: Am resymau ymarferol, mae'r ffigurau hyn wedi'u talgrynnu i fyny i'r llain gyfan agosaf

1.12 Ar ôl 2016, gan dybio bod yr holl angen presennol wedi'i fodloni; yn ôl y cyfrifiad safonol, bydd nifer y lleiniau sydd eu hangen yn parhau i gynyddu ar gyfradd o 3 y cant y flwyddyn. Byddai hyn yn creu gofyniad cyffredinol o 167 o leiniau (wedi ei dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf) erbyn 2021, cynnydd o

25 ar ffigur 2016, a 194 o leiniau, cynnydd pellach o 27, erbyn 2026. Gallai ffactorau eraill gynyddu'r gofyniad hwn.

**Gwersylloedd diawdurdod a gofynion pontio.**

1.13 Nid oes safle pontio o fewn ardal yr astudiaeth ar hyn o bryd. Defnyddiwyd rhan o'r safle Sipsiwn a Theithwyr yn Llandegai yng Ngwynedd fel safle pontio yn flaenorol, ond daeth y defnydd hwn i ben yn 2005 ar ôl problemau rheoli sylweddol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r rhan hon o'r safle. Mae'r drafodaeth ynglŷn â'r angen am safle pontio yn deillio o dystiolaeth yn y data sydd gan awdurdodau lleol am wersylloedd diawdurdod yn ardal y GTANA yn ystod 2009 a 2010, ynghyd â mewnbwn o brofiad rhanddeiliaid.

1.14 Gall awdurdodau cyhoeddus a'r sector preifat fynd i gostau sylweddol er mwyn ymdrin â gwersylloedd diawdurdod, a gall hyn hefyd gael effaith sylweddol ar y berthynas rhwng y gymuned sefydlog a'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr.

1.15 Seilir y cyfrifiad hwn o'r gofyniad am safleoedd pontio ar y rhagdybiaethau a nodir isod:

- Bob blwyddyn, ceir tua 55 o wersylloedd yn ardal yr astudiaeth.
- Mae’r bobl ar 10% o wersylloedd dros dro, tua chwech bob blwyddyn, yn chwilio am safle sy’n cynnig llety parhaol. Trafodir yr achoson hyn o dan y gofyniad am safleoedd parhaol.
- Felly, mae angen llety pontio ar 90% o’r gwersylloedd, sef cyfanswm o tua 49.
- Mis fyddai uchafswm yr arhosiad, er y byddai rhai gwersylloedd yn defnyddio’r safle am gyfnod byrrach.
- Byddai lle i 7 carafán yn ddigon ar gyfer y rhan fwyaf o wersylloedd.

1.16 O ddefnyddio 7 fel ffigur gweithiol, byddai'r gofynion pontio ar gyfer (49 wedi'i luosi â 7) o garafanau’r flwyddyn, neu 343 yn ystod y flwyddyn. Ar sail fisol, mae hyn yn gyfystyr â 28.5 o garafanau. Fodd bynnag, am y rhesymau a drafodwyd, mae'n bosibl bod y ffigurau hyn yn cynnwys achosion o gyfrif ddwywaith. Ar ffurf cyfrannau, mae tua 47% o wersylloedd wedi'u cofnodi yn ardal Gwynedd ac Ynys Môn, 15% wedi'u cofnodi yn ardal ganol Conwy a Sir Ddinbych, a 37% yn Sir y Fflint.

1.17 Awgrymir felly fod yr awdurdodau'n cydweithio i ystyried tri neu bedwar safle pontio a all gynnwys hyd at saith o garafanau. Ffafrir cael mwy nag un safle, am sawl rheswm.

- Maent yn fwy tebygol o gael eu defnyddio os ydynt yn agos at fannau aros traddodiadol.
- Byddai pob safle o faint llai.
- Ceid llai anawsterau'n gysylltiedig â thensiynau ethnig neu rhwng gwahanol deuluoedd.
- Ni fyddai cael un safle pontio ar gyfer yr ardal yn datrys y problemau. Mae'n bwysig cael rhywle i'r preswylwyr symud ymlaen iddo, ac mae angen rhwydwaith ar gyfer hyn. Dylai'r awdurdodau lleol gydweithio i nodi safleoedd priodol ar gyfer llety dros dro ar sail ranbarthol.

1.18 Argymhellir bod yr awdurdodau lleol yn cydweithio i nodi safleoedd priodol ar gyfer llety dros dro. Gall y rhain fod yn safleoedd pontio, gydag ystod cymharol lawn o gyfleusterau lle gellir caniatáu arhosiad o hyd at dri mis, neu fod yn fannau aros dros dro sy'n cynnwys darpariaeth fwy cyfyngedig, lle gellir cyfyngu ar yr arhosiad i 28 diwrnod. Dylai natur y ddarpariaeth, yn ogystal â'i lleoliad, fod yn seiliedig ar ddata ac ar batrymau gwersylloedd diawdurdod dros y blynyddoedd diwethaf.

1.19 Ceir sawl argymhelliad i'w weithredu:

1.20 *Argymhelliad 1*: Gan gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar fabwysiadu ymagwedd gydweithredol, dylid ffurfio Grŵp Cydgysylltu Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a phartneriaid isranbarthol, er mwyn parhau i ddatblygu ymagwedd ystyrlon a chydlynol at lety Sipsiwn a Theithwyr a materion cysylltiedig, gan sicrhau hefyd fod canfyddiadau'r GTANA yn cael eu lledaenu ymhlith adrannau o fewn yr Awdurdodau partner ac ymhlith rhanddeiliaid eraill. Byddai'r Gweithgor Sipsiwn-Teithwyr sy'n bodoli eisoes yn sylfaen ardderchog ar gyfer grŵp o'r fath, ynghyd â chynrychiolwyr o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr.

1.21 *Argymhelliad 2*: Dylid sefydlu Grŵp Cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolaeth mor eang ei daearyddiaeth ag sy'n bosibl i gynrychioli safbwyntiau'r boblogaeth leol o Sipsiwn a Theithwyr, a chyfrannu at y broses ymgynghori. Dylai Grŵp Cydgysylltu Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ddarparu Cadeirydd a chefnogaeth weinyddol i'r grŵp.

1.22 *Argymhelliad 3*: Dylai pob awdurdod partner sicrhau bod gweithgor mewnol yn bodoli ym mhob awdurdod. Dylai'r gweithgor hwn dorri ar draws meysydd gwasanaeth, er mwyn cydgysylltu'n well yr ymateb i faterion Sipsiwn a Theithwyr, a'r ymagwedd tuag atynt, gan osgoi'r posibilrwydd o ail-wneud gwaith.

1.23 *Argymhelliad 4*: Dylai pob awdurdod bennu swyddog arweiniol sy'n rheoli ymateb pob awdurdod i faterion Sipsiwn a Theithwyr.

1.24 *Argymhelliad 5*: Er mwyn cadw at ddeddfau Cydraddoldeb a sicrhau ansawdd uchel y gwaith monitro parhaus, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cydnabod ar ffurflenni monitro ethnig, gan roi'r pwys mwyaf i ddechrau ar ffurflenni'n gysylltiedig â thai a chynllunio

1.25 *Argymhelliad 6*: Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb, mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr, wedi'u hymwreiddio yn yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys: polisïau tai, cynllunio a digartrefedd.

1.26 *Argymhelliad 7*: Dylai awdurdodau lleol fod yn sensitif i wahanol anghenion Sipsiwn a Theithwyr a allai eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref, a'r rhai a allai fod angen llety gan yr awdurdod lleol, o ran diwylliant a chefnogaeth.

1.27 *Argymhelliad 8*: Dylai rhestrau aros am safleoedd preswyl fod yn: hygyrch i'r holl Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, a dylent fod yn glir a thryloyw o ran y polisïau dyrannu

1.28 *Argymhelliad 9*: Mae angen cynnal gwerthusiad rheolaidd o'r dull o reoli safleoedd parhaol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC, 2008)

1.29 *Argymhelliad 10*: Asiantaethau Tai Cymdeithasol i sefydlu a oes unrhyw batrymau'n deillio o ddewisiadau cadarnhaol neu benderfyniadau negyddol yn sgil canfyddiad o fygythiadau neu achosion eraill.

1.30 *Argymhelliad 11*: Dylid addasu'r dulliau a'r ymagweddau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i hybu llety fforddiadwy ymhlith aelodau o gymunedau nad ydynt yn deithwyr i fod yn addas ar gyfer y llety a ddefnyddir gan aelodau o gymunedau o Sipsiwn a Theithwyr.

1.31 *Argymhelliad 12*: Gallai ymgyrch flaengar i hybu diwylliant a ffordd Sipsiwn a Theithwyr o fyw gan roi gwedd gadarnhaol fod o gymorth i liniaru peth o'r gwahaniaethu ar sail hil a brofir gan Sipsiwn a Theithwyr o bob oed ar draws ardal yr astudiaeth.

1.32 *Argymhelliad 13*: Sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael hyfforddiant ar ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr fel bo modd mynd i'r afael â bwlio yn fwy effeithiol.

1.33 *Argymhelliad 14*: Dylai Awdurdodau Lleol ystyried dod ynghyd i ddarparu'r adnoddau i recriwtio a hyfforddi gweithwyr maes (o bosib o blith y cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr) i ymgysylltu â phobl ifanc.

1.34 *Argymhelliad 15*: Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach mewn perthynas â Theithwyr Sioe, ar y cyd ag Urdd y Teithwyr Sioe, cyn y gellir llunio argymhellion.

1.35 *Argymhelliad 16*: Mae bod yn berchen-feddianwyr yn ddyhead gan lawer o aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr. Gan hynny, mae angen datblygu deialog adeiladol rhwng Sipsiwn a Theithwyr sy'n dymuno datblygu safleoedd preifat ac awdurdodau cynllunio.

1.36 *Argymhelliad 17*: Dylai adrannau cynllunio gynnig cyngor a chefnogaeth briodol i Sipsiwn a Theithwyr ynghylch gweithrediad y system gynllunio a'r meini prawf a ystyrir mewn ceisiadau. Mae'n bosibl y bydd angen cynllunio'r cyngor hwn yn arbennig i gyd-fynd â'r grŵp neilltuol hwn o gleientiaid.

1.37 *Recommendation 18:* Mae angen i Grŵp Cydgysylltu Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ledaenu gwybodaeth am yr holl faterion sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau mor eang ag sy'n bosibl, mewn ymgynghoriad â Grŵp Cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru. Canlyniad hyn fydd creu strategaeth ynghylch sut i wella profiadau'r gymuned leol o Sipsiwn a Theithwyr, ynghyd â dull o adrodd am enghreifftiau eraill.

1.38 *Argymhelliad 19*: Dylai awdurdodau lleol geisio canfod safleoedd posibl lle gellid rhoi caniatâd ar gyfer safle preswyl.

1.39 *Argymhelliad 20*: bod pob sir yn cwblhau'r cyfrifiad carafanau a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

1.40 *Argymhelliad 21*: bod yr awdurdodau lleol yn cytuno ar brotocol cyffredin ar gyfer adrodd am bresenoldeb gwersylloedd diawdurdod a mynd i'r afael â'r materion cysylltiedig.

1.41 *Argymhelliad 22*: Dylai'r holl awdurdodau o fewn ardal yr astudiaeth, neu pa grŵp bynnag sy'n parhau â phroses y GTANA, benderfynu ar ddull cyffredin o gofnodi gwersylloedd. Yn ddelfrydol, dylai'r cofnod gynnwys yr eitemau canlynol o leiaf:

- Dyddiad adrodd am y gwersyll
- Dyddiad dod â'r gwersyll i ben
- Lleoliad, natur y safle [cyhoeddus / preifat; safle diwydiannol neu barc busnes, maes parcio ar safle adwerthu, arall]
- Nifer y carafanau,
- Amcangyfrif o nifer yr oedolion a'r plant.

1.42 *Argymhelliad 23*: Argymhellir hefyd y dylid cynnwys data gan Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyson a chyflawn.

1.43 *Argymhelliad 24*: Argymhellir bod yr awdurdodau lleol yn cydweithio i nodi safleoedd priodol ar gyfer llety dros dro. Gall y rhain fod yn safleoedd pontio, gydag ystod cymharol lawn o gyfleusterau lle gellir caniatáu arhosiad o hyd at dri mis, neu fod yn fannau aros dros dro sy'n cynnwys darpariaeth fwy cyfyngedig, lle gellir cyfyngu ar yr arhosiad i 28 diwrnod. Dylai natur y ddarpariaeth, yn ogystal â'i lleoliad, fod yn seiliedig ar ddata am batrymau gwersylloedd diawdurdod dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi dweud hynny, o ddadansoddi'r data presennol, gwelir bod y patrymau'n amrywio rhwng awdurdodau lleol y consortiwm.

# Trosolwg

## *Cyflwyniad*

1.44 Yn 2006, awgrymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei Harweiniad i Asesu'r Farchnad Dai Leol, y dylai awdurdodau lleol gydweithio er mwyn cynnal Asesiadau Marchnad Dai Leol.

1.45 Mae'n well cynnal Asesiadau Marchnad Dai ar y cyd rhwng grwpiau o awdurdodau. Yn ddiau, ymagwedd partneriaeth fel hyn yw'r ffordd orau o ymdrin â marchnadoedd tai sy'n croesi ffiniau gweinyddol.(LlCC, 2006:10)

1.46 Yn 2007, ffurfiodd awdurdodau lleol yn ardal Gogledd Orllewin Cymru - Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn, ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gonsortiwm gyda Phrifysgol Bangor i gynnal Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru (AMDLGOC). Mae'r asesiad yn rhoi trosolwg o'r galw am dai, a'r anghenion, y gofynion a'r dyheadau'n gysylltiedig â thai ar gyfer yr isranbarth.

1.47 O dan a.225 yn Neddf Tai 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a gweithredu strategaethau i ymateb i anghenion llety cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn eu hardaloedd, yn rhan o'u strategaethau tai ehangach.

1.48 Pwrpas Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANAs) yw darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen yn sail ar gyfer y strategaethau hyn, ac maent yn rhan hollbwysig o Asesiadau Marchnad Dai Leol.

1.49 Mae cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, yn yr Arweiniad i Asesu'r Farchnad Dai Leol (LlCC, 2006), a chyfarwyddyd mwy diweddar, wedi argymell yn gyson y dylai awdurdodau lleol gydweithio er mwyn bodloni anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Yn 2011, anogodd Llywodraeth Cymru *'awdurdodau lleol i weithio mewn modd rhanbarthol a rhannu'r cyfrifoldeb cyfreithiol, moesegol, ariannol a gwleidyddol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a brofir gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ym maes llety.'* [(LlC 2011a:20)

1.50 Mae arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwysleisio bod angen ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr a'u cynnwys wrth gynnal y GTANA.

1.51 Ymunodd Sir y Fflint ag aelodau'r consortiwm ar gyfer y broses hon. Cafodd y GTANA ei reoli gan y Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr sy'n cynnwys swyddogion sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol partner, Heddlu Gogledd Cymru, aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr leol a chynrychiolwyr o sefydliadau Sipsiwn a Theithwyr cenedlaethol. Roedd Cydgysylltydd Prosiect,

a ddarparwyd gan Brifysgol Bangor, â chyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio prosiect y GTANA.

1.52 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r GTANA ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ledled Gogledd Orllewin Cymru, gan gynnwys Sir y Fflint (gelwir yr ardal hon o hyn allan yn 'Ardal yr Astudiaeth').

### *Y Cefndir.*

1.53 Mae Deddf Tai 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr yn rhan o'r broses o Asesu Anghenion Tai Lleol, ac i fod â strategaeth wedi'i sefydlu sy'n dangos sut y bydd unrhyw angen a nodir yn cael ei fodloni yn rhan o'u strategaethau tai ehangach. (Richardson, 2007: 14).

1.54 Cafodd y dyletswyddau hyn, o dan adran 225 a 226 y Ddeddf eu gweithredu mewn perthynas â Chymru o fis Rhagfyr 2007.

1.55 Dyma'r diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr i ddibenion Deddf 2004:

*Pobl sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn carafán; a phob person arall ag arferion byw nomadaidd, beth bynnag fo eu hil neu eu tarddiad, gan gynnwys*

*(i) y bobl hynny sydd, ddim ond ar sail anghenion addysg neu anghenion iechyd nhw eu hunain, eu teulu neu eu dibynyddion neu oherwydd henaint, wedi rhoi'r gorau i deithio naill ai dros dro neu'n barhaol;*

*a*

*(¡¡) aelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe neu bobl syrcas sy'n teithio (p'un a ydynt yn teithio gyda'i gilydd felly ai peidio).*

*(SI 2007, 3235 (W. 285))*

### *Amcanion yr asesiad*

1.56 Nod cyffredinol astudiaeth y GTANA yw asesu " a oes angen darparu mwy o lety i Sipsiwn a Theithwyr o fewn ardal yr astudiaeth" ac, os felly, "sut y dylid darparu'r llety hwnnw er mwyn iddo fodloni anghenion y gymuned o Sipsiwn a Theithwyr orau".

1.57 Dyma amcanion ehangach yr astudiaeth:

- o Cynhyrchu, mewn ymgynghoriad â Sipsiwn a Theithwyr Lleol, gwybodaeth fanwl am eu proffil demograffig, cyfansoddiad aelwydydd, anghenion llety presennol, anghenion yn gysylltiedig â

gwasanaethau a chefnogaeth llety, a rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau.

- Creu amcangyfrifon dibynadwy o'r angen am lety yn y dyfodol.
- Asesu anghenion presennol o fewn y cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr, a'u hanghenion posibl i'r dyfodol, yn Ardal Marchnad Dai Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint, h.y. Ardal yr Astudiaeth, o ran dysgu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol a'u sefydliadau partner.
- Asesu perthnasedd polisïau a strategaethau a ddefnyddir gan awdurdodau Partner mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr.

1.58 Yn rhan o'r prosiect, cafwyd tystiolaeth o bedwar maes allweddol

- Lluniwyd dadansoddiad drwy ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth presennol, gan nodi cryfderau a gwendidau'r ffynonellau a oedd ar gael.

- Cynhaliwyd astudiaeth o'r testunau ymchwil ac o arolygon GTANA eraill.

- Cafodd holiaduron eu cyfeirio at randdeiliaid o fewn yr awdurdodau lleol.

- Casglwyd safbwyntiau'r gymuned drwy holiaduron, grwpiau ffocws a thrafodaethau â chyfranogwyr allweddol.

1.59 Mae llawer o arolygon GTANA eisoes wedi'u cwblhau, ac roedd modd i'r astudiaeth hon fanteisio ar brofiadau prosiectau eraill, a myfyrdodau ynghylch sut y gellid strwythuro ymgynghoriadau â'r Gymuned yn y dyfodol. Yn benodol, mae'r Grŵp Llywio yn dymuno cydnabod y cyngor defnyddiol a roddodd Dr Philip Brown (Prifysgol Salford), ac roedd astudiaeth Pat Niner (Niner, 2008) yn feincnod ar gyfer mesur cynnydd.

1.60 Bydd y GTANAs yn cyfrannu gwybodaeth i'r broses o Asesu'r Ardal Marchnad Dai Leol, a bydd hynny yn ei dro'n gymorth i oleuo strategaethau tai strategol yr awdurdod lleol, ac yn gymorth er mwyn paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

### *Y Cefndir Deddfwriaethol*

1.61 Mae deddfau a pholisïau'r gorffennol wedi effeithio ar y ddarpariaeth llety bresennol i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n bwysig cael safbwynt hanesyddol, gan mai cynnyrch y gorffennol yw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Lleol, a phatrwm cyffredinol y llety i Sipsiwn a Theithwyr, yn hytrach na deddfau a chyfundrefnau ariannu'r presennol. Mae'r cyd-destun polisi perthnasol ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys deddfau a chyfarwyddyd sy'n ymwneud yn benodol â darparu a rheoli safleoedd, gwersylla diawdurdod,

cynllunio defnydd tir, hawliau dynol a chyfle cyfartal, eithrio cymdeithasol a thai. Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o rai o'r prif faterion.

1.62 Roedd Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960, yn anelu i reoleiddio safleoedd carafanau preswyl sefydlog o fewn y system gynllunio a chodi safonau ar gyfer trigolion carafanau. O dan y Ddeddf hon, roedd ar safle carafanau angen caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd hwnnw, a thrwydded safle carafanau

1.63 Er nad oedd y Ddeddf wedi'i hanelu'n benodol at Sipsiwn a Theithwyr, gorfodwyd llawer ohonynt i symud oddi ar safleoedd traddodiadol ac ymlaen i wersylloedd dros dro. Er bod Deddf 1960 yn cynnwys pŵer disgresiwn i ddarparu safleoedd, ni ddefnyddiwyd y pŵer hwnnw'n aml. Dim ond 14 o safleoedd a oedd wedi'u darparu erbyn 1967 (HoC, 2003)

1.64 Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gosododd Deddf Safleoedd Carafanau 1968 ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol (Cynghorau Sir a Bwrdeistrefi Llundain) i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â diogelu'r preswylwyr rhag cael eu troi allan yn ddiannod. Fodd bynnag, ni wnaeth llawer o awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r ddyletswydd statudol, a bu modd i rai ohonynt (Bwrdeistrefi Llundain a Bwrdeistrefi Sirol) gyflawni eu dyletswydd drwy ddarparu pymtheg llain. Ni roddwyd cymorth ariannol penodol, ond o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, daeth grantiau 100 y cant gan y Trysorlys ar gael (ODPM, 2003:33).

1.65 Roedd Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 yn ymestyn rhai hawliau penodol mewn perthynas â lleoli cartref symudol ar 'safle a ddiogelir' lle caiff ei feddiannu fel unig gartref neu brif gartref yr unigolyn. Roedd hyn yn berthnasol i safleoedd preifat ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ac i gartrefi mewn parciau, ond heb fod yn berthnasol i safleoedd awdurdod lleol, a oedd wedi'u heithrio (adran 5). Diwygiwyd Deddf Cartrefi Symudol 1983 gan Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (adran 318), er mwyn cael gwared â'r eithriad ar gyfer safleoedd awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Cafodd hyn ei weithredu yn Lloegr o 30 Ebrill 2011, ond nid yw hyn wedi'i weithredu yng Nghymru eto (Community Law Partnership, 2012:3).

1.66 Cafodd Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 hefyd effaith ar Sipsiwn a Theithwyr, er i'r Ddeddf gael ei phasio, yn ôl pob golwg, er mwyn mynd i'r afael â'r 'diwylliant rêf' ymhlith agweddau eraill. Rhoddodd hyn bwerau sifil i awdurdodau lleol adenill tir gan dresmaswyr, gan gynnwys gwersyllwyr diawdurdod. Rhoddodd y Ddeddf bwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr roi gorchymyn i grwpiau teithiol adael y tir a oedd yn cael ei ddefnyddio, a daeth peidio cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath yn drosedd. Rhoddodd Deddf 1994 hefyd bwerau i'r heddlu roi cyfarwyddyd i dresmaswyr adael y tir. Ceir dadlau bod y pwerau hyn wedi troi gwersylla

diawdurdod yn drosedd, gyda chanlyniadau anghymesur i Sipsiwn a Theithwyr.

1.67 Hefyd ym 1994, tynnodd y llywodraeth y ddyletswydd a osodwyd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf 1968 i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn ôl, er bod y pŵer disgresiwn o dan Ddeddf 1960 yn parhau hyd heddiw. I bob pwrpas, roedd hyn yn golygu symud tuag at sefyllfa lle'r oedd y gymuned o Sipsiwn a Theithwyr yn darparu eu safleoedd eu hunain, er bod eraill yn awgrymu mai ymgais ydoedd i orfodi Sipsiwn a Theithwyr i fyw mewn llety sefydledig (O'Nions, 1995). Cafodd y cymhorthdal 100% a oedd ar gael gan y Trysorlys i ddarparu safleoedd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 hefyd ei dynnu'n ôl.

1.68 Yn dilyn y Ddeddf hon, tynnodd Cylchlythyr 2/94 y Swyddfa Gymreig sylw at y gofyniad parhaus i awdurdodau cynllunio lleol nodi mewn cynlluniau datblygu y sylw y maent wedi'i roi i fodloni anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr Nodwyd y dylai cynlluniau datblygu unedol, lle bo modd, nodi lleoliadau sy'n addas fel safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ac, os nad yw hyn yn bosibl, dylent bennu meini prawf clir a realistig ar gyfer lleoliadau addas. Roedd y Cylchlythyr hefyd yn annog awdurdodau lleol i ymgynghori â chymunedau o Sipsiwn a Theithwyr a'u cynorthwyo i greu ceisiadau cynllunio (SG, 1994a). Caiff y gofynion hyn eu hailadrodd gan Lywodraeth [Cynulliad] Cymru mewn cyfrolau olynol o Bolisi Cynllunio Cymru (LlCC, 2003:104); LlC, 2011b:133-4).

1.69 O dan fesurau newydd a gyflwynwyd yn Neddf Tai 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn rhan o'u proses o Asesu'r Farchnad Dai Leol, ac i fod â strategaeth wedi'i sefydlu sy'n pennu sut y caiff unrhyw angen a nodir ei fodloni yn rhan o'u Strategaeth Dai ehangach.

1.70 Yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru C30/07 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr (LlCC, 2007), cryfhawyd y gofyniad bod yn rhaid i awdurdodau lleol nodi a darparu ar gyfer safleoedd priodol yn eu cynlluniau lleol. Mae hefyd yn rhoi pwyslais newydd ar ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr ymgynghori, y cyrff sy'n eu cynrychioli a grwpiau cymorth lleol yn ystod y broses gynllunio.

1.71 Mae Deddf Tai ac Adfywio 2008 yn diwygio Deddf Cartrefi Symudol 1983 i roi mwy o amddiffyniad i Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdod lleol, ond mae'r darn perthnasol [318] yn dal heb ei roi ar waith yng Nghymru (LlC, 2011a).

1.72 Deddf arall sy'n berthnasol i Sipsiwn a Theithwyr yw'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn enwedig Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol) ac Erthygl 14 (gwahaniaethu). Bellach ceir rhywfaint o gyfraith achosion sy'n berthnasol i'r Erthyglau hyn. Maent hefyd wedi'u cynnwys yn Neddf

Cydraddoldeb 2010, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw i'r angen i gael gwared â gwahaniaethu ac aflonyddwch ac i hyrwyddo cyfle cyfartal. Fel lleiafrifoedd ethnig cydnabyddedig, mae Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cynnwys o dan y darpariaethau hyn.

1.73 Ym Mhapur Gwyn diweddar Llywodraeth Cymru, Cartrefi i Gymru:

*Ceir deunaw safle Sipsiwn a Theithwyr sy'n eiddo i dri awdurdod lleol ar ddeg, wedi'u lledaenu'n anwastad ar draws y wlad. Ceir mwy o alw am safleoedd preswyl na'r cyflenwad ohonynt.*

*Canlyniad hyn yw gwersylloedd diawdurdod sy'n anghyfreithlon ac yn anniogel i Sipsiwn a Theithwyr a hefyd i'r cymunedau o'u hamgylch. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw safleoedd pontio ar gael yn llety i grwpiau teithiol sydd am gael arhosfan am gyfnod byr. Cafodd y safleoedd newydd diwethaf eu hadeiladu yn Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint a Sir Benfro ym 1997.*

*Yn ôl tystiolaeth yn yr Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a'r Cynlluniau Datblygu Lleol, ceir angen clir am safleoedd newydd ar fyrder. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol wedi gallu bwrw ymlaen â chynlluniau i ddatblygu safleoedd newydd. Mae deddfwriaeth gyfredol yn gorfodi dyletswyddau amrywiol ar awdurdodau lleol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw i'r ddarpariaeth o safleoedd addas a digonol yn eu hardal, ond nid yw'n mynd mor bell â gofyniad statudol penodol, ac fe geir problemau wrth geisio cael caniatâd cynllunio.*

*Ni all y sefyllfa barhau. Pan fydd yr angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'i nodi a heb ei fodloni gan yr awdurdodau lleol perthnasol, byddwn yn gosod dyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn cymryd camau i'w darparu.*

*Byddwn yn:*

• *Cyflwyno dyletswydd statudol i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr, lle mae angen wedi'i nodi* (LlC 2012: 37)

### *Cynllunio*

1.74 Rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer pob safle Sipsiwn a Theithwyr, p'un a yw ar gyfer defnydd preswyl neu bontio, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nodwyd bod sicrhau caniatâd cynllunio yn un o'r rhwystrau sydd yn atal darparu safleoedd pellach. Bydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n ceisio darparu safleoedd iddynt hwy eu hunain yn tramgwyddo'r system gynllunio wrth brynu tir a'i feddiannu heb ganiatâd, a byddant yn wynebu camau gorfodi.

1.75 Er bod tua 80 y cant o geisiadau cynllunio'n cael eu cymeradwyo ar y cyfan, tybir bod y gyfradd llwyddo i Sipsiwn a Theithwyr sy'n prynu tir ac yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer lleiniau carafán yn is na 10 y cant. O'r ceisiadau hynny sydd wedyn yn mynd i apêl, roedd canran yr apeliadau a ganiatawyd (ar gyfer Lloegr) yn amrywio rhwng 52 a 67 y cant yn ystod y blynyddoedd 2006 i 2010. (Hansard, 2011).

1.76 Yn 2007 cryfhaodd Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru C30/07 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr (LlCC, 2007) y gofyniad bod awdurdodau lleol yn nodi a darparu ar gyfer safleoedd priodol yn eu cynlluniau lleol. Mae hefyd yn rhoi pwyslais newydd ar ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr ymgynghori, y cyrff sy'n eu cynrychioli a grwpiau cymorth lleol yn ystod y broses gynllunio.

1.77 Yn y pen draw, y GTANA sydd yn darparu gwybodaeth er mwyn i'r awdurdodau cynllunio lleol unigol baratoi Asesiadau Marchnad Dai Leol (AMDL) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl)

1.78 *Argymhelliad 1*: Gan gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar fabwysiadu ymagwedd gydweithredol, dylid ffurfio Grŵp Cydgysylltu Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a phartneriaid isranbarthol, er mwyn parhau i ddatblygu ymagwedd ystyrlon a chydlynol at lety Sipsiwn a Theithwyr a materion cysylltiedig, gan sicrhau hefyd fod canfyddiadau'r GTANA yn cael eu lledaenu ymhlith adrannau o fewn yr Awdurdodau partner ac ymhlith rhanddeiliaid eraill. Byddai'r Gweithgor Sipsiwn-Teithwyr sy'n bodoli eisoes yn sylfaen ardderchog ar gyfer grŵp o'r fath, ynghyd â chynrychiolwyr o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr.

1.79 *Argymhelliad 2*: Dylid sefydlu Grŵp Cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolaeth mor eang ei daearyddiaeth ag sy'n bosibl i gynrychioli safbwyntiau'r boblogaeth leol o Sipsiwn a Theithwyr, a chyfrannu at y broses ymgynghori. Dylai Grŵp Cydgysylltu Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ddarparu Cadeirydd a chefnogaeth weinyddol i'r grŵp.

## 2. Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal yr Astudiaeth.

### *Cyflwyniad.*

2.1 Fel mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, 'nid oes data dibynadwy ar nifer y Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.' Dyma rai o'r rhesymau a nodwyd am hynny:

- Dim ond cyfrif carafanau a wneir yn y Cyfrifiad Carafanau chwe-misol, yn hytrach na'r unigolion sy'n byw ynddynt;
- Ni fydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety sefydlog yn eu disgrifio'u hunain fel Sipsi neu Deithiwr bob tro, am eu bod yn ofni y bydd pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn; ac
- Oherwydd lefelau llythrennedd isel, nid yw nifer fawr o'r gymuned yn gallu cymryd rhan yn y cyfrifiad (LlCC, 2011:10).

Yn wir, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ynghylch faint o Sipsiwn a Theithwyr sydd yn y DU gyfan, yng Nghymru, neu yn ardal yr astudiaeth. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer y DU gyfan yn amrywio rhwng 82,000 a 300,000, gan gynnwys y rhai hynny sy'n byw mewn tai Brics a Morter.

### *Y Cyfrifiad Carafanau Sipsiwn a Theithwyr*

2.2 Hyd yn ddiweddar, yr unig set ddata swyddogol gan y llywodraeth ar gyfer y boblogaeth oedd y Cyfrifiad Carafanau Sipsiwn a Theithwyr. Cyflwynwyd y cyfrifiad carafanau ym 1985, ond daeth i ben yng Nghymru ym 1997, heb unrhyw drefn arall i gymryd ei le. Yn dilyn argymhellion Pwyllgor Cydraddoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC, 2003) a Niner (2006), cafodd ei ailgyflwyno ym mis Gorffennaf 2006.

2.3 Cynhelir y cyfrifiad chwe-misol o garafanau Sipsiwn a Theithwyr bob mis Ionawr a mis Gorffennaf gan swyddogion awdurdod lleol, gyda Llywodraeth Cymru'n cydgysylltu'r gwaith. Mae'r Cyfrifiad Carafanau'n cyflwyno niferoedd y lleiniau a charafanau ar safleoedd awdurdodedig (rhentu cymdeithasol a phreifat); datblygiadau diawdurdod ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr; a safleoedd diawdurdod ar dir nad yw'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr. Yn y categorïau olaf, gwahaniaethir rhwng safleoedd 'a oddefir' a safleoedd 'nas goddefir'.

2.4 Mae'r cyfrifiad Carafanau Sipsiwn a Theithwyr yn ddefnyddiol am ei fod yn rhoi ciplun o'r nifer o garafanau a geir yn fras ar lefel awdurdod lleol. Mae hefyd yn ddefnyddiol er mwyn archwilio tueddiadau dros amser. Fodd bynnag, mae asiantaethau swyddogol a grwpiau cynrychioli Sipsiwn wedi beirniadu'r Cyfrifiad Carafanau gan ddweud nad yw'n fesur digonol, nac ychwaith yn ddigon cywir (Brown a Niner, 2009), gan nad yw ond yn rhoi ciplun o aelodau o'r gymuned sy'n preswylio mewn carafanau (naill ai ar

safleoedd neu ar safleoedd pontio) ar adeg y cyfrifiadau a gyhoeddir ym mis Ionawr a mis Gorffennaf bob blwyddyn. Nid yw'n cynnwys y rhai sy'n byw mewn tai, nac unigolion nad ydynt o bosib am eu disgrifio'u hunain fel Sipsiwn neu Deithwyr (Niner, 2006). Mae felly'n gogwyddo dosbarthiad Sipsiwn a Theithwyr i'r ardaloedd hynny lle ceir safleoedd carafán.

2.5 Nid yw pob awdurdod lleol yn ardal yr astudiaeth wedi cymryd rhan ym mhob un cyfrifiad carafanau. Ni chyflwynodd Gwynedd gyfrifiad ym mis Gorffennaf 2010, mis Ionawr 2011 na mis Ionawr 2012, ac ni wnaeth Conwy gyflwyno cyfrifiad ym mis Gorffennaf 2010 na mis Gorffennaf 2011. Wrth lunio Siart 1 isod, sy'n dangos y data cyfrif carafanau ers ailddechrau'r drefn, llenwyd y bylchau a achoswyd pan na chyflwynwyd cyfrifiad drwy ddefnyddio'r ffigur diwethaf a gyflwynwyd ar gyfer yr awdurdod dan sylw.

### *Tystiolaeth arall*

2.6 Yn 2003, ceisiodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal CCC gyfrifo'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru drwy gynnal arolwg o awdurdodau lleol a ofynnai faint o oedolion a phlant oedd yn Sipsiwn neu'n Deithwyr a oedd yn byw yn eu hardaloedd. Awgrymai'r arolwg hwn fod cyfanswm o 1,412 o Deithwyr (642 o oedolion a 770 o blant), gyda 59% ohonynt yn byw ar safleoedd awdurdod lleol, 9% ar safleoedd preifat, 3% ar safleoedd diawdurdod a 28% mewn tai. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r data dan sylw ond yn seiliedig ar sampl o 11 o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'n debygol bod yr amcangyfrif hwn yn cynrychioli tangyfrif sylweddol. O'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r GTANA hwn, dim ond Gwynedd (20 o oedolion, 8 o blant, pob un ohonynt yn byw ar safle awdurdod lleol) a gafodd ei chynnwys. Mae'n debygol hefyd fod nifer y Sipsiwn-Teithwyr mewn tai hefyd wedi'u tangyfrif, ond ni wyddys i ba raddau (CCC, 2003)

2.7 Yn dilyn ymlaen o'r astudiaeth hon, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru astudiaeth ymchwil gan y Ganolfan Astudiaethau Trefol a Rhanbarthol, Prifysgol Birmingham. Pat Niner oedd awdur yr astudiaeth, a awgrymai fod 2000 o leiaf o Sipsiwn a Theithwyr yn byw yng Nghymru. (Niner 2006:2) Fodd bynnag, mewn un astudiaeth o'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ym 1998, cyfrifwyd bod y plant sy'n Sipsiwn a Theithwyr eu hunain yn creu cyfanswm o 1,809, cyn dechrau cyfrif yr oedolion yn y wlad (Morgan & Melhuish, 1998).

2.8 Yn fwy diweddar, ym mis Ionawr 2009, roedd astudiaeth pen bwrdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn awgrymu bod y niferoedd mewn llety brics a morter yn cyfateb yn union bron â'r niferoedd ar safleoedd, gan awgrymu poblogaeth o oddeutu 4,000 ledled Cymru. (LlC 2011:11)

2.9 O ran dosbarthiad daearyddol, cytunir bod trwch y boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr ar hyd y prif lwybrau trafnidiaeth yng Ngogledd a De Cymru, a

dyma lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth sefydledig yng Nghymru'n byw hefyd. Cydnabyddir hefyd fod ethnigrwydd y boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yn amrywio, a'i bod yn debygol bod yr holl grwpiau a geir ym Mhrydain i'w cael yng Nghymru, gan gynnwys Sipsiwn Cymreig a Seisnig, Albanaidd a Gwyddelig yn arbennig. Ceir hefyd niferoedd o 'Deithwyr Newydd' (Niner, 2006).

2.10 Defnyddiodd Niner hefyd ddata CYBLD sy'n cofnodi ethnigrwydd plant ysgol yng Nghymru. Dangosai ffigurau 2004 fod 767 o blant wedi cofnodi eu bod o darddiad ethnig Sipsi neu Deithiwr. Dylid nodi bod data CYBLD yn tanddatgan y niferoedd, gan fod rhai rheini'n amharod i ddatgan eu hethnigrwydd. O gynnwys plant dan oed ysgol, a rhai nad ydynt yn bresennol yn yr ysgol, yn enwedig merched yn eu harddegau, ceir cyfanswm o tua 1,100. (Niner, 2006)

2.11 Gellir casglu peth tystiolaeth o ddosbarthiad y boblogaeth hefyd o'r ceisiadau gan awdurdodau lleol am grantiau penodol er mwyn addysgu plant sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr, er bod hyn yn gysylltiedig â phlant oed ysgol. Yn 2005, cofnododd Estyn fod 1,415 o blant yng Nghymru yn elwa ar y grant penodol sy'n bodloni anghenion dysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr (Estyn, 2005). Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, gwnaeth Sir y Fflint gais ar gyfer 93 o ddisgyblion ysgol gynradd ac 20 o ddisgyblion ysgol uwchradd, gyda 2 o blant eraill oed ysgol gynradd a 22 o blant eraill oed ysgol uwchradd yn cael cefnogaeth gan y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr y tu allan i'r ysgol. Yng Ngwynedd, caniatawyd cyllid ar gyfer 12 o ddisgyblion ysgol gynradd a chwe disgybl ysgol uwchradd, gyda 2 arall yn cael cefnogaeth y tu allan i'r ysgol. Mae'r niferoedd mewn ysgolion uwchradd yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o gyfanswm y boblogaeth o'r oed hwn, gan fod rhai plant Sipsiwn a Theithwyr, yn enwedig merched, yn cael eu tynnu'n ôl o addysg. Gwnaeth Conwy a Sir Ddinbych gais ar y cyd i gefnogi 18 o ddisgyblion ysgol gynradd. Ni wnaeth Ynys Môn gais am grant (LlC, 2011). Nid disgyblion sy'n preswylio ar safleoedd yn unig yw'r rhain, ond disgyblion sy'n byw mewn llety brics a morter, ac mae'r ffigurau'n rhoi syniad nid yn unig o'r boblogaeth ehangach, ond o ddosbarthiad y boblogaeth ar draws ardaloedd awdurdod lleol ar wahân i'r rhai sy'n cynnwys safleoedd preswyl (Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, 2011).

2.12 Tan 2011, nid oedd y cyfrifiad cenedlaethol na llawer o gynlluniau monitro ethnigrwydd yn cyfeirio at Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011, rhoddwyd blwch ticio i Sipsiwn a Theithwyr. Gwnaed hyn fel cyfaddawd rhwng dymuniad y grwpiau o randdeiliaid i gipio data ar wahân er mwyn cydnabod eu hunaniaeth ethnig arbennig, a chyfyngiadau gweithredol ar y Cyfrifiad (ONS, 2009).

2.13 Dyma'r data a gafwyd yn nata'r Cyfrifiad a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2012:

| Awdurdod | Cyfanswm y boblogaeth | Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig |
|---|---|---|
| | | |
| **Ynys Môn** | 69,751 | 65 |
| **Gwynedd** | 121,874 | 153 |
| **Conwy** | 115,228 | 65 |
| **Sir Ddinbych** | 93,734 | 34 |
| **Sir y Fflint** | 152,506 | 95 |
| | | |
| **Cyfanswm** | | 412 |

(ONS, 2013)

Er bod hyn yn dangos Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn yr holl awdurdodau yn ardal yr astudiaeth, mae'n debygol y gallai hyn fod yn amcangyfrif rhy isel oherwydd amharodrwydd rhai aelodau o'r gymuned mewn Brics a Morter i'w datgan eu hunain. Fodd bynnag, mae'r cyfanswm o 412 hefyd yn cynnwys rhai anomaleddau amlwg, gan gynnwys y niferoedd bychain a gofnodwyd yn Sir y Fflint, lle ceir y nifer fwyaf o leiniau awdurdodedig yn y rhanbarth. Yn wir, mae cyfanswm y niferoedd ar gyfer Sir y Fflint yn llai na'r 137 o blant yn Sir y Fflint sydd yn derbyn y grant Adran 466. Ar sail hyn, gan ystyried y niferoedd cyfartalog ar bob aelwyd, a chan dybio bod hanner y boblogaeth ohonynt yn Sir y Fflint yn byw mewn llety brics a morter, dylid codi niferoedd Sir y Fflint i tua 567, gan greu cyfanswm poblogaeth ar gyfer ardal yr astudiaeth o 884 o leiaf.

### *Darparu safleoedd: Safleoedd Awdurdod Lleol.*

2.14 Ceir dau safle awdurdod lleol yn yr ardal, y naill a'r llall wedi'u hen sefydlu, ac fe'u crybwyllir yn yr arolwg gan Niner (2006). Adeiladwyd safle Llandegai yng Ngwynedd ym 1981, ac fe'i rheolwyd cyn hynny gan Gyngor y Sipsiwn, ond fe'i rheolir bellach gan yr awurdod lleol. Ar adeg adroddiad Niner, roedd gan Wynedd 24 o leiniau (12 preswyl, 12 pontio), ond yn dilyn hynny caewyd y lleiniau pontio gan y Cyngor ac fe gafodd y rhan honno o'r safle ei chau i ffwrdd, gan ostwng nifer y lleiniau preswyl i saith. Roedd anawsterau rhwng preswylwyr parhaol a defnyddwyr y safle pontio yn un o'r ffactorau a gyfrannodd at y penderfyniad.

2.15 Safle preswyl awdurdod lleol parhaol yw Riverside, Queensferry, yn Sir y Fflint. Mae'n cynnwys 20 o leiniau a Theithwyr Gwyddelig sy'n preswylio arno yn bennaf. Mae Afon Dyfrdwy yn terfynu efo gogledd y safle, sydd mewn

ardal ddiwydiannol yn bennaf yn gyfagos â iard sgrap bresennol, ac yn agos at waith carthion mawr.  Ceir mynediad i'r safle yn syth o'r A494, sydd yn ffordd ddeuol a hefyd yn gefnffordd.

2.16 Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y safle, a ddatblygwyd yn flaenorol at ddefnydd diwydiannol, ym 1990, ac fe'i hadeiladwyd yn fuan ar ôl y dyddiad hwnnw, gyda wynebau caled ac adeiladau amwynder.  Nid oedd unrhyw welliannau wedi'u gwneud i isadeiledd y safle ers ei adeiladu'n wreiddiol, felly roedd angen gwneud rhywfaint o waith diweddaru.  Yn ddiweddar, cafodd y gwaith trydan i'r adeiladau ac i'r garafán sefydlog ei ddiweddaru drwy grant Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan raglen i ailwampio'r safle.

2.17 Mae'r graddau y meddiannir y safle wedi amrywio drwy gydol ei oes. Fodd bynnag, mae mewn cyfnod o sefydlogrwydd ar hyn o bryd, ac mae'r cyfrifiadau carafán diwethaf wedi dangos bod y safle wedi'i feddiannu'n llawn, a bod rhestr aros anffurfiol am leiniau. Mae meddianwyr y safle wedi cyflwyno cais drwy'r rheolwr safle i ehangu'r safle presennol, ac mae'r Cyngor yn ystyried hyn ar hyn o bryd.

2.18 Er bod y Cyngor yn rheoli peth o'r tir cyfagos, mae'r trefniadau mynediad presennol yn syth oddi ar ffordd ddeuol yr A494 yn cyfyngu ar unrhyw gynlluniau i ehangu'r safle.  Ni fydd Adran Briffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn unrhyw gynnydd yn nifer y cerbydau drwy'r fynedfa bresennol, ac fe geir ansicrwydd o hyd ynghylch unrhyw gynlluniau i ledu'r A494.  Mae'r Cyngor felly'n ystyried cynigion am fynediad arall, a fyddai'n golygu bod angen caffael tir trydydd parti.

2.19 Awgrymai Adroddiad Niner (2006) ei bod hi'n anodd cyfrif y safleoedd preifat. Mae'r rhesymau am hyn yn amrywio:

- Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw materion Sipsiwn a Theithwyr yn faterion o bwys nac yn flaenoriaeth o ran polisi.
- Cafodd cwestiynau'r arolwg eu fframio'n seiliedig ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Ni ystyrir datblygiadau sengl sy'n eiddo i'r teulu yn safleoedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac ni chânt felly eu cofnodi'n safleoedd.
- Ni nodir safleoedd carafán lle mae Sipsiwn a Theithwyr yn byw yn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar ganiatadau cynllunio nac ar drwyddedau safle.

2.20 Oherwydd y materion hyn, awgrymir bod awdurdodau lleol yn amcangyfrif yn rhy isel nifer y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preifat. Amcangyfrifodd Niner (2006) fod rhwng 65 a 100 o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preifat ledled Cymru.

### *Darparu Safleoedd: Safleoedd Preifat*

2.21 Dyma'r safleoedd awdurdodedig (un gyda chaniatâd cynllunio pum mlynedd) a geir yn ardal yr astudiaeth ar hyn o bryd:

2.22 Safle preifat hanesyddol sy'n cynnwys 22 o leiniau yw Iard Corbetts/Lyons. Mae oddi mewn i derfyn anheddiad Pentre ac wedi'i amgylchynu â defnydd preswyl a diwydiannol. Mae'r hanes cynllunio mewn perthynas mewn perthynas â defnyddio'r safle fel maes carafanau'n dyddio'n ôl i 1952. Ceir Trwydded Safle Carafanau ar y safle ar gyfer defnydd preswyl parhaol. Mae'r safle yn eiddo preifat a'r lleiniau'n cael eu rhentu ar sail breifat. Cynllun agored sydd i'r safle, sy'n cynnwys wyneb caled. Mae pob llain yn fechan gyda digon o le naill ai i garafán sefydlog neu deithiol a sied. Teithwyr Gwyddelig sy'n meddiannu'r safle'n bennaf. Wrth gyfrif carafanau, mae pob llain wedi'i meddiannu ar y safle hwn, neu dim ond ambell lain sy'n wag.

2.23 Safle preifat sefydledig oddi mewn i safleoedd carafanau gwyliau Mounds yw Safle Carafanau Mitford, Mounds, Gwespyr, ac mae'n dyddio'n ôl i oddeutu 1978. Mae meysydd carafanau gwyliau'n amgylchynu'r safle, ac mae mewn ardal o gefn gwlad agored ac ar rwystr glas o ran y cynllun datblygu. Mae'r safle hefyd mewn ardal lle ceir risg o lifogydd. Caiff y lleiniau eu rhentu drwy drefniant preifat. Mae'r safle'n cynnwys cymysgedd o garafanau sefydlog a theithiol, gyda rhai adeiladau'n sownd wrth y carafanau. Ceir un adeilad ar y safle sy'n gyfleuster gwastraff i'w rannu gan breswylwyr y safle. Ceir Trwydded Safle Carafanau ar y safle ar gyfer defnydd preswyl parhaol.

2.24 Safle preifat yw Parc Dollar, Ffordd Bagillt, Treffynnon y mae Sipsiwn Romani Cymreig wedi'i feddiannu ers mis Mawrth 2007. Mae'r safle mewn ardal o gefn gwlad agored rhwng aneddiadau Bagillt a Threffynnon. Mae wedi'i amgylchynu gan goetir a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed ac mae gyferbyn ag Adeilad Rhestredig Gradd II. Ceir caniatâd cynllunio dros dro ar y safle am 5 mlynedd, fydd yn dod i ben ar 4 Chwefror 2016. Caniatawyd hyn ar apêl ar ôl dau gais gynllunio ôl-weithredol.

2.25 Mae'r caniatâd uchod yn ganiatâd personol ar gyfer chwe theulu sydd wedi'u henwi a'r dibynyddion sy'n preswylio gyda nhw ar eu lleiniau unigol eu hunain. Mae'r caniatâd hwn ar gyfer 6 llain, gyda chaniatâd ar gyfer carafán sefydlog ar bob un, carafán deithiol ac adeilad amwynder brics ar bob llain. Rhoddwyd y caniatâd dros dro gan fod y safle'n anaddas fel safle parhaol oherwydd effaith y safle ar yr ardal leol ac ar leoliad yr Adeilad Rhestredig sydd gyferbyn. Rhoddwyd y caniatâd felly drwy drefniant dros dro o bum mlynedd gan nad oes safleoedd eraill wedi'u darparu, ac yn seiliedig ar gyfnod realistig o amser i broses Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod Cynllunio Lleol fynd rhagddi'n dda yn dilyn asesiad o anghenion.

2.26 Safle preifat yw Lôn Gwern, ac mae Teithwyr Gwyddelig wedi'i feddiannu ers mis Mehefin 2010. Mae'r safle mewn ardal o gefn gwlad agored i'r dwyrain o

bentref Yr Hob. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar apêl ar 11 Mai 2011, ar ôl cyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol. Caniatâd parhaol yw hwn ar gyfer pedair carafán, y caniateir i ddwy ohonynt fod yn sefydlog, ac ystafell ddydd. Mae'r safle wedi'i feddiannu gan un teulu o Deithwyr Gwyddelig a oedd gynt yn preswylio ar safle'r Awdurdod Lleol yn Wrecsam; fodd bynnag, er bod y teulu'n berchen ar y tir, ni chyfyngir ar y caniatâd iddynt hwy'n bersonol.

2.27 Safle preifat bychan yw Maes Carafanau Dee Bank, Stryd Fawr, Bagillt, rhwng y llinell reilffordd a'r A548, yn gyfagos â defnydd diwydiannol y tu allan i derfyn anheddiad Bagillt. Mae'r safle mewn ardal risg llifogydd ac yn agos at Aber Afon Dyfrdwy. Ceir tair carafán sefydlog ar y safle. Dyma safle sefydledig ac ychydig a wyddys am y safle a'i breswylwyr. Nid yw wedi'i gynnwys yn y cyfrifiadau carafanau blynyddol. Mae gan y safle Drwydded Safle Carafanau ar gyfer defnydd preswyl parhaol, ond nid yw wedi'i gynnwys yn y Cyfrifiad Carafanau chwe-misol.

2.28 Dwy garafán gyferbyn â Fferm Waen, Gorsedd; safle preifat bychan yw hwn i'r gogledd o bentref Gorwedd mewn ardal o gefn gwlad agored. Ardal o lawr caled gyferbyn â Fferm Waen yw'r safle, ac mae'n cynnwys dwy garafán sefydlog. Mae bwnd tirweddol aeddfed yn sgrinio'r safle'n dda oddi wrth y ffordd. Cymeradwywyd Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer y safle hwn ym 1996 i leoli un garafán breswyl barhaol ac un garafán i breswylio ynddi rhwng 25 Mawrth a 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn galendr yn unig. Mae'r safle wedi bod yn weithredol ers 1962 pan y gwnaed cais am drwydded safle carafanau, ac mae gan y safle Drwydded Safle Carafanau ar gyfer defnydd preswyl parhaol. Ychydig a wyddys am y safle neu ei breswylwyr ac nid yw wedi ei gynnwys yn y cyfrifiad carafanau chwe-misol.

2.29 Yng Ngwynedd, ceir safle preifat gyda chaniatâd ar gyfer 5 carafán ger Bethesda.

2.30 Nid yw'r holl safleoedd hyn wedi'u cynnwys yn rhai o'r cyfrifiadau chwe-misol o garafanau, sy'n dangos bod Niner (2006) yn gywir wrth awgrymu ei bod hi'n bosibl bod y niferoedd wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel.

2.31 Ceir datblygiad diawdurdod bach, gyda dwy garafán, yn Llanaelhaearn, Gwynedd.

2.32 Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys un gwersyll diawdurdod hirdymor a chanddo bellach statws safle a oddefir. Gwersyll o Deithwyr Newydd mewn encilfa oddi ar yr A5025, sef Ffordd Porthaethwy i Bentraeth, yw Pentraeth. Fe'i sefydlwyd yn 2007, ar ôl i'r preswylwyr symud o safleoedd eraill o fewn ardal yr astudiaeth. Rhoddwyd statws safle a oddefir i'r gwersyll yn 2011.

### *Nifer y carafanau a thueddiadau o'r Cyfrifiad Carafanau*

2.33 Daw'r data a ddarperir yn y bennod hon o'r Cyfrifiadau Carafanau Sipsiwn a Theithwyr, o'r adeg pan ailddechreuwyd cynnal y cyfrifiadau ym mis Gorffennaf 2006 hyd y cyfrifiad diwethaf a oedd ar gael ym mis Gorffennaf 2012.

2.34 O'r adeg pan ailddechreuwyd y cyfrifiad carafanau, ni chafwyd newid i'r lleiniau awdurdod lleol a oedd ar gael. Nid oes unrhyw safleoedd rhentu cymdeithasol, boed y safleoedd hynny'n rhai parhaol neu'n rhai pontio, yng Nghonwy, Sir Ddinbych neu Ynys Môn.

2.35 Mae'r awdurdod lleol yn berchen ar safle Llandegai ac yn ei gweinyddu. Mae'r safle yn Sir y Fflint ar dir awdurdod lleol, ond fe'i cynhelir gan Gyngor y Sipsiwn.

2.36 Nid oes unrhyw leiniau pontio wedi'u cofnodi yn unrhyw ran o ardal yr astudiaeth, er bod Riverside wedi'i ddyrannu'n anghywir yn y categori pontio yn y cyfrifiadau carafanau ers mis Ionawr 2011. Mae'r safle pontio yn Llandegai wedi'i gau ers adroddiad Niner.


2.37 Yng Nghyfrifiad Gorffennaf 2012, cyfanswm y carafanau a gyfrifwyd yn yr ardal oedd 76, wedi'u dosbarthu'n unol â Thabl 1.

Tabl 1: Data Cyfrif Carafanau, Gorffennaf 2012 (LlC: 2012)

| | **Safleoedd awdurdodedig (gyda chaniatâd cynllunio)** | **Safleoedd diawdurdod (heb ganiatâd cynllunio)** | |
|---|---|---|---|
| | Nifer y carafanau | Nifer y carafanau ar | Nifer y carafanau ar safleoedd nad |

| | | | safleoedd sy'n eiddo i'r Sipsiwn eu hunain | | ydynt yn eiddo i'r Sipsiwn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhent cymdeithasol | Preifat | A oddefir | Nas goddefir | A oddefir | Nas goddefir | Cyfanswm |
| **Ynys Môn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 21 | 33 |
| **Gwynedd** | 7 | 2 | 0 | 0 | 0 | 12 | 21 |
| **Conwy** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sir Ddinbych** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sir y Fflint** | 18 | 40 | 0 | 5 | 0 | 2 | 65 |
| **Cyfanswm** | 25 | 42 | 0 | 5 | 12 | 35 | 119 |

Siart 1: Data Cyfrif Carafanau, Gorffennaf 2006-Gorffennaf 2012




http://data.gov.uk/dataset/gypsy_and_traveller_caravan_count

2.38 Ar ôl addasu'r ffigurau ar gyfer adegau pan na chyflwynwyd cyfrifiadau gan awdurdod, drwy ddefnyddio'r ffigur a gofnodwyd yn flaenorol, nid yw nifer y carafanau a adroddwyd yn ardal yr astudiaeth wedi dangos unrhyw dueddiadau amlwg ers ailgyflwyno'r cyfrifiad carafanau. Bydd cyfrifiadau unigol yn codi a gostwng yn ôl yr adeg o'r flwyddyn i gyd-daro â digwyddiadau. Ym mis Gorffennaf 2011, roedd 15 o'r carafanau ar Ynys

Môn yn gysylltiedig â ffair a oedd yn ymweld â'r Ynys, a gall cyfrifiadau Cymru hefyd amrywio yn ôl agosrwydd digwyddiadau fel Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair ym Muallt.

2.39 Ar wahân i Bentraeth, ni nodwyd unrhyw wersylloedd hirdymor diawdurdod drwy ddata'r cyfrifiad carafanau.

## 3 Methodoleg yr Arolwg

3.1 Cynhaliwyd yr asesiad hwn mewn tri cham gwahanol a ddisgrifir yn fanylach isod:

- o Cam un - casglu ac adolygu gwybodaeth eilaidd bresennol
- o Cam dau - ymgynghori â darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill
- o Cam tri - arolwg gyda Sipsiwn a Theithwyr ar draws Ardal yr Astudiaeth.

3.2 Roedd y cam cyntaf yn cynnwys adolygiad o'r deunydd darllen ac o'r ffynonellau eilaidd a oedd ar gael, a gafaelwyd o'r llywodraeth ganolog ac o lywodraeth leol, a hefyd gan gyrff rhanbarthol, cymunedol ac academaidd. Mae'r cam hwn yn rhoi trosolwg hanesyddol, cymdeithasol a gwleidyddol o Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal yr Astudiaeth.

3.3 Roedd yr ail gam yn cynnwys casglu safbwyntiau amryw o ddarparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, gan elwa ar eu profiad a'u canfyddiadau o'r prif faterion ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Casglwyd rhan helaeth o'r wybodaeth hon drwy holiadur helaeth a anfonwyd allan at gynrychiolydd o bob awdurdod lleol. Roedd angen cydweithio rhwng adrannau tai, cynllunio ac addysg er mwyn cwblhau'r holiadur yn llawn.

3.4 Cafodd yr holiadur ei seilio ar dri thestun eang:

- o Profiadau neilltuol rhanddeiliaid mewn perthynas ag anghenion llety ac anghenion cysylltiedig Sipsiwn a Theithwyr ar draws Ardal yr Astudiaeth;
- o Arferion gwaith cyfredol rhanddeiliaid mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr ar draws Ardal yr Astudiaeth, ac;
- o Safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch beth yw'r flaenoriaeth o ran anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar draws Ardal yr Astudiaeth.

3.5 Cwblhaodd yr holl awdurdodau lleol yr holiadur hwn. Ym Mhennod 5 ymdrinnir â'r data a gasglwyd o'r holiadur.

3.6 Un o agweddau pwysicaf Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yw ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr lleol. Digwyddodd hyn rhwng mis Hydref 2010 a mis Chwefror 2011. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau hyn yn bennaf ar ffurf cyfweliadau wyneb yn wyneb a grwpiau ffocws er mwyn casglu gwybodaeth

am eu nodweddion, eu profiadau, eu llety a'u hanghenion a'u dyheadau cysylltiedig.

3.7 Defnyddiwyd sgyrsiau anffurfiol hefyd fel offeryn i gasglu data gan unigolion a oedd yn amharod i lenwi holiaduron neu gymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Trafodir yr arolwg Sipsiwn a Theithwyr yn fanylach isod o dan dair adran: strategaeth samplu a'r gyfradd ymateb; dylunio holiadur; a gwaith maes a chyfwelwyr.

### *Dulliau samplu a chyfraddau ymateb*

3.8 Roedd hi'n anodd llunio ffrâm samplu gan na cheir data dibynadwy ar nifer y Sipsiwn a'r Teithwyr sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Mae Niner (2006) yn awgrymu mai oddeutu 2,000 o bobl yw maint y boblogaeth yng Nghymru, a bod trwch y boblogaeth i'w gael ar hyd y prif lwybrau trafnidiaeth yng ngogledd a de Cymru. Mae hi hefyd yn cyfeirio at amcangyfrifon awdurdodau lleol sy'n awgrymu bod tua 1800 o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn llety brics a morter. Yn ôl yr amcangyfrifon gorau, ceir oddeutu 4,000 o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (Niner, 2006), ac mae rhwng 1,000 a 2,000 o'r rhain yn byw yng Ngogledd Cymru. Yn dilyn ymgynghoriadau â'r Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr, gan ddefnyddio'r ystadegau uchod yn ganllaw, penderfynwyd y dylid ymdrechu i gyfweld â 140 o unigolion yn rhan o'r astudiaeth.

3.9 Defnyddiwyd dull samplu bwriadus. Bydd samplu bwriadus yn targedu grŵp neilltuol o bobl. Defnyddir y dull hwn pan fydd y boblogaeth a ddymunir ar gyfer yr astudiaeth yn anodd ei lleoli ac/neu ei recriwtio (Kelly et al, 2003). Gan fod y boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr yn weddol gudd mewn cofnodion swyddogol, barnwyd mai'r dull hwn fyddai'r dull mwyaf priodol.

### *Dulliau Casglu Data.*

3.10 Daw GTANA Gogledd Orllewin Cymru yn weddol hwyr yng nghylch cychwynnol y GTANAs, ac roedd sawl adroddiad blaenorol ar gael i'w defnyddio fel esiampl. Cafwyd cyngor anffurfiol gwerthfawr gan aelodau'r Uned Tai ac Astudiaethau Trefol ym Mhrifysgol Salford, a chanddi brofiad eang o gynnal GTANAs Lluniwyd yr holiaduron ar gyfer yr astudiaeth hon mewn ymgynghoriad rhwng Gweithgor GTANA a Phrifysgol Cymru Bangor. Cafodd holiaduron drafft eu treialu a'u diwygio ar ôl cael mewnbwn gan aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr.

3.11 Lluniwyd tri holiadur er mwyn casglu data gan unigolion a oedd;

- yn byw ar safleoedd parhaol
- yn byw mewn llety brics a morter, ac;
- yn aros ar wersylloedd neu safleoedd diawdurdod.

3.12 Roedd y cwestiynau'n gymysgedd o gwestiynau tic yn y bocs a chwestiynau penagored.  Rhoddodd hyn gyfle i gasglu gwybodaeth fesuradwy, ond rhoddodd hefyd fwy o gwmpas i'r sawl a oedd yn cyfweld gael atebion naratif. Er nad oedd y tri holiadur yn ddyblygiadau union o'r naill a'r llall, roedd pob un ohonynt yn trafod materion fel:

- o llety presennol;
- o patrymau teithio;
- o manylion am gynnwys yr aelwyd;
- o gwasanaethau lleol, a;
- o dewisiadau/dyheadau am lety yn y dyfodol.

3.13 Ym mis Mai 2010, paratowyd tendr ar gyfer casglu data, dros gyfnod o dri mis, ar Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn brics a morter, ac ar safleoedd sefydledig ar draws ardal yr astudiaeth. Ar gyfer hyn, roedd angen tystiolaeth y byddai'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr yn cymryd rhan yn y broses o gasglu data.   Dewiswyd Eiriolaeth Sipsiwn a Theithwyr Cymru (GTAC) i wneud y gwaith maes casglu data.   Cafodd aelodau o'r gymuned leol o Sipsiwn a Theithwyr eu recriwtio a'u hyfforddi i fod yn gyfwelwyr.   Er mwyn ymgysylltu â'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr, penderfynwyd y dylai'r tîm gwaith maes ddibynnu ar ddau brif ddull:

- o cysylltiadau â Sipsiwn a Theithwyr a oedd eisoes wedi cael eu cyfweld yn rhan o'r asesiad; a
- o Chysylltiadau'r Cyfwelwyr o'r Gymuned o Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn aelodau o'r tîm gwaith maes.

3.14 Gosododd Grŵp Llywio GTANA darged ar gyfer nifer yr ymatebion gan oedolion ym mhob awdurdod lleol.. Mae Tabl 2 yn dangos y targed a'r nifer gwirioneddol o gyfweleion.

Tabl 2: Targed yr oedolion i ymateb a'r nifer gwirioneddol o bob ardal Awdurdod Lleol.

| Ardal Awdurdod Lleol | Nifer targed o oedolion i ymateb | Nifer gwirioneddol o oedolion a wnaeth ymateb |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 15 | 19 |
| **Conwy** | 10 | 9 |
| **Sir Ddinbych** | 10 | 13 |
| **Sir y Fflint** | 35 | 38 |
| **Gwynedd** | 30 | 14 |
| **Cyfanswm** | 100 | 93 |

3.15 Cafwyd mwy na'r nifer targed o ymatebwyr yn Ynys Môn, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Cafwyd tangyflawni yng Nghonwy ac yng Ngwynedd yn arbennig o ran y nifer targed o ymatebwyr.

3.16 O gymharu'r nifer targed o ymatebion gan oedolion â'r nifer a gafwyd yn wirioneddol, roedd y sampl cyffredinol yn brin o 7 o ymatebwyr. Trafodir y rhesymau am hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon.

3.17 Cafodd niferoedd targed hefyd eu gosod mewn perthynas â'r math o lety yr oedd yr ymatebwyr yn preswylio ynddo. Dangosir y niferoedd targed a'r niferoedd gwirioneddol yn Nhabl 3.

Tabl 3: Targed yr oedolion i ymateb a'r nifer gwirioneddol fesul math o lety.

| Math o lety | Nifer targed o oedolion i ymateb | Nifer gwirioneddol o oedolion a wnaeth ymateb |
|---|---|---|
| **Brics a morter** | 30 | 36 |
| **Gwersyll** | 25 | 32 |
| **Safle** | 45 | 25 |
| **Cyfanswm** | 100 | 93 |

3.18 Yn ystod y broses dendro, mynegodd GTAC ddiddordeb mewn cynnwys aelodau iau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr yn y broses o gasglu data. Yn dilyn ymgynghoriad â GTAC a'r Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr, lluniodd tîm yr astudiaeth holiadur arall a fyddai'n addas i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc. Roedd yr holiadur byrrach hwn yn cynnwys dau ddeg pump o gwestiynau ynglŷn â'r prif themâu a amlinellir uchod. Lluniwyd yr holiadur pobl ifanc hefyd fel bo modd ei ddefnyddio pan fyddai angen cynnal cyfweliad

byrrach gydag aelodau eraill o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr (er enghraifft, os nad oedd gan yr ymatebydd lawer o amser), neu os oedd problemau'n gysylltiedig â llythrennedd.

3.19 Gan fod yr holiadur hwn yn boblogaidd, am y rhesymau uchod, arweiniodd at sicrhau mwy o ymatebwyr nag a fyddai wedi ymateb fel arall o wynebu holiadur mwy maith. Fodd bynnag, nodir bod defnyddio'r holiadur ychwanegol yn ogystal â ffurf arall ar gasglu data (sgwrs anffurfiol) wedi golygu bod y dasg o ddadansoddi'r data yn anos.

### *Grwpiau Ffocws.*

3.20 Casglwyd data hefyd o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr. Cafodd aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr eu recriwtio gan GTAC i fod yn hwyluswyr grwpiau ffocws - enghraifft o arfer da. Lluniwyd canllaw testunau ar gyfer y grwpiau ffocws, yn seiliedig ar y testunau a amlinellir uchod. Mae'r holl holiaduron a deunyddiau'r grŵp ffocws i'w cael yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws ar wahân yng Ngwynedd (safle awdurdod lleol), ac ar Ynys Môn (datblygiad diawdurdod).

### *Sgyrsiau Anffurfiol.*

3.21 Er mwyn sicrhau cyfraddau ymateb mor uchel ag a oedd yn bosib, casglwyd data hefyd drwy sgyrsiau anffurfiol. Roedd y dull hwn hefyd yn ffordd ddefnyddiol o gasglu data gan rai a oedd yn amharod i gymryd rhan mewn cyfweliad llawn, oherwydd cyfyngiadau ar amser neu broblemau llythrennedd. Cynhaliwyd sgyrsiau anffurfiol gan amlaf ag unigolion ar wersylloedd. Fodd bynnag, rhoddodd rhai unigolion a oedd yn byw mewn llety ar safleoedd ac mewn brics a morter hefyd gyfweliadau anffurfiol.

3.22 Casglwyd y data rhwng mis Hydref 2010 a mis Chwefror 2011. Anfonwyd nodyn briffio at y Sipsiwn a'r Teithwyr pan ymwelodd y gweithwyr maes â'r safleoedd am y tro cyntaf, yn egluro pwrpas y gwaith ymchwil ac yn eu hannog i gymryd rhan. Ar ddiwedd y cyfnod casglu data, cafodd yr holiaduron eu gwirio gan dîm yr astudiaeth er mwyn sicrhau ansawdd, cyn dadansoddi'r data.

### *Trosolwg o ganlyniadau casglu data am y boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr*

3.23 Cymerodd naw deg tri o ymatebwyr a oedd yn oedolion ran yn yr arolwg. Cymerodd pedwar deg pedwar o ymatebwyr rhwng 11 ac 17 oed ran hefyd. Trafodir y data a gasglwyd gan y bobl ifanc y cyfwelwyd â hwy mewn pennod

ar wahân. Yn Nhabl 4, ceir amlinelliad o nifer yr oedolion a gymerodd ran drwy bob dull. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws a gynhaliwyd - y naill yng Ngwynedd a'r llall ar Ynys Môn.

Tabl 4: Nifer yr ymatebwyr targed a gwirioneddol drwy bob dull casglu data.


| | **Holiadur** | **Grwpiau ffocws** | **Sgyrsiau anffurfiol** |
|---|---|---|---|
| **Cyfweliadau Targed** | 75 | 25 | 0 |
| **Nifer gwirioneddol o gyfweliadau** | 57 | 14 | 22 |

3.24 Llenwyd holiaduron gan bum deg saith o ymatebwyr. Cymerodd pedwar ar ddeg ran yn y grwpiau ffocws. Cynhaliwyd sgyrsiau anffurfiol â gweddill yr ymatebwyr, sef rhai a oedd ar wersylloedd yn bennaf, lle'r oedd hi'n anodd cael gwybodaeth fanwl am resymau ymarferol. Pum munud oedd hyd y sgyrsiau hyn ar gyfartaledd.

3.25 Cynhaliwyd cyfweliad â 52 o ferched (55% o'r sampl) a 41 o ddynion (45%) ar gyfer yr arolwg.


3.26 Dangosir yr oedran a nodwyd gan y cyfweleion yn y graff isod. Ni wnaeth 13% o'r ymatebwyr nodi oedran. Y ganran uchaf o gyfranogwyr oedd y rhai (32%) 36 – 45 oed. Y ganran isaf (10%) oedd y rhai 46 - 55 oed. Ni chafodd unrhyw un dros 65 oed ei gyfweld.

Siart 2: Oedran yr ymatebwyr.




3.27 Dangosir yr ethnigrwydd a nodwyd gan yr ymatebwyr yn y siart isod. Teithwyr Gwyddelig oedd y nifer fwyaf o ymatebwyr (34%), ac roedd ymatebwyr o gefndir y Sipsi Romani hefyd yn creu cyfran fawr o'r sampl (24%). Cynhaliwyd un cyfweliad â Theithiwr Sioe.

Siart 3: Ethnigrwydd yr ymatebwyr.




3.28 Adroddodd 11% o'r ymatebwyr bod ganddynt ryw fath o anabledd. Dyma gyfradd uchel o ymatebwyr, ond mae'n gyson â chanfyddiadau mewn asesiadau llety eraill a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol.

3.29 Roedd yr anableddau a adroddwyd yn amrywio rhwng gorbryder, pyliau o asthma a pharlys ar ôl strôc a phroblemau symudedd. Awgrymodd hanner y rhai a adroddodd fod ganddynt anabledd eu bod yn cael problemau'n gysylltiedig â gorbryder neu iselder.

3.30 Cymedr maint yr aelwydydd, lle datgelwyd y ffigur hwnnw, oedd 4.37 o bobl fesul aelwyd. Y maint canolrif oedd 4 o bobl. Er mai ond 3% o'r ymatebwyr a adroddodd eu bod yn byw ar aelwyd a oedd yn cynnwys 8 o bobl, mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 0.1%. Er y gallai diffyg ymatebwyr dros oed eu pensiwn yn y sampl fod yn ffactor, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o fod yn fwy na'r cyffredin.

Siart 4: Maint yr aelwyd



### *Casglu Data - Beth weithiodd yn dda*

3.31 Cyn dechrau'r prosiect, roedd y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr wedi llwyddo i feithrin perthynas ag aelodau'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn byw ar safle parhaol yn ei hardal. Cafodd y prosiect ei hyrwyddo'n eang o fewn y gymuned gan y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr lleol, ac o ganlyniad i hynny ymunodd dau aelod o'r gymuned â'r Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr gan weithio ar ôl hynny fel cyfwelwyr cymheiriaid.

3.32 Llwyddodd tîm yr astudiaeth hefyd i recriwtio aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr fel cyfwelwyr cymheiriaid. Bu hyn yn hynod ddefnyddiol er mwyn canfod aelodau o'r gymuned a oedd yn byw mewn brics a morter, ac er mwyn ennyn ymddiriedaeth yr ymatebwyr fel eu bod yn cymryd rhan yn llawn yn y broses, yn enwedig yng Ngwynedd ac yn Sir y Fflint.

3.33 Bu cynnig cymhelliant i'r Teithwyr ar ffurf talebau archfarchnad yn aml yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod y gymuned yn cymryd rhan.

### *Casglu Data - Beth na wnaeth weithio'n dda*

3.34 Roedd nifer o ymatebwyr posibl yn amharod i gymryd rhan yn yr arolwg am eu bod yn teimlo y gallai gwneud hynny gael effaith negyddol ar eu tenantiaeth - ac y gallai hynny arwain at gais iddynt adael y safle. Er mwyn cydnabod y broblem hon, cafwyd dull arall o gasglu data: cymerodd rhai ymatebwyr ran yn yr arolwg drwy sgwrs hunangyfeiriedig anffurfiol.

3.35 Yn gyson â phrofiadau awdurdodau lleol eraill a oedd yn cynnal GTANAs, canfu tîm yr astudiaeth fod gwrandawiadau cynllunio a oedd ar ddod wedi amharu ar y posibilrwydd o gael safbwyntiau rhai unigolion.

3.36 Roedd ymatebwyr mewn ardaloedd heb safleoedd swyddogol yn fwy anodd eu canfod oherwydd diffyg rhwydweithiau sefydledig. Mae adroddiadau ar GTANAs blaenorol a gynhaliwyd mewn ardaloedd eraill ledled y DU yn awgrymu mai'r rheswm am hyn yw bod rhai Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn llety brics a morter ac yn amharod i ddatgelu eu treftadaeth fel Teithiwr am eu bod yn ofni y byddant yn cael eu trin yn wahanol yn y gymuned.

3.37 Problem arall annisgwyl oedd rhaglen deledu realiti a ymdriniai â phrofiadau Sipsiwn a Theithwyr ym Mhrydain. Dechreuodd Big Fat Gypsy Wedding ei hail gyfres ym mis Ionawr 2011.Yn dilyn hynny, awgrymodd rhai darpar gyfranogwyr eu bod yn teimlo'n anghyfforddus yn cymryd rhan yn yr asesiad llety am eu bod yn teimlo bod y rhaglen wedi portreadu'r gymuned mewn ffordd negyddol. Hyd hynny, roedd y broses o gasglu data wedi bod yn arbennig o lwyddiannus, a disgwyliwyd y byddai nifer fwy o ymatebwyr yn cael eu cyfweld - yn ychwanegol at y targed o 140 o gyfranogwyr.

Amcangyfrifir na wnaeth 50 o ymatebwyr eraill gymryd rhan yn yr astudiaeth oherwydd pryderon ynglŷn â'r rhaglen deledu uchod.

3.38 Mae'n briodol, yn y fan hon, i wneud argymhellion o ganlyniad i'r broses o gasglu data.

### *Argymhellion*

3.39 *Argymhelliad 3*: Dylai pob awdurdod partner sicrhau bod gweithgor mewnol yn bodoli ym mhob awdurdod. Dylai'r gweithgor hwn dorri ar draws meysydd gwasanaeth, er mwyn cydgysylltu'n well yr ymateb i faterion Sipsiwn a Theithwyr, a'r ymagwedd tuag atynt, gan osgoi'r posibilrwydd o ail-wneud gwaith.

3.40 *Argymhelliad 4*: Dylai pob awdurdod bennu swyddog arweiniol sy'n rheoli ymateb pob awdurdod i faterion Sipsiwn a Theithwyr

## 4. Ymgynghori â rhanddeiliaid

### *Cyflwyniad.*

4.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad â chynrychiolwyr o bob awdurdod lleol er mwyn darparu gwybodaeth ansoddol fanwl am anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Anfonwyd holiadur rhanddeiliaid at gynrychiolydd o bob awdurdod lleol. Dyma'r themâu a drafodwyd yn yr holiadur: y llety presennol ar safleoedd yr angen am ddarpariaethau a chyfleusterau ychwanegol; patrymau teithio; argaeledd tir; mynediad at wasanaethau a gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn bodloni anghenion y gymuned o Sipsiwn a Theithwyr.

### *Safleoedd Awdurdod Lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr*

4.2 Cadarnhaodd rhanddeiliaid nad oedd unrhyw safleoedd preswyl awdurdod lleol wedi cael eu cau na'u gwerthu ers 1994. Caewyd y safle pontio 12 llain yn Llandegai yng Ngwynedd yn 2005, ac fe gollwyd un llain breswyl yn 2010 er mwyn darparu cyfleusterau ar gyfer rheolwr safle Nododd yr holl randdeiliaid nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddarparu lleiniau awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, na chynyddu eu nifer, dros y 5 mlynedd nesaf.

### *Cynllunio a safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preifat.*

4.3 Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a oedd ganddynt gynllun datblygu ar gyfer eu hardal awdurdod lleol y byddai cais am safle Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei asesu yn ei erbyn. Atebodd pob un ohonynt yn gadarnhaol. Nododd yr holl randdeiliaid, ar wahân i Ynys Môn, fod eu cynllun datblygu'n cynnwys polisi ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Nododd Gwynedd nad oedd ei gynllun datblygu'n cynnwys darpariaeth ar gyfer Teithwyr Newydd.

4.4 Pan ofynnwyd a oedd nifer y safleoedd ac/neu leiniau preifat awdurdodedig wedi newid ers 2007, awgrymodd yr holl randdeiliaid, ar wahân i Wynedd, fod y niferoedd wedi parhau'n sefydlog. Adroddodd Gwynedd fod un safle preifat newydd wedi'i gymeradwyo.

4.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y safleoedd preifat awdurdodedig i Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal dros y pum mlynedd nesaf. Dywedodd yr holl ymatebwyr nad oeddent yn gwybod.

4.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr lenwi tabl a oedd yn adlewyrchu faint o geisiadau cynllunio i ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a gafwyd ers 2007.

4.7 O 2007 i 2009 nid oedd gan yr un awdurdod lleol gofnod o unrhyw gais a oedd wedi dod i law. Mae'r tabl isod yn dangos na chafwyd cofnod o unrhyw gais yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych na Gwynedd yn 2010. Roedd gan Sir y Fflint 2 gais wedi'u cofnodi. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd, a gwrthodwyd

un cais - yn Sir y Fflint - (er y cafwyd caniatâd dros dro am bum mlynedd ar apêl ar ôl hynny).

Tabl 5: Ceisiadau Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, 2010.

| Blwyddyn | Ardal ALl | Ceisiadau a gafwyd | Lleoliad | Rhoi caniatâd | Gwrthod caniatâd | Rhoi caniatâd ar apêl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010** | Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Sir y Fflint | 2 | Bagillt, Ewloe | Dim hyd yma | Un, Bagillt | Amh. |
| | Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

### *Datblygiadau Diawdurdod.*

4.8 Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a ddatblygwyd unrhyw safleoedd diawdurdod ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu hawdurdod ers 2005. Adroddodd Conwy a Sir Ddinbych nad oeddent wedi profi unrhyw ddatblygiadau diawdurdod. Dywedodd Sir y Fflint ac Ynys Môn eu bod wedi profi dau ddatblygiad diawdurdod, ac roedd Gwynedd wedi profi un datblygiad diawdurdod. Adroddodd Sir y Fflint fod un achos cyfredol o weithgarwch gorfodi, tra'r oedd Ynys Môn wedi cymryd camau gorfodi ddwywaith ar adeg yr ymateb. Roedd Gwynedd yn disgwyl canlyniadau ymholiadau lles a gwybodaeth feddygol cyn penderfynu sut i symud ymlaen.

4.9 Yna gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a oeddent yn disgwyl gweld mwy o safleoedd preifat diawdurdod ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr dros y pum mlynedd nesaf. Dywedodd pob awdurdod ar wahân i Wynedd nad oeddent yn disgwyl gweld cynnydd. Dywedodd cynrychiolydd Gwynedd, *"Ceir posibilrwydd o hyd, o ystyried lleoliad yr ardal a'r achosion a'r gwersylloedd diawdurdod a gafwyd yn y gorffennol. Rydym wedi cael tri chais am leiniau yn Llandegai dros y tair wythnos diwethaf".*

### *Gwersylloedd diawdurdod Sipsiwn a Theithwyr*

4.10 Awgrymodd tri o'r rhanddeiliaid fod eu hawdurdod lleol yn datblygu polisi i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ar y cyd ag awdurdodau eraill. Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio ar Gyd-gynllun Datblygu Lleol.

### *Darparu Safleoedd mewn Cyd-destun Strategol*

4.11 Awgrymodd yr holl gynrychiolwyr, ar wahân i Gonwy a Gwynedd, fod adolygiad ar y gweill o'r polisïau ar lety i Sipsiwn a Theithwyr. Nododd Conwy eu bod wedi adolygu eu polisïau yn 2007, 2009 a 2010. Roedd hi'n ymddangos bod pob awdurdod lleol yn disgwyl canlyniadau'r Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gwaith arall ar y cyd ag awdurdodau Gogledd Cymru.

4.12 Awgrymodd pawb ar wahân i Gonwy fod Strategaeth Dai Leol eu hawdurdod lleol yn anelu i ddarparu neu hyrwyddo darparu llety i Sipsiwn a Theithwyr. Adroddodd Conwy eu bod yn paratoi i wneud hyn.

4.13 Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid hefyd am unrhyw fesurau penodol a oedd eisoes wedi'u sefydlu i helpu Sipsiwn a Theithwyr sydd am gael ac/neu gadw llety brics a morter yn eu hardal. Dywedodd Ynys Môn a Sir Ddinbych nad oedd ganddynt unrhyw fesurau penodol. Nododd Gwynedd a Sir y Fflint:

- o Gymorth yn gysylltiedig â thai a oedd yn cael ei ddarparu i Sipsiwn a Theithwyr.

- o Fod Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cynnwys fel opsiwn ar ffurflenni monitro ethnig.
- o Nododd Gwynedd hefyd :
- o Swyddog(ion) Cyswllt Sipsiwn/Teithwyr yn eu swydd.

4.14 Awgrymodd pawb ar wahân i Gonwy fod Strategaeth Digartrefedd eu hawdurdod lleol yn anelu i ddarparu neu hyrwyddo darparu llety i Sipsiwn a Theithwyr. Awgrymodd Conwy eu bod yn paratoi i wneud hyn.

4.15 Conwy a Gwynedd oedd yr unig awdurdodau lleol a awgrymodd fod Strategaeth Gymunedol eu hawdurdod lleol yn anelu i roi cymorth i Sipsiwn a Theithwyr mewn perthynas ag anghenion llety ac/neu integreiddio cymdeithasol.

### *Ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr.*

4.16 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a ymgynghorwyd â Sipsiwn a Theithwyr wrth baratoi strategaethau tai, digartrefedd neu gymunedol lleol, neu wrth adolygu'r polisi ar lety Sipsiwn a Theithwyr.

4.17 Dywedodd Conwy a Sir y Fflint fod ymgynghoriad wedi'i gynnal â Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer eu strategaeth gymunedol. Awgrymodd Ynys Môn yr ymgynghorwyd â Sipsiwn a Theithwyr wrth adolygu eu polisi llety Sipsiwn a Theithwyr. Roedd Gwynedd wedi ymgynghori ar eu strategaethau tai a digartrefedd lleol, ac ar yr adolygiad o'r polisi llety Sipsiwn a Theithwyr.

4.18 Awgrymodd y rhanddeiliad o Sir Ddinbych na chynhaliwyd ymgynghoriad â Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer y strategaeth dai, y strategaeth digartrefedd na'r strategaeth gymunedol leol.

4.19 Pan ofynnwyd sut yr ymgynghorwyd â Sipsiwn a Theithwyr, dywedodd y cynrychiolydd o Sir y Fflint "Mae'r Strategaeth Dai Leol gyfredol yn cael ei hadolygu, ac yn rhan o'r broses honno, bydd pob grŵp â buddiant neu yr effeithir arno yn cael cyfle i gyfrannu at y broses adolygu". Roedd Gwynedd wedi cynnal ymgynghoriad drwy'r Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr. Ni wnaeth Ynys Môn, Conwy na Sir Ddinbych ateb y cwestiwn hwn.

4.20 Mae materion llety sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cynnwys yn benodol yn y Cynlluniau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Hiliol gan Gonwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Gwynedd. Mae materion llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cynnwys yn benodol yn ymagwedd Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Sir Ddinbych at y Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru (sydd bellach yn cael ei disodli gan Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru).Ynys Môn nad oedd materion llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cynnwys yn benodol.

4.21 Gofynnwyd i'r cyfweleion a oedd eu Hawdurdod Lleol wedi cynnal neu drefnu gweithgareddau hyfforddiant ar faterion sy'n gysylltiedig â Llety Sipsiwn a Theithwyr ac/neu faterion cydraddoldeb Sipsiwn a Theithwyr ers 2007. Dywedodd Conwy a Sir y Fflint fod eu haelodau etholedig, aelodau uwch o'u staff a'u staff rheng flaen wedi derbyn hyfforddiant. Dywedodd Sir Ddinbych nad oedd unrhyw un o'u staff wedi derbyn hyfforddiant. Awgrymodd Sir Ddinbych mai'r rheswm am hyn oedd eu bod "yn disgwyl canlyniad y GTANA mewn perthynas â darparu safleoedd, a hefyd yn disgwyl cytundeb ynghylch Protocol Gogledd Cymru ar gyfer ymdrin â gwersylloedd diawdurdod cyn mabwysiadu protocol a threfnu hyfforddiant."

4.22 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd eu hawdurdod lleol wedi sefydlu Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Rhyngasiantaethol, neu wedi gwneud trefniadau penodol i wella'r berthynas â'r gymuned leol, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr eu

hunain, fel bo modd cynnal trafodaeth ar ddarparu safleoedd.  Dim ond Gwynedd a atebodd fod rhai trefniadau penodol wedi'u gwneud mewn perthynas â fforwm Sipsiwn a Theithwyr lleol.  Awgrymodd Conwy eu bod wedi gwneud trefniadau eraill ar ffurf "Astudiaeth o'r Cyflenwad o Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a'r Galw Amdanynt er mwyn canfod y math o safleoedd a faint oedd eu hangen yn y CDLl.  *Roedd hyn yn cynnwys cysylltu'n uniongyrchol â chymunedau o Sipsiwn a Theithwyr".*

4.23 Pan ofynnwyd pa drefniadau eraill oedd yn eu lle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, cyfeiriodd Sir y Fflint at y ffaith eu bod yn cynnal gweithgor swyddogion mewnol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn aelod o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru.  Nododd Sir Ddinbych fod darpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar gyfer nifer fach (pedwar ar hyn o bryd) o blant Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety brics a morter, ac ar gyfer unrhyw unigolion ar safleoedd dros dro.

### *Gweledigaeth strategol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.*

4.24 Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a oedd gan eu hawdurdod lleol, yn gyffredinol, weledigaeth strategol gyfannol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr - gan gynnwys darparu safleoedd.  Awgrymodd yr holl ymatebwyr, ar wahân i Wynedd nad oedd ganddynt weledigaeth strategol gyfannol. Awgrymodd Conwy fod ganddo weledigaeth strategol gyfannol 'i raddau', *"O ran y CDLl mae ymagwedd strategol wedi cael ei sefydlu i bennu unrhyw ofyniad drwy'r GTANA gan gynnwys monitro effeithiolrwydd yr ymagwedd Polisi yn barhaus. O dan y fframwaith polisi cyfredol, Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn (1999) yw'r unig gynllun lleol sy'n cynnwys polisi seiliedig ar feini prawf i asesu ceisiadau cynllunio.  Nid yw Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn ond yn trafod rhan o Ardal y CDLl".*

4.25 Awgrymodd yr holl ymatebwyr, ar wahân i Wynedd, fod eu Hawdurdod Lleol yn bwriadu cymryd sawl cam â blaenoriaeth er mwyn datblygu'r weledigaeth strategol a chyfannol hon.  Yn fuan, bydd Sir y Fflint yn dechrau llunio strategaeth yn benodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n gysylltiedig â'r adolygiad o'r Strategaeth Dai Leol gyfredol. Bydd y Strategaeth hon yn rhan o ymateb y cyngor i'r strategaeth Sipsiwn a Theithwyr genedlaethol. Mae Ynys Môn yn  bwriadu datblygu polisïau corfforaethol  er mwyn mynd i'r afael â materion Sipsiwn a Theithwyr; fodd bynnag, mae'r polisïau yn annhebygol o fod yn gyfannol a chynhwysfawr. Adroddodd Sir Ddinbych fod gweithgor swyddogion wedi cael ei sefydlu i ddatblygu polisïau ar ddarparu safleoedd, cyfathrebu, ymdrin â gwersylloedd diawdurdod ac ati. Sicrheir hefyd fod y ceir ystyriaeth o faterion Sipsiwn a Theithwyr ochr yn ochr â materion grwpiau eraill mewn Strategaethau Cymunedol, CDLlau a chynlluniau strategol eraill. Awgrymodd Conwy fod "cwblhau'r GTANA *yn gam cyntaf tuag at nodi'r*

*angen am safle(oedd) (dros dro, pontio neu barhaol), er mwyn nodi gweledigaeth/strategaeth i fodloni unrhyw angen. Nodir dull o ymdrin ag unrhyw angen yn y dyfodol yn CDLl y Cyngor."*

### *Ffactorau sy'n atal darparu safleoedd.*

4.26 Atgoffwyd pob awdurdod lleol fod adolygiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o gynnydd wrth ddarparu safleoedd yn Lloegr yn nodi'r prif ffactorau sy'n atal darparu safleoedd ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr (Brown a Niner,2009; diweddarwyd hyn wedyn i gynnwys darpariaeth Gymreig yn Brown et al, 2010). Dyma'r rhwystrau a nodwyd:

- Diffyg ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith llunwyr polisi
- Gwrthwynebiad o du'r cyhoedd/aelodau etholedig
- Gohebiaeth negyddol yn y wasg
- Anhawster wrth ganfod tir priodol
- Y fframwaith cynllunio
- Arian a chyllid
- Nad yw darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn flaenoriaeth leol
- Materion arwain

4.27 Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr, gynnig sylwadau o'u profiad eu hunain ynghylch a oedd y rhwystrau hyn, neu unrhyw rwystrau penodol eraill, yn berthnasol i'w hawdurdod lleol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

*[Ceir] "diffyg sylfaen o dystiolaeth gyfredol i ddangos angen, ynghyd â gwrthwynebiad cryf o du'r gymuned wrth ddethol safleoedd".*

*"Er bod modd nodi safleoedd posibl drwy'r broses gynllunio, bydd y safleoedd a ddewisir yn aml yn denu gwrthwynebiad cryf gan breswylwyr cyfagos a'u haelodau etholedig".*

*[Ceir] "pryder gwirioneddol ynglŷn â'r ffaith bod y galw mor isel yn yr ardal hon, y byddai darparu safle dros dro yn creu mwy o alw. Ceir ansicrwydd ynghylch maint y safle sydd ei angen, os o gwbl, a lleoliad y safle o fewn ardal wledig daearyddol fawr".*

4.28 Yna gofynnwyd i'r holl randdeiliaid ystyried unrhyw ffactorau pellach sy'n atal darparu safleoedd ychwanegol (neu newydd).

- Roedd Cymru'n cael ei hystyried yn ardal o 'harddwch naturiol'
- O bosib gan nad ystyrir y Sipsiwn a Theithwyr yn 'Gymry'.
- Polisïau neu fesurau cyfredol sy'n trafod Sipsiwn a Theithwyr.

4.29 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi disgrifiad bras o'r camau rhagweithiol yr oedd eu hawdurdod lleol yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chynyddu'r safleoedd a ddarperir. Roedd yr atebion yn cynnwys:

- o Bod GTANA yn cael ei gynnal
- o Taflen Cwestiynau Cyffredin am Sipsiwn a Theithwyr ar gael ar y wefan
- o Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cynnwys mewn hyfforddiant cydlyniant ac amrywiaeth a ddarparwyd i weithwyr, disgyblion ysgol ac aelodau etholedig.
- o Mis Dathlu Hanes Sipsiwn a Theithwyr
- o Anfon taflen i chwalu'r mythau'n gysylltiedig â Sipsiwn a Theithwyr wedi'i hanfon at weithwyr, y cyhoedd a phartneriaid
- o Mae dau awdurdod lleol wedi comisiynu ymgynghorwyr i helpu i nodi safleoedd posibl i ddarparu llety i Sipsiwn a Theithwyr o fewn y ddwy sir yn rhan o Broses y Cynllun Datblygu Lleol.
- o Polisi meini prawf cytunedig ar gyfer dethol safleoedd yn y CDLl sydd ar ddod

4.30 Pan ofynnwyd a oedd unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffai ymatebwyr o bob awdurdod lleol eu gwneud ynglŷn ag angen Sipsiwn a Theithwyr am safleoedd ac/neu ddarparu safleoedd, cafwyd yr ymatebion canlynol:

*"Byddai'n ddefnyddiol cael cyngor ynghylch safleoedd mewn ardal lle mae'n ymddangos bod y galw yn isel iawn. Mae'n bosibl y bydd GTANA Gogledd Cymru yn rhoi cipolwg gwell o'r materion, ond mae'n anodd llunio polisi ar gyfer niferoedd mor fach".*

*“Mae'r gwahaniaethu a wynebir gan y gymuned o Deithwyr, ac sydd wedi magu gwreiddiau dwfn, a'r diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyffredinol o wahanol ddiwylliannau ac anghenion yn rhwystr sylweddol ac yn tanseilio cydlyniant cymunedau, sy'n achosi i'r grŵp hwn gael ei eithrio o gymdeithas".*

*"Mae gen i ddau o bobl ifanc sy'n dod i oed, ac sydd angen lleiniau ychwanegol, yn ogystal ag unigolyn ifanc sydd wedi'i gartrefu ac arno angen symud yn ôl i safle i fod gyda'r teulu"*

*"Credaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy gweithgar i sicrhau darpariaeth briodol er mwyn bodloni anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, ac os oes angen, dylai roi cyfarwyddyd i ALlau gynnig darpariaeth addas".*

*Yng Ngwynedd nodwyd bod cau'r safle pontio yn fater parhaus:*

*“Bu Bangor, a Llandegai yn enwedig, yn arhosfan draddodiadol i Sipsiwn a Theithwyr, gan fod y Safle yn bodoli. Mae'r patrwm hwn wedi parhau ers cau'r Safle Pontio, ac rydym yn credu y bydd y duedd hon yn parhau. Nid yw diffyg darpariaeth mewn ardal benodol yn golygu y bydd y Gymuned yn rhoi'r gorau i deithio neu fynd i'r ardal honno."*

***Argymhellion.***

4.31 *Argymhelliad 5*: Er mwyn cadw at ddeddfau Cydraddoldeb a sicrhau ansawdd uchel y gwaith monitro parhaus, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cydnabod ar ffurflenni monitro ethnig, gan roi'r pwys mwyaf i ddechrau ar ffurflenni'n gysylltiedig â thai a chynllunio.

4.32 *Argymhelliad 6*: Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb, mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr, wedi'u hymwreiddio yn yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys: polisïau tai, cynllunio a digartrefedd.


4.33 *Argymhelliad 7*: Dylai awdurdodau lleol fod yn sensitif i wahanol anghenion Sipsiwn a Theithwyr a allai eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref, a'r rhai a allai fod angen llety gan yr awdurdod lleol, o ran diwylliant a chefnogaeth.

## 5 Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd sydd â Chaniatâd Cynllunio

### *Demograffeg y sampl o'r boblogaeth*

5.1 Cynhaliwyd cyfweliadau ar sampl dethol o'r safleoedd â chaniatâd cynllunio o fewn ardal yr astudiaeth. Mae safle Llandegai yn safle awdurdod lleol sydd wedi'i hen sefydlu ac fe'i rhedir gan yr awdurdod lleol. Safle preifat yw Parc Dollar gyda chaniatâd pum mlynedd sy'n dod i ben ar 4 Chwefror 2016. Cafodd 25 o'r ymatebwyr a oedd yn byw ar y safle eu cyfweld. Cafodd 7 eu cyfweld o Wynedd ac 18 o Sir y Fflint. Roedd 15 o'r ymatebwyr yn ferched, a 10 o'r cyfweleion yn ddynion. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (64%) yn 36-45 oed. Disgrifiodd yr ymatebwyr eu hunain yn Sipsiwn Romani ac yn Deithwyr Gwyddelig

Siart 5: Ethnigrwydd y sampl o'r boblogaeth o Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety safle




5.2 Awgrymodd pedwar o'r ymatebwyr, dau yn Llandegai a dau ym Mharc Dollar, fod ganddynt hwy eu hunain, neu aelod o'u teulu, anabledd.

5.3 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn byw ar safle cyngor yng Ngwynedd wedi byw yno am 6 blynedd ar gyfartaledd. Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld a oedd yn byw ar y safle preifat yn Sir y Fflint wedi byw yno am 3 blynedd ar gyfartaledd.

### *Y cyfleusterau ar y safle a chyflwr y safle.*

5.4 Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r cyfranogwyr am y cyfleusterau ar eu llain ac ar y safle, a gofynnwyd pa gyfleusterau ychwanegol oedd eu hangen. Mae'r cyfleusterau ar y ddau safle yn cynnwys: wynebau caled, terfynau clir i'r lleiniau; dŵr; nwy potel, trydan; system ddraenio - carthbwll; dosbarthu'r post, cyfleuster storio sbwriel ar ffurf biniau ar y llain; casgliad gwastraff gan yr awdurdod lleol; ystafell gymunol; llecyn chwarae i'r plant; safle bws gerllaw, bloc amwynder gyda thoiledau a bath/cawodydd ac ar gyfer golchi dillad. Ar

y cyfan, nododd yr ymatebwyr o'r naill safle a'r llall fod eu safle'n agos at siopau, ysgolion, meddygfa a deintyddfa, yn ogystal â ffôn cyhoeddus.

5.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw bryderon iechyd a diogelwch. Nododd preswylwyr ar safle Llandegai nad oedd hi'n hawdd symud cerbydau a charafanau o amgylch y safle gan fod y ffordd yn rhy gul. Nododd y preswylwyr hefyd fod problem iechyd a diogelwch wedi codi yn y gorffennol pan nad oedd ambiwlans yn gallu cael mynediad i'r safle oherwydd y cyfyngiad ar uchder wrth y fynedfa. Mae hyn yn destun pryder gan fod gan un preswylydd broblemau symudedd oherwydd anabledd.

5.6 Ni wnaeth preswylwyr ym Mharc Dollar sôn am unrhyw bryderon ynghylch symud cerbydau o amgylch y safle.

5.7 Ar y cyfan, roedd preswylwyr Llandegai yn fodlon â'r rhagofalon diogelwch ar y safle, ond roedd ambell breswylydd yn yr arolwg heb fod yn gwybod lle'r oedd y rhybudd rhagofalon tân na'r cyfarpar diffodd tân fel hydrantau, pibellau a diffoddwyr.

5.8 Ni chwblhawyd pob un o'r adrannau hyn o'r holiadur yn llawn gan ymatebwyr o Barc Dollar, felly does dim sicrwydd ynghylch sut roeddent yn teimlo am y rhagofalon diogelwch, nac ynghylch a oeddynt yn ymwybodol o leoliad y rhybudd rhagofalon tân a'r cyfarpar diffodd tân. Fodd bynnag, mewn cyfweliadau anffurfiol â naw phreswylydd Parc Dollar, daeth i'r amlwg fod rhai o'r preswylwyr yn teimlo bod y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn yn 'ofnadwy'. Gofynnodd i'r preswylwyr hyn sicrhau na fyddai modd eu hadnabod yn yr adroddiad, ac roeddent yn teimlo'n anghyfforddus iawn yn siarad yn agored am unrhyw bryderon a oedd ganddynt ar y safle, am eu bod yn poeni y byddai pobl yn gofyn iddynt adael.

5.9 Mewn grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda chyfranogwyr safle Llandegai, gofynnwyd amryw o gwestiynau, gan gynnwys eu hargraff o'r cyfleusterau ar y safle. Nododd y preswylwyr *"Does dim gofalwr....does yna ddim yr un lefel o waith cynnal".* Awgrymodd y preswylwyr fod angen mwy o siediau arnynt, a gofynnwyd hefyd am gael gwneud y safle'n fwy 'cartrefol'.

### *Byw ar safleoedd.*

5.10 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd yn byw ar y safleoedd: Beth yw'r pethau da am fyw ar y safle? Roedd a wnelo agweddau cadarnhaol byw ar y naill safle a'r llall yn bennaf â bod yn agos at deulu a ffrindiau*: "Mae llawer o'm teulu yn byw yma. Mae gennym safle addas i fyw arno"*, tra dywedodd cyfranogwr arall fod y safle'n: *"Agos at y plant a'r wyrion".*

5.11 Cyfeiriodd ymatebwyr o'r ddau safle at lonyddwch y lleoliad: *"Rwy'n hoffi'r heddwch a'r tawelwch. Rwyf wrth fy modd gyda'r anifeiliaid rydyn ni'n eu gweld o gwmpas y lle" ac "Mae'n dawel"*.

5.12 Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr: Beth yw'r pethau drwg am fyw ar y safle? Roedd hi'n ymddangos mai ychydig o broblemau yr oedd gan breswylwyr a oedd yn byw ar safle Sir y Fflint â'r safle, ond nodwyd bod y ffordd gyfagos yn brysur a pheryglus. Roedd gan y preswylwyr a oedd yn byw ar safle Gwynedd amryw o bryderon. Y prif bryder oedd ymddangosiad y safle a'r cyfleusterau arno. Nododd un o'r preswylwyr: *"Er bod y safle wedi'i ailwampio, dydi o'n dal ddim yn safle braf o'i gymharu â safleoedd eraill",* tra'r oedd preswylydd arall yn teimlo nad oedd y safle *"erioed wedi cael ei wneud yn iawn, nad oedd lle i fyw yno".*

5.13 Roedd llawer o'r ymatebwyr ar sale Llandegai yn anfodlon â'r ffensys o amgylch y safle am eu bod yn teimlo'u bod yn gwneud i'r safle ymddangos fel gwersyll crynhoi. Roedd ganddynt hefyd bryderon ynghylch cynnal y safle, gan nodi "nid oes warden....mae'r toiledau y tu allan ac mae angen eu trwsio". Nododd preswylwyr Llandegai hefyd fod angen car os oeddech chi'n byw ar y safle, gan ei fod yn weddol bell o ganol y dref.

5.14 Yna gofynnwyd i breswylwyr y ddau safle: Beth yw eich barn am y safle o ran cymdogaeth, cymdogion, lleoliad, sŵn a thraffig". Awgrymodd dau ymatebydd eu bod yn niwtral ynghylch yr holl agweddau sy'n ymwneud â'r gymdogaeth, cymdogion, lleoliad, sŵn a thraffig tra bod un ymatebydd yn fodlon iawn. Gan nad atebodd unrhyw breswylwyr o safle Parc Dollar yr adran hon, mae'n anodd rhoi trosolwg cynrychioliadol o'u barn.


5.15 Yna gofynnwyd i breswylwyr y ddau safle a oedd ganddynt broblem ar y safle mewn perthynas â chnofilod, tipio anghyfreithlon, cymdogion ac/neu ddadleuon lleol. Awgrymodd y preswylwyr o safle Llandegai a wnaeth ymateb y cafwyd problemau gyda llygod mawr a thipio anghyfreithlon. Ni wnaeth preswylwyr Parc Dollar ateb y cwestiwn hwn.

5.16 Cytunodd preswylwyr Llandegai eu bod wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad pan gwblhawyd gwelliannau i'r safle dair blynedd yn ôl.

### *Patrymau teithio.*

5.17 Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi teithio oddi cartref yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Dywedodd 62 % o'r ymatebwyr eu bod wedi teithio o fewn y misoedd diwethaf.

Siart 6: Patrymau teithio'r boblogaeth sampl o Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety ar safle.




5.18 Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi teithio oddi cartref mai'r rheswm am hynny oedd nad oedd unrhyw arosfannau. Dywedodd un ymatebydd*: "ble allwn i fynd? mae pethau'n mynd yn fwy anodd, arosfannau wedi'u cau i ffwrdd".*

5.19 Roedd y rhai a oedd yn teithio yn gwneud hynny yn yr haf, ac yn gwneud hynny'n bennaf er mwyn gweithio, ymweld â ffrindiau neu berthnasau neu fynd i achlysuron arbennig fel priodasau. Teithiai'r ymatebwyr gyda phobl o'u haelwydydd eu hunain, neu berthnasau a ffrindiau. Teithiai'r ymatebwyr o fewn Gogledd Cymru, o amgylch gweddill Cymru neu ogledd Lloegr. Efallai y byddent yn aros ar ochr y ffordd, ar dir diffaith, yng nghaeau ffermwyr neu ar ochr ffordd. Awgrymodd yr holl ymatebwyr fod eu patrymau teithio wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.

### *Argymhellion*

5.20 *Argymhelliad 8*: Dylai rhestrau aros am safleoedd preswyl fod yn: hygyrch i'r holl Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, a dylent fod yn glir a thryloyw o ran y polisïau dyrannu.

5.21 *Argymhelliad 9*: Mae angen cynnal gwerthusiad rheolaidd o'r dull o reoli safleoedd parhaol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC, 2008)

## 6. Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd a gwersylloedd diawdurdod.

6.1 Mae gwersylloedd diawdurdod, a datblygu safleoedd diawdurdod, wedi troi'n broblem sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Maent yn un o'r prif ffactorau sy'n achosi tensiwn rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r boblogaeth sefydledig. Bydd presenoldeb Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau diawdurdod yn arwain at lefelau uchel o ffrithiant ac at ymddygiad hiliol a gwahaniaethol o du cymunedau sefydledig ac eisteddog. Canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (2006) fod 67 y cant o awdurdodau lleol yn adrodd eu bod wedi gorfod delio â thensiynau rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac aelodau eraill o'r cyhoedd

6.2 Gall Sipsiwn a Theithwyr droi at ddatblygiadau diawdurdod neu sefydlu gwersylloedd, p'un a yw hynny oherwydd prinder safleoedd parhaol awdurdodedig, neu ddiffyg arosfannau awdurdodedig wrth deithio drwy ardal. Efallai y byddant wedyn yn mynd yn gaeth i gylch o ddadfeddiannu, gan ddefnyddio pob math o ddyfeisgarwch er mwyn cael arosiadau byr cyn symud ymlaen. Mewn un astudiaeth, dywedodd traean o breswylwyr ochr ffordd eu bod wedi cael eu troi allan o leiaf 30 gwaith dros y pum mlynedd diwethaf (Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, 2006:19).

6.3 Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn parcio mewn ardaloedd diarffordd y tu ôl i ffermydd, yn preswylio mewn carafanau yng ngerddi perthnasau, ac yn dyblu lleiniau ar safleoedd teulu yn groes i gyfyngiadau cynllunio. (Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, 2006: 10)

6.4 Mae ymchwil wedi awgrymu bod troi Sipsiwn a Theithwyr allan a chlirio gwersylloedd diawdurdod yn costio cryn dipyn yn fwy i drethdalwyr na'r gost o ddarparu safleoedd preswyl parhaol neu safleoedd pontio, o ystyried yr holl gostau cysylltiedig (Morris & Clements, 2002) Mae ymchwil yn awgrymu bod y gost ariannol i awdurdodau lleol yn fwy na chwe miliwn o bunnoedd y flwyddyn. Er ei bod hi 'bron yn sicr bod hyn wedi'i amcangyfrif yn rhy isel o lawer', gan nad ystyrir amser y staff. Nid yw costau plismona a throi Sipsiwn a Theithwyr oddi ar dir, yn lle darparu safleoedd awdurdodedig, yn gost-effeithiol.

6.5 Roedd arolwg GTANA Gogledd Cymru y rhai hynny sydd ar wersylloedd diawdurdod. Roedd y rhain yn cynnwys gwersylloedd dros dro, sydd fel arfer dros gyfnodau byr, a phreswylwyr gwersyll hirhoedlog a oddefir rhwng Pentraeth a Phorthaethwy, yn rhan o'r hen A5025 y ceir ffordd osgoi ar ei chyfer bellach.


6.6 Yn debyg i lawer o asesiadau llety, cafodd GTAC anhawster wrth geisio cyfweld aelodau o'r gymuned a oedd yn byw ar wersylloedd ac ar ddatblygiadau diawdurdod. Dyma oedd y prif resymau am hyn:

- Nid oedd polisi cydgysylltiedig a chyson ar gyfer hysbysu'r cydgysylltydd prosiect pan oedd gwersyll wedi cyrraedd ardal benodol.
- Ym mwyafrif yr achosion, pan gafodd GTAC wybod am wersyll posibl, roedd y gwersyll hwnnw wedi symud ymlaen.
- Roedd y gwersylloedd hynny a oedd yn dal yn yr ardal leol yn aml yn gyndyn iawn o gymryd rhan yn yr arolwg - roedd hi'n ymddangos eu bod yn pryderu y byddai hyn yn amharu ar eu gallu i aros ar y safle.
- Oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â holi preswylwyr gwersylloedd dros dro, mae peth o'r data sydd wedi'i gynnwys yn fan hyn wedi'i dynnu o nodiadau o sylwadau, yn hytrach nag o ymatebion i holiaduron ffurfiol.

### *Demograffeg y sampl o'r boblogaeth.*

6.7 Cafodd 32 o ymatebwyr eu cyfweld: Yr oedd 69 % ohonynt yn byw ar wersylloedd ar draws ardal yr astudiaeth - wedi'u cyfweld drwy holiaduron, neu drwy sgyrsiau anffurfiol. Cymerodd gweddill y cyfweleion, sy'n byw ar wersyll diawdurdod ar Ynys Môn, mewn grŵp ffocws.

Siart 7: Ymatebwyr sy'n byw ar wersylloedd o bob ardal Awdurdod Lleol.




6.8 Mae'n anodd darparu data manwl am ryw, oedran neu ethnigrwydd gan nad yw'n glir mewn llawer o gyfweliadau yn union faint o unigolion eraill oedd yn

bresennol wrth gyfweld â'r cyfranogwr. Mewn achosion eraill, dim ond gwybodaeth gryno ar ffurf sgwrs anffurfiol a gasglwyd.

6.9 Awgrymodd 4 a oedd yn byw ar wersylloedd fod ganddynt anabledd a oedd yn amrywio rhwng problemau symudedd ac iselder a gorbryder.

6.10 Nid yw data cyflawn ychwaith ar gael ar gyfer nifer y carafanau ym mhob lleoliad. Mae'r data sydd ar gael, yn ogystal â thrafodaethau â GTAC, yn awgrymu bod pum carafán ar bob gwersyll ar gyfartaledd - fodd bynnag roedd deg carafán ar un gwersyll yn Sir Ddinbych.

### *Llety presennol*

6.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ba mor hir yr oeddent wedi bod yn y gwersyll, ac am ba mor hir yr oeddent yn disgwyl aros yn y lleoliad hwnnw. Roedd ymatebwyr o bob rhan o ardal yr astudiaeth wedi bod yn y gwersyll am 2 i 8 wythnos. Awgrymodd yr ymatebwyr eu bod yn gobeithio aros yn y lleoliad hwnnw am oddeutu 2 i 8 wythnos, ond crynhodd un ymatebydd safbwyntiau llawer a gafodd eu cyfweld drwy awgrymu y byddent "yn aros yma tan iddyn nhw ein cicio ni allan". Dywedodd yr holl ymatebwyr nad oedd ganddynt safle parhaol.

6.12 Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr lle byddent yn teithio ar ôl gadael y lleoliad, neu ar ôl symud o'r safle. Dywedodd yr ymatebwyr y byddent yn aros yng Ngogledd Cymru.

### *Byw ar wersylloedd diawdurdod*

6.13 Gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynglŷn â'r ardal neilltuol fel arhosfan. Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn, ond mae gwybodaeth anecdotaidd gan GTAC yn awgrymu mai barn gyffredinol yr ymatebwyr ynglŷn â'r lleoliad fel arhosfan oedd bod y lle'n "Iawn, ond does yr unlle arall i fynd iddo*."*

6.14 Roedd a wnelo agweddau cadarnhaol y lleoliad presennol yn bennaf â'r lleoliad a'r gymuned leol. Roedd un ymatebydd yn hoffi'r ardal am ei bod yn "weddol dawel, wrth ymyl afon [ac] allan o'r ffordd", tra awgrymodd ymatebydd arall ei fod yn hoffi'r lleoliad gan fod *"pobl yn ymddangos yn neis"*

6.15 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd beth nad oeddent yn ei hoffi am fyw ar eu safle. Roedd hi'n glir bod diffyg cyfleusterau ac amwynderau i'r cyfranogwyr yn ffactor negyddol i fwyafrif y cyfranogwyr; nododd un fod y safle yn *"safle gwirioneddol dros dro. Dim cyfleusterau ".* Yn ogystal â hyn roedd pryder ynghylch materion diogelwch. Nododd un ymatebydd:

*"[Mae yna] bwll dwfn mawr [sy'n] anniogel i blant. Wrth ymyl ffordd ddeuol. Mae'r fynedfa i'r ffordd ac o'r ffordd yn beryglus, gan fod ceir yn teithio'n gyflym arni. "*

### *Cyfleusterau*

6.16 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut yr oeddent yn ymdopi mewn perthynas â chyfleusterau sylfaenol fel golchi ac ymolchi, dŵr, toiledau, casglu ysbwriel a thrydan. O ran trydan dywedodd pawb a atebodd y cwestiwn hwn fod ganddynt eneradur. Nododd yr holl ymatebwyr nad oes cyfleusterau ar gyfer casglu neu waredu gwastraff. Nododd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn defnyddio bagiau duon ac yna'n eu gadael ar y safle, tra'r oedd ymatebwyr eraill yn defnyddio cyfleusterau ailgylchu lleol. Roedd gan lawer o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sylwadau tebyg i'r sylw canlynol a wnaed gan un o'r cyfranogwyr: *"Dylai'r Cyngor gasglu [ysbwriel]. Mae angen sgip arnon ni".*

6.17 Nododd ymatebwyr eu bod fel arfer yn defnyddio'r archfarchnad neu'r garej lleol i ddefnyddio'r toiled, a dywedodd un ymatebydd yng Ngwynedd ei fod yn defnyddio'r safle Sipsiwn a Theithwyr lleol os oedd modd. Nododd cyfranogwr arall ei fod: *"Yn defnyddio'r tir".* Teimlai'r holl ymatebwyr nad oedd diffyg mynediad, neu ddim mynediad at gyfleusterau sylfaenol fel toiled, yn dderbyniol. O ran mynediad i faddonau a chawodydd, cofnododd yr ymatebwyr eu bod naill ai'n defnyddio tŷ ffrind neu'r ganolfan hamdden leol. Teimlai'r ymatebwyr "nad oedd hyn yn dda, ond beth arall y gallwn ni ei wneud?"

### *Patrymau teithio*

6.18 Awgrymodd yr ymatebwyr eu bod yn teithio gydag aelodau eu cartref eu hunain, perthnasau agos ac aelodau eraill o'r teulu. Byddai'r ymatebwyr yn teithio ledled Gogledd Cymru, gweddill Cymru, Gogledd Lloegr a'r Alban.

6.19 Awgrymodd yr holl ymatebwyr fod eu patrymau teithio wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Pan ofynnwyd pam bod eu patrymau teithio wedi newid, dyma'r ddau brif reswm a roddwyd: diffyg arosfannau a sefyllfa gyfredol gwersylloedd o ran y gyfraith.

6.20 O ran diffyg arosfannau, nododd un ymatebydd fod hyn wedi effeithio ar ardaloedd eraill *"Mae'r patrymau wedi newid - aros yn hirach ar safleoedd diawdurdod gan nad oes yna ddigon o lefydd aros".*

6.21 O ran y llety a ffafrir, awgrymodd yr holl ymatebwyr yr hoffent fyw ar safle preifat sy'n eiddo iddynt hwy a'u teulu, neu ar safle sy'n eiddo i'r cyngor lleol.

### *Gwersylloedd Diawdurdod Tymor Hwy*

6.22 Yn yr adran ganlynol, amlinellir profiadau'r rhai sy'n byw mewn gwersylloedd sy'n ddiawdurdod ond a oddefir bellach rhwng Pentraeth a Phorthaethwy.

Mae'r wybodaeth yn y rhan hon o'r adroddiad yn seiliedig ar yr holiaduron a gwblhawyd ac ar grŵp ffocws a gynhaliwyd gydag 13 o breswylwyr mewn gwersyll diawdurdod ar Ynys Môn. Roedd deg o'r ymatebwyr rhwng 25 a 30 oed ac yn gymysgedd o ddynion a merched, tra'r oedd 3 o'r ymatebwyr, 2 ferch ac 1 bachgen, yn 10-17 oed.

6.23 Roedd 80 y cant o'r cyfranogwyr wedi bod yn byw ar Safle Pentraeth er ei sefydlu ryw 3 blynedd yn ôl. Roedd yr ymatebwyr hyn wedi bod yn cyd-deithio a chyd-fyw am y deng mlynedd diwethaf ar sawl gwersyll diawdurdod ledled Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.

6.24 Yna, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a hoffent ddweud unrhyw beth arall. Manteisiodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ar y cyfle. Teimlai un ymatebydd:

*“Hoffwn i ddweud wrth y cyngor fy mod i eisiau aros yma. Cadwch feddwl agored a dewch i siarad â ni. Neges i'r cyngor - roedd rhybudd troi allan wedi cael ei osod ar y carafanau a oedd yn bygwth atafaelu'r ôl-gerbydau."*

## 7. Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn Brics a Morter

### *Cyflwyniad.*

7.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar amgylchiadau ac anghenion Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety brics a morter. Mae'n dechrau drwy ystyried amgylchiadau eu llety presennol cyn edrych ar eu disgwyliadau a'u gofynion i'r dyfodol.

7.2 Amcangyfrifir bod rhwng a hanner a deuparth poblogaeth y DU o Sipsiwn a Theithwyr bellach yn byw mewn tai 'brics a morter'.Weithiau gwneir hyn drwy ddewis, ond gall hefyd fod yn rheidrwydd, oherwydd prinder y lleiniau ar safleoedd awdurdodedig (Brown a Niner, 2009:19). Yn ôl canfyddiadau GTANA, byddant naill ai'n cael eu cartrefu gan nad oes digon o safleoedd yn cael eu darparu ac o flino ar gael eu troi allan dro ar ôl tro, neu bydd pryderon ynghylch iechyd neu addysg aelodau o'r teulu yn achosi iddynt symud i mewn i dai.(Cullen et al, 2008:18; Cemlyn, 2009).

7.3 Mae sawl GTANA wedi adrodd ynghylch agwedd elyniaethus cymdogion at Sipsiwn a Theithwyr mewn tai, ac mae'n debygol fod dod i gysylltiad â hiliaeth a gwahaniaethu yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl (Cemlyn, 2009).

7.4 Mewn llawer o arolygon GTANA, bu'n anodd canfod teuluoedd o Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety brics a morter. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, yn ardal yr astudiaeth ac yn genedlaethol, yn cynnig yr opsiwn Sipsiwn a Theithiwr ar ffurflenni monitro ethnig. Yn ardal yr astudiaeth, roedd swyddogion a oedd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r gymuned naill ai fel Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithiwr, neu yn rhinwedd rhyw swyddogaeth arall, yn gwybod am rai teuluoedd a oedd naill ai'n byw o fewn ardal eu hawdurdod lleol, neu a oedd wedi bod yn byw yn yr ardal honno ac wedi symud i ardal arall. Bu ‘gwybodaeth leol' yn gymorth i adnabod rhai a oedd wedi bod yn preswylio yn y gymuned er tro. Yna, gellid defnyddio technegau caseg eira i ganfod preswylwyr eraill, er bod yn rhaid ystyried agweddau sensitif wrth wneud hynny. Byddai rhai teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn amharod i gyfeirio at aelodau eraill o'r gymuned heb eu caniatâd.

7.5 Yn anochel, byddai'r dulliau adnabod hyn yn fwy tebygol o gynnwys teuluoedd sydd wedi bod yn byw yn yr ardal leol ers tro, a chyn-breswylwyr o safleoedd lleol. Byddai newydd-ddyfodiaid yn llai tebygol o gael eu canfod drwy'r dulliau hyn.

7.6 Mae hefyd yn debygol y byddai'r dylanwadau hyn yn rhoi gogwyddo dosbarthiad y sampl tuag at dai rhent, ac yn enwedig tai rhent cymdeithasol, yn hytrach na'r sector perchen-feddianwyr.

7.7 Hyd yn oed o'u canfod ac o gysylltu â nhw, roedd rhai ymatebwyr yn amharod o hyd i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae GTANAs ac astudiaethau ymchwil eraill wedi nodi bod Sipsiwn a Theithwyr yn profi agwedd elyniaethus gan gymdogion, a gallai hyn fod yn ffactor perthnasol yn hyn o beth. (


### *Demograffeg y sampl o'r boblogaeth.*

7.8 Cafodd 36 o ymatebwyr a oedd yn byw mewn brics a morter eu cyfweld. Llanwodd y mwyafrif ohonynt (91%) holiaduron, tra cafodd y data a gasglwyd gan weddill yr ymatebwyr ei gasglu drwy sgwrs anffurfiol.

7.9 Deuai bron hanner y sampl o'r boblogaeth (47%) o Sir y Fflint. Yng Nghonwy y cafwyd y nifer lleiaf o ymatebwyr (10 y cant).Roedd tri chwarter yr ymatebwyr yn ferched.

7.10 Cafwyd y gyfradd ymateb uchaf ymhlith rhai 35-44 oed. Ni chynhaliwyd cyfweliadau ag unigolion 65-74 oed, nac â rhai a oedd yn 75 oed neu'n hŷn.

Siart 8: Oedran yr ymatebwyr sy'n byw mewn llety brics a morter.





7.11 Roedd bron i draean (34%) yr ymatebwyr yn Deithwyr Gwyddelig. Teithwyr Newydd oedd y ganran isaf o ymatebwyr (3.84%).

7.12 Y brif ddeiliadaeth oedd tai rhent cymdeithasol, er y cafwyd cynrychiolaeth ar gyfer ymatebwyr o bob deiliadaeth.

### *Llety presennol*

7.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ba mor hir yr oeddent wedi bod yn byw yn eu llety presennol. Dywedodd 41% eu bod wedi byw yn eu llety presennol am 2-5 mlynedd, tra dywedodd 2% eu bod wedi bod yn byw yno am naill ai 10 neu 15 mlynedd.

Siart 9: Pa mor hir yr oedd ymatebwyr brics a morter wedi bod yn byw yn eu llety presennol.




7.14 Eglurodd yr ymatebwyr rai o'r prif resymau pam eu bod wedi symud i mewn i dai. Dyma'r rhesymau yn nhrefn pwysigrwydd:

- Yn methu cael lle ar safle;
- Rhesymau Iechyd:
- Eisiau 'setlo': Methu canfod arosfannau wrth deithio
- Yn methu cael lle ar safle;
- Rhesymau Iechyd:
- Eisiau 'setlo':
- Methu canfod arosfannau wrth deithio.

7.15 Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn "beth sy'n dda am fyw mewn llety brics a morter". Y brif fantais fwyaf o fyw mewn tai oedd y canfyddiad bod y cyfleustodau a'r gwasanaethau'n well: *"Mae gennych chi faddon a thoiled yn y tŷ"*, tra dywedodd un ymatebydd arall: *"cysur, popeth wrth law, trydan, dŵr ac ati"*. "Dim pwyntiau da" oedd barn ymatebwyr eraill fodd bynnag, gan nodi eu bod yn teimlo'n unig neu'n isel eu hysbryd wrth fyw mewn tai.

7.16 Roedd a wnelo'r prif anfanteision o fyw mewn tai ag unigedd. Awgrymodd ymatebydd ei fod yn teimlo "wedi fy nghau i mewn, yn dawel iawn ac yn unig" *tra adroddodd merch o blith y cyfweleion ei bod yn teimlo "wedi fy nghau i mewn ers i mi golli'r gŵr. Rwy'n cysgu yn yr ôl-gerbyd yn fy ngardd".*

7.17 Nododd tîm yr astudiaeth fod mwyafrif yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn brics a morter yn ymddangos fel pe baent yn isel ac yn anfodlon ynghylch byw mewn tai.

7.18 Yn aml, pwysleisiwyd y gwahaniaeth rhwng byw mewn tŷ a byw mewn carafán:

*"I ddechrau, roedd yn deimlad od cael grisiau. Rwy'n teimlo'n fwy fel pe bawn wedi fy nghau i mewn."*

*"Rwy'n iawn yn dod i fyny'r grisiau bellach, ond roeddwn i'n teimlo'n nerfus pan symudais i mewn ar y dechrau. "*

*"Rhyfedd iawn i ddechrau, gan fy mod i wedi arfer byw mewn ôl-gerbyd. Roeddwn i'n teimlo'n isel ac yn sâl am gryn dipyn o amser i ddechrau ar ôl symud i mewn. Allwn i ddim edrych dros ganllaw'r grisiau gan fod gen i ofn uchder."*

7.19 Mae'r canfyddiadau mewn GTANAs eraill yn dangos mai perchen-feddianwyr bynglos (fel arfer gyda lle i barcio un neu ddwy o garafanau) a phreswylwyr mewn llety sy'n copïo dyluniad lleiniau ar safleoedd carafanau preifat yn fras, sydd yn fwyaf bodlon â'u llety (Cemlyn et al 2009:20).

7.20 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn mynychu cyfarfodydd i drafod materion Sipsiwn a Theithwyr. Dywedodd deg ohonynt y byddai ganddynt ddiddordeb yn hynny.

### Patrymau teithio

7.21 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu patrymau teithio. I ddechrau gofynnwyd a oeddent wedi teithio oddi cartref o fewn y 12 mis diwethaf. Nid oedd 68 % wedi teithio.

7.22 Pan ofynnwyd am y rhesymau pam nad oeddynt wedi teithio dros y deuddeg mis diwethaf, dywedodd y mwyafrif ohonynt mai aflonyddwch ar y ffyrdd oedd y prif reswm. Awgrymodd un ymatebydd: *“Mae'n mynd yn fwy anodd, mae*

*llefydd wedi'u cau i ffwrdd. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd yna lefydd ar gael ym Mangor. Y dyddiau hyn, gall Teithwyr fynd mor bell â'r Rhyl"*, tra nododd ymatebydd arall: "*Does dim safleoedd priodol beth bynnag, fyddwn i ddim yn teimlo'n gyffyrddus".* Dywedodd gweddill yr ymatebwyr iddynt benderfynu peidio teithio oddi cartref am resymau iechyd.

7.23 Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu mai Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn byw mewn brics a morter ac yn teithio'n anaml oedd â'r statws iechyd gwaethaf ymhlith yr holl grwpiau o Sipsiwn a Theithwyr.

7.24 Awgrymodd yr ymatebwyr a oedd yn teithio eu bod yn teithio yn ystod misoedd yr haf am gyfnod o 11 wythnos ar gyfartaledd. Roedd y rhai a oedd yn teithio, fel arfer yn teithio gydag aelodau eu haelwyd eu hunain, gyda pherthnasau agos ac/neu gyda ffrindiau a pherthnasau. Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i barcio ar ffyrdd, ar dir gwastraff neu ar safleoedd pontio swyddogol. Yn ogystal â theithio ledled gogledd Cymru, roedd y sampl hefyd yn teithio i ardaloedd fel de Cymru, Swydd Amwythig, Iwerddon a Swydd Nottingham. Teithiai'r ymatebwyr am resymau'n gysylltiedig â gwaith neu i ymweld â ffrindiau neu berthnasau.

7.25 Ar y cyfan, nododd mwyafrif yr ymatebwyr fod y ffordd deithiol o fyw yn fwy anodd; nododd un ymatebydd "Mae'r gyfraith wedi newid, mae'n mynd yn galetach. *Bydd Teithwyr yn cael eu symud ymlaen"* tra awgrymodd un arall o'r cyfweleion fod patrymau teithio wedi newid oherwydd:*"Bod teithwyr wedi gorfod ymaddasu. Rwy'n teimlo fel pe bawn wedi fy ngwahanu oddi wrth fy nghysylltiadau teithio. Mae llawer o arosfannau traddodiadol i deithwyr yn cael eu cau i ffwrdd".*

7.26 Roedd y teimlad o fod ar wahân i ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr, a bod y diwylliant hwnnw'n un dieithr, yn thema gyffredin i'r rhai a oedd yn byw mewn tai. Nododd un ymatebydd "Ers i'r plant dyfu i fyny, rydw i wedi bod yn sefydlog. *Dylai'r cyngor wneud mwy i Deithwyr, mwy o gyfleusterau".*

7.27 Yna gofynnwyd i'r boblogaeth sampl a lenwodd yr holiadur brics a morter llawn a oeddynt erioed wedi cael eu gorfodi i wersylla ar och y ffordd neu sefydlu gwersyll diawdurdod wrth deithio dros y flwyddyn ddiwethaf. Awgrymodd 40 % eu bod wedi gorfod gwneud hynny, ar draws Gogledd Cymru yn bennaf – ac, yn fwyaf nodedig, yn Nhywyn [Abergele]

### *Disgwyliadau o ran Llety*

7.28 Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa fath o dai y byddent yn eu hoffi orau. Cafwyd cyfradd ymateb isel ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn llety brics a morter ar gyfer y cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth ymateb, awgrymodd 85% y byddent yn hoffi byw ar safle yr oeddent hwy eu hunain

neu eu teulu'n berchen arno. Yr ail ddewis oedd safle a oedd yn eiddo i'r cyngor lleol.

7.29 Fel y trafodwyd, mae'n anodd faint o aelodau o'r aelwyd fydd am gael eu llety eu hunain o fewn y pum mlynedd nesaf, gan nad atebodd llawer o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, neu gan nad oedd y data ar gael gan fod mwyafrif yr ymatebwyr wedi llenwi'r holiadur byrrach.

7.30 Cynhaliwyd 52 o gyfweliadau â'r Sipsiwn a'r Teithwyr a oedd yn byw mewn tai ar draws ardal yr astudiaeth. Nododd GTAC y siaradwyd â llawer mwy o unigolion nad oeddent yn dymuno cymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd un thema amlwg a gafwyd yn y cyfweliadau â'r gymuned hon, yn awgrymu bod llawer yn teimlo fel pe baent wedi'u hynysu o fewn y gymuned leol, a hefyd yn teimlo'n bell oddi wrth y gymuned o Sipsiwn a Theithwyr.

7.31 Gan adlewyrchu safon cymharol wael yr wybodaeth sydd ar gael yn genedlaethol am deuluoedd mewn llety brics a morter, mae'r dystiolaeth sydd ar gael o waith ymchwil yn gymharol brin. Mae ymchwil o astudiaethau diweddar (Greenfields & Smith, 2010; Greenfields & Smith, 2011) yn cynnig dau gipolwg o deuluoedd mewn tai cymdeithasol. Roedd Sipsiwn a Theithwyr yn fwy tebygol o gael cynnig

7.32 Tenantiaethau mewn ardaloedd o ansawdd gwael ac/neu dai cymdeithasol yr oedd y galw amdanynt yn isel, a byddent hefyd yn ceisio cynnal cymunedau drwy ddefnyddio trosglwyddiadau tenantiaeth i symud yn nes at berthnasau ac aelodau eraill o'r gymuned.

7.33 Codir materion polisi i ddarparwyr tai cymdeithasol yn yr ardal yn sgil y canlyniadau hyn. Ni ellir ond archwilio'r rhain yn llawn os oes modd adnabod aelodau o'r gymuned sy'n byw mewn tai brics a morter ar rent cymdeithasol.

7.34 Mae angen gwneud gwaith ymchwil er mwyn canfod a geir gwahaniaeth rhwng patrymau profiad aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau eraill o ran tai cymdeithasol, ac os felly, a yw hyn yn sgil unrhyw strategaethau neu weithdrefnau ffurfiol neu anffurfiol ar ran yr asiantaeth.

7.35 Drwy'r gwaith ymchwil, efallai y bydd modd canfod patrymau clwstwr ar rai ystadau yn sgil trosglwyddo/cyfnewid tenantiaethau.

7.36 *Argymhelliad* 8: Asiantaethau Tai Cymdeithasol i gynnwys opsiwn Sipsi/Romani/Teithiwr er mwyn hunan-ddatgan ar ffurflenni cais.

7.37 *Argymhelliad 9*: Asiantaethau Tai Cymdeithasol i adolygu patrymau ymgeisio a dyrannu presennol drwy ddefnyddio pecyn cymorth priodol neu gyfres o gwestiynau er mwyn canfod a oes tueddiadau y gellir eu hosgoi o fewn y system.

7.38 *Argymhelliad 10*: Asiantaethau Tai Cymdeithasol i sefydlu a oes unrhyw batrymau'n deillio o ddewisiadau cadarnhaol neu benderfyniadau negyddol yn sgil canfyddiad o fygythiadau neu achosion eraill.

7.39 *Argymhelliad 11*: Dylid addasu'r dulliau a'r ymagweddau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i hybu llety fforddiadwy ymhlith aelodau o gymunedau nad ydynt yn deithwyr i fod yn addas ar gyfer y llety a ddefnyddir gan aelodau o gymunedau o Sipsiwn a Theithwyr.

## 8. Sipsiwn a Theithwyr Ifanc

### *Yr argraff o'r llenyddiaeth.*

8.1 Mae cyfranogiad mewn addysg uwchradd yn aruthrol o isel, ac fe gyfeirir yn aml at wahaniaethu ac ymddygiad camdriniol ar ran y staff a'r myfyrwyr fel rhesymau dros adael addysg yn gynnar.

8.2 Hyd yn oed pan fyddant wedi'u cartrefu neu wedi setlo'n gymharol ar safle parhaol, bydd llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd mynd i mewn i ysgolion neu ddefnyddio cyfleusterau Addysg Bellach.

8.3 Gall plant ddioddef niwed seicolegol ar ôl cael eu troi oddi ar dir yn greulon dro ar ôl tro, ac yn sgil tensiynau'n gysylltiedig â ffyrdd ansicr o fyw, ac agwedd elyniaethus y boblogaeth ehangach.

8.4 Mae ymchwil hefyd wedi dangos bod plant yn arbennig o agored i brofi hiliaeth a gwahaniaethu, gan eu cyfoedion yn yr ysgol, gan oedolion mewn awdurdod fel athrawon, a chan blant ac oedolion yn y boblogaeth gyffredinol. (Cemlyn et al, 2009)

### *Y Cefndir.*

8.5 Bydd Sipsiwn a Theithwyr yn priodi ac yn ffurfio aelwydydd newydd yn gymharol ifanc. Mae safbwyntiau a dewisiadau Sipsiwn a Theithwyr ifanc felly'n bwysig er mwyn llunio strategaeth GTANA. Yn rhan o GTANA Gogledd Orllewin Cymru, ceisiwyd cynnal arolwg o farn Sipsiwn a Theithwyr ifanc. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith a wnaed yn flaenorol yng Nghymru ac mewn ardaloedd eraill (Clark a Cemlyn, 2005; Ureche a Franks, 2008; Lloyd a Carrick, 2000; Aspinwall a Larkins, 2010)

8.6 Ar y cyd ag Eiriolaeth Sipsiwn a Theithwyr Cymru (GTAC), casglwyd data gan Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn ardal yr astudiaeth ar gyfer Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru. Cafodd holiadur ei gynllunio'n arbennig i'r diben hwn a oedd yn gweddu i bobl ifanc. Yna, cafodd yr holiaduron hyn eu llenwi ochr yn ochr â chyfweliadau â'r oedolion a oedd yn cymryd rhan. Cafodd disgyblion yng Nghanolfan Delyn yn Sir y Fflint, lle ceir darpariaeth ar wahân ar gyfer disgyblion sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr, hefyd wahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg.


### *Demograffeg y sampl o'r boblogaeth*

8.7 Cymerodd 43 o Sipsiwn a Theithwyr ifanc ran yn yr arolwg drwy lenwi'r holiadur i bobl ifanc. Deuai 55% o'r ymatebwyr o Sir y Fflint, 21% o Wynedd, a'r gweddill o Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych.

8.8 O'r sampl, cwblhawyd 28 o'r holiaduron gan ferched ifanc o blith y Sipsiwn a'r Teithwyr, a 15 o'r holiaduron gan fechgyn ifanc o blith y Sipsiwn a'r Teithwyr.

8.9 O ran oedran, diffinnir bod ymatebwyd 11 i 17 oed yn Sipsi neu'n Deithiwr ifanc.

Siart 10: Oedran yr ymatebwyr ifanc o blith y Sipsiwn a'r Teithwyr.




8.10 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn 14 oed neu'n hŷn. Gan fod Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn priodi'n gymharol ifanc, mae barnau'r sampl o bobl ifanc yn berthnasol mewn perthynas â darparu llety yn ardal yr astudiaeth yn y dyfodol.

8.11. Yna holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â'u cefndir ethnig. Roedd y rhan fwyaf o'r sampl yn eu disgrifio'u hunain fel Sipsiwn Romani (cyfanswm o 34%), gydag 18% yn Sipsiwn Romani Seisnig ac 16% yn Sipsiwn Romani Cymreig. .

8.12 Roedd 58% yn byw mewn llety ar safle; adroddodd 39% eu bod yn byw mewn tai brics a morter; ac roedd 5 yn byw mewn gwersyll.

8.13 Yn bennaf, awgrymodd y rhai a oedd yn byw mewn tai brics a morter eu bod yn hoffi eu llety presennol, gan fod cyfleusterau fel toiledau ac ystafelloedd ymolchi yn agos, ac oherwydd y lle a oedd ganddynt. Nododd sawl ymatebydd ei fod yn hoffi byw mewn tai oherwydd "Mae gen i fy ystafell wely fy hun".

8.14 O ran yr hyn nad oeddent yn ei hoffi am eu llety, dywedodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr nad oeddent yn hoffi byw mewn tŷ gan nad oeddent yn teimlo bod ganddynt gysylltiad â'u treftadaeth Sipsiwn a Theithwyr - byddai'n well ganddynt hwy fyw ar safle. Dywedodd un o blith y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr arolwg *“Hoffwn i fyw yn ôl ar safle Queensferry eto, achos mae lle dwi'n byw yn lle diflas”.*

8.15 O ran unigolion a oedd yn byw mewn llety ar safle, awgrymodd rhan helaeth, os nad y cyfan ohonynt, mai agosrwydd at y teulu ac at ffrindiau oedd y prif reswm pam eu bod yn byw mewn llety ar safle. Nododd un ymatebydd: *"Rydyn ni o'r un anian yn fanma".*

8.16 Roedd diffyg cyfleusterau neu gyfleusterau gwael yn ffactor pwysig y cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ato wrth ddweud beth nad oeddent yn

ei hoffi am fyw mewn llety ar safle. Fel yr awgrymodd un ymatebydd ifanc: *“Does dim cawodydd, ac mae llifogydd ar y safle bob tro y bydd hi'n bwrw glaw'n drwm."*

8.17 Roedd unigolion a oedd yn aros mewn gwersylloedd yn llai tebygol o gyfeirio at agweddau cadarnhaol byw yn y math hwn o lety, yn bennaf am eu bod yn wynebu bygythiad cyson o gael eu troi oddi ar y tir. Cyfeiriwyd at y cyfle i deithio gyda ffrindiau a pherthnasau fel agwedd gadarnhaol ar deithio.

8.18 Awgrymodd pobl ifanc a oedd yn byw ar y safle Teithwyr Newydd ar Ynys Môn, wrth sôn am agweddau negyddol y llety, nad oedd *"Dim golau'r haul, mae'n rhewllyd yn y gaeaf ... Mae'n teimlo fel nad oes neb yn gofalu am y lle".*


### Patrymau teithio

8.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi teithio oddi cartref yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd 42% o'r ymatebwyr wedi teithio oddi cartref.

### Dyheadau am lety yn y dyfodol.

8.20 Fel y dangosir ar Siart 11 isod, roedd y rhan fwyaf o Sipsiwn a Theithwyr yn dyheu am gael byw ar safle (92%) cyn gynted ag y byddent yn ddigon hen i sefydlu eu haelwyd eu hunain. Byw ar safle preifat a oedd yn eiddo i "chi a'ch teulu" oedd y math mwyaf poblogaidd o lety ar safle (40%). Roedd byw mewn brics a morter yn llai poblogaidd. Nid oedd yr un ymatebydd eisiau byw mewn llety rhent gan y Cyngor neu gan Gymdeithas Dai Leol, ac roedd llai'n ffafrio tai rhent preifat a thai perchen-feddiannydd nag a oedd yn ffafrio unrhyw fath o lety ar safle.

Siart 11: Dyheadau am lety Sipsiwn a Theithwyr Ifanc, yn ôl math o lety.



8.21 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr ifanc ym mha ardaloedd yng ngogledd Cymru y dylid cael safleoedd Sipsiwn a Theithwyr parhaol yn eu barn hwy. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at leoliadau amrywiol, ac fe gynigiodd rhai o'r ymatebwyr sawl awgrym. O fewn ardal yr astudiaeth, Rhyl a Phrestatyn oedd yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt fynychaf.

8.22 Efallai oherwydd y math o lety sydd eisoes ar gael yn yr ardaloedd hyn, cyfeiriodd ymatebwyr ifanc hefyd at Fangor, Queensferry, Sir y Fflint ac Ynys Môn.

8.23 Gofynnwyd i'r Sipsiwn a'r Teithwyr ifanc a oeddent yn meddwl y dylid cael safleoedd pontio i'w defnyddio wrth iddynt deithio. Yr un peth ag ymateb yr oedolion, awgrymodd 100% y dylid darparu llety pontio.

8.24 Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr ym mha ardaloedd yng ngogledd Cymru y dylid cael safleoedd pontio i Sipsiwn a Theithwyr yn eu barn hwy. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at leoliadau amrywiol, ac fe gynigiodd rhai o'r ymatebwyr sawl awgrym. Bangor ac Ynys Môn oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd. Cyfeiriwyd hefyd at drefi ar hyd llwybr yr A55: yn arbennig, Y Rhyl; Caergybi a Chonwy.

### *Profiadau o wahaniaethu*

8.25 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn meddwl eu bod wedi dod ar draws gwahaniaethu neu hiliaeth yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Roedd 72% o'r Sipsiwn a'r Teithwyr wedi profi rhyw fath o wahaniaethu. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr enghreifftiau o'r gwahaniaethu yr oeddent wedi'i brofi.

*"Es i i'r sinema a chael fy nhaflu allan".*

*"Nid unwaith yn unig, ond lawer gwaith. Dydw i ddim yn meddwl bod gorgas yn hoffi Sipsiwn am eu bod yn galw enwau arnon ni."*

*"Maen nhw'n meddwl ein bod yn mynd i achosi trafferth. Roeddwn i eisiau ymuno â thîm pêl droed lleol, ond chefais i ddim gan eu bod nhw'n gwybod mai Teithiwr oeddwn i."*

8.26 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd: A oes unrhyw le yr ydych yn osgoi mynd iddo am eich bod yn meddwl y byddwch yn dod profi gwahaniaethu neu hiliaeth? Cafwyd awgrymiadau amrywiol, fel: y sinema leol; y llawr sglefrio; yr ali fowlio; y siopau a'r ysgol leol.

### *Argymhellion.*

8.27 *Argymhelliad 12*: Gallai ymgyrch flaengar i hybu diwylliant a ffordd Sipsiwn a Theithwyr o fyw gan roi gwedd gadarnhaol ar hynny fod yn gymorth i liniaru

peth o'r gwahaniaethu ar sail hil a brofir gan Sipsiwn a Theithwyr o bob oed ar draws ardal yr astudiaeth.

8.28 *Argymhelliad 13*: Sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael hyfforddiant ar ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr fel bo modd mynd i'r afael â bwlio yn fwy effeithiol.

8.29 *Argymhelliad 14*: Dylai Awdurdodau Lleol ystyried dod ynghyd i ddarparu'r adnoddau i recriwtio a hyfforddi gweithwyr maes (o bosib o blith y cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr) i ymgysylltu â phobl ifanc.

## 9. Teithwyr Sioe.

### *Demograffeg y sampl o'r boblogaeth*

9.1 Er bod aelodau o Urdd y Teithwyr Sioe wedi ymsefydlu yn ardal yr astudiaeth, ni cheisiwyd cynnal dadansoddiad systematig o anghenion. Nid oedd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol yn ymwybodol o faterion penodol a oedd yn ymwneud â'r grŵp hwn.

9.2 Bydd Ffeiriau Teithio hefyd yn ymweld â'r ardal o ardaloedd eraill (Urdd y Teithwyr Sioe, 2007:16). Yn ystod yr astudiaeth, daeth i'r amlwg bod Teithiwr Sioe wedi sefydlu gwersyll o fewn yr ardal. Penderfynwyd cyfweld â'r teithiwr.

9.3 Mae'r bennod hon yn seiliedig ar un cyfweliad a gynhaliwyd yn Sir y Fflint, gan and oedd gwybodaeth fanwl ar gael am leoliadau Teithwyr Sioe.

9.4 Gŵr 51 oed oedd y cyfwelai, ac ar y pryd roedd wedi bod yn gwersylla ers 2 i 3 mis mewn cae chwarae / man cyhoeddus ar Rowleys Lane, Shotton. Roedd yr ymatebydd yn disgwyl aros yno am ddau fis arall. Roedd gan y cyfwelai saith carafán yn y lleoliad.

9.5 Roedd yr aelwyd yn cynnwys 4 o bobl eraill, pob un ohonynt yn ferched 50; 28; 24 a 21 oed. Mae'r bobl wedi gwersylla ar y safle hwn i ddibenion gwaith, ac er mwyn mynychu ffair/digwyddiad. Teimlai'r ymatebydd fod yr arhosfan yn lle da iawn a'i fod yn gyfleus. Nododd yr ymatebydd hefyd eu bod wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau yn yr ardal, ac wedi bod yn ymweld â'r ardal ers pum mlynedd ar hugain. Ni wnaeth y cyfwelai dynnu sylw at unrhyw faterion iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â'r safle.

### *Y Llety Presennol.*

9.6 Mae gan yr ymatebydd leoliad parhaol yn Salford - safle teithiwr sioe sy'n eiddo preifat. Fodd bynnag, hoffai'r ymatebydd fyw ar safle Teithiwr Sioe neu ar safle sy'n eiddo i'r cyngor lleol yn Shotton neu Queensferry. Roedd angen safle Teithiwr Sioe er mwyn cael lle i adael peiriannau a reidiau ffair.

9.7 Gan fod gan y cyfwelai leoliad parhaol y tu allan i'r ardal, o safbwynt technegol byddai ei anghenion llety yn perthyn i ardal GTANA arall, ond pe bai am symud i ardal gogledd Cymru yn barhaol, efallai y byddai arno angen cymorth i ganfod safle newydd.

9.8 Gofynnwyd i'r ymatebydd sut mae'n rheoli'r gwersyll, o ran dŵr, toiledau, baddonau a chawodydd, trydan, storio sbwriel a gwaredu sbwriel. Ceir amlinelliad o'u hatebion yn y tabl isod. Ar y cyfan, teimlai'r ymatebydd fod y trefniadau hyn yn dderbyniol, ond nododd y byddai pwynt pŵer o gymorth o ran trydan.

Tabl 6: Trosolwg o'r cyfleusterau sydd ar gael i Deithiwr Sioe a gafodd ei gyfweld yn Shotton.

| Cyfleuster | Ymhle | Pa mor foddhaol? |
|---|---|---|
| **Dŵr** | O Glwb y Gweithwyr Dur | Iawn |
| **Toiledau** | Y tu mewn i'r garafán. | Iawn |
| **Baddon / cawod** | Y tu mewn i'r garafán | Iawn |
| **Trydan** | Generadur | Byddai'n well cael pwynt pŵer. |
| **Storio sbwriel** | Mynd ag o i'r domen | Iawn |
| **Gwaredu sbwriel** | Mynd ag o i'r domen | Iawn |

## Patrymau teithio

9.9 Gofynnwyd i'r ymatebydd am batrymau teithio ei aelwyd. Awgrymodd fod ei aelwyd yn teithio yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref am oddeutu 30 wythnos. Teithiai'r aelwyd ar draws gogledd Cymru a Gogledd Lloegr gyda'i deulu ei hun a chydag aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau.

9.10 Mae patrymau teithio'r aelwyd wedi newid dros y blynyddoedd. Awgrymodd yr ymatebydd mai'r rheswm am y newidiadau hyn oedd bod pris diesel wedi codi ynghyd â chost cerbydau. Nododd hefyd nad yw pobl ifanc yn mynd i ffeiriau mor aml, gan ei bod hi'n well ganddynt chwarae gemau cyfrifiadur.

9.11 Darperir addysg wrth deithio gyda chefnogaeth swyddog addysg o Urdd y Teithwyr Sioe yn Swydd Gaerhirfryn. Bydd TES yn darparu disgiau addysg sy'n cael eu cwblhau a'u dychwelyd i'r ysgol.

9.12 O ran gofal iechyd, mae aelodau'r aelwyd yn dychwelyd i Salford i ddefnyddio'u meddygfa leol.

9.13 Daeth yr ymatebydd â'r sgwrs i ben drwy ddweud

*"Mae hyn yn ffordd o fyw i ni. Nid busnes yn unig mohono, ond cymuned glos. Hyd yn oed os bydd rhywbeth yn torri i lawr, ac nad ydw i'n siarad ag un o'r rhai sy'n cystadlu yn fy erbyn, fydd o'n dal i'm helpu i. Rhai felly yr ydyn ni. Rydym yn wahanol i Sipsiwn gan ein bod yn ennill ein bara menyn drwy wneud gwaith siewmyn".*

## Argymhellion

9.14 *Argymhelliad 15:* Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach mewn perthynas â Theithwyr Sioe, ar y cyd ag Urdd y Teithwyr Sioe, cyn y gellir llunio argymhellion.

## Mynediad at wasanaethau

### *Cyflwyniad.*

10.1 Er mai canolbwyntio ar faterion llety a wna GTANAs yn bennaf, mae disgwyl iddynt hefyd gasglu gwybodaeth am brofiadau eraill a gaiff Sipsiwn a Theithwyr. Yn y bennod hon, adolygir y dystiolaeth o arolygon lleol mewn perthynas â'r canlynol: iechyd; gwasanaethau'r cyngor; gwasanaethau eraill lleol; addysg; cyflogaeth; ac unrhyw brofiadau o wahaniaethu.

### *Gwasanaethau Iechyd.*

10.2 Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer yr adran hon yn amrywio, yn dibynnu ar y gwasanaethau dan sylw. Roedd yr wybodaeth am fynediad at feddygon a deintyddion yn uchel (cyfradd ymateb o oddeutu 75%), tra'r oedd y gyfradd ymateb ar gyfer y data ar yr holl wasanaethau eraill tua 40-60%. Mae rhywfaint o ddata ar gael ar gyfer ymatebwyr o wersylloedd. Fodd bynnag, mae'r data yn fylchog gan nad oed yr holiadur yn ateb llawer o'r cwestiynau a ofynnwyd i breswylwyr Brics a Morter a safleoedd parhaol.

10.3 Roedd presenoldeb mewn meddygfeydd yn uchel. Roedd pawb a oedd yn byw mewn llety brics a morter wedi bod i feddygfa, o gymharu â 98% a oedd yn byw ar safleoedd parhaol a 60% o'r ymatebwyr o wersylloedd. Adroddodd y rhai nad oeddent yn mynd i'r feddygfa eu bod wedi bod i ganolfannau iechyd taro i mewn neu i'r Adran Damweiniau ac Argyfwng yn yr ysbyty lleol.

10.4 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o frics a morter yn llai tebygol o awgrymu eu bod yn cael trafferth gyda'u meddygfa leol (6%) o gymharu â chyfweleion o safleoedd preifat (10%). Awgrymodd ymatebydd o safle parhaol ei bod hi'n "anodd iawn cofrestru. *Cyn gynted ag y byddwch yn dweud Parc Dollar, fyddan nhw ddim yn eich cofrestru".* Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd hi'n ymddangos bod agweddau'r ymatebwyr at feddygon lleol yn gadarnhaol, a bod llawer o'r ymatebwyr yn adleisio sylwadau un ymatebydd o safle parhaol a ddywedodd *"mae meddygon yn wastad yn iawn efo Teithwyr....maen nhw'n ein trin ni i gyd yr un fath".*

10.5 Roedd cyfran uwch o'r rhai sy'n byw mewn llety brics a morter wedi bod i ddeintyddfa (80%) o gymharu â 63% o'r rhai sy'n byw ar safleoedd parhaol.

10.6 Adroddodd ambell un (4 ymatebydd) eu bod wedi dod i gysylltiad cyn hynny â nyrs ardal. Ni chynigiodd yr ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'u profiad o'r gwasanaeth.

10.7 O ran adrannau Damweiniau ac Argyfwng Ysbytai, awgrymodd 31% o'r ymatebwyr eu bod wedi cysylltu â'u hadran Damweiniau ac Argyfwng yn eu hysbyty lleol cyn hynny. Er bod mwyafrif y rhai hynny'n byw ar safleoedd parhaol neu mewn brics a morter, awgrymodd tri ymatebydd a oedd yn aros

mewn gwersylloedd eu bod yn mynd i'r adran Damweiniau ac Argyfwng leol os oedd angen gofal iechyd arnynt wrth deithio. Ni chynigiodd yr ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'u profiad o'r gwasanaeth.

10.8 Roedd 26% o'r ymatebwyr wedi cysylltu cyn hynny â gwasanaethau ysbyty eraill ar draws ardal yr astudiaeth. Ni chynigiodd yr ymatebwyr sylwadau ynglŷn â'u profiad o'r gwasanaeth.

10.9 Roedd 24% o'r ymatebwyr wedi cysylltu cyn hynny ag Ymwelwyr Iechyd ar draws ardal yr astudiaeth. Rhoddodd dau ymatebydd sylwadau ynglŷn â'u profiadau: dywedodd un ymatebydd *“maen nhw'n iawn, ond maen nhw'n gallu bod ychydig bach yn od efo fi”*, tra dywedodd ymatebydd arall fod Ymwelwyr Iechyd yn *“barod iawn i helpu”*

10.10 Roedd 24% o'r ymatebwyr wedi defnyddio meddygaeth amgen. Awgrymodd ymatebwyr yn bennaf fod eu rhieni wedi defnyddio eitemau fel finegr seidr, sudd a dail blodfresych. Awgrymodd un ymatebydd ei fod yn defnyddio meddyginiaeth amgen "gan nad oedd yn meddwl bod meddygon gystal ag yr oedden nhw'n arfer bod"

### *Gwasanaethau Cyngor*

10.11 Mae'r adran hon wedi'i seilio ar safbwyntiau 50% o'r sampl o'r boblogaeth. Ni fyddai'r rhai a aeth i grwpiau ffocws, neu a roddodd wybodaeth drwy gyfweliad ffurfiol, wedi ateb y cwestiynau ynghylch mynediad at wasanaethau o gwbl, neu ni fyddai llawer o fanylion wedi cael eu rhoi ar sawl agwedd ar hynny. Nid oedd yr holiadur a ddefnyddiwyd i gasglu data am y rhai sy'n preswylio mewn gwersylloedd yn gofyn am wybodaeth am fynediad at wasanaethau, ar wahân i'r Heddlu lleol. Gan hynny, mae'r wybodaeth isod wedi'i chasglu'n bennaf gan rai sy'n byw ar safleoedd parhaol neu mewn brics a morter.

10.12 Yna gofynnwyd i ymatebwyr ar draws ardal yr astudiaeth am eu barn am y gwasanaethau canlynol, ac a oeddent wedi'u defnyddio: Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr, Tai; HOST (Gwasanaethau Digartrefedd); Gwasanaethau Cymdeithasol; Iechyd yr Amgylchedd; Cynllunio ac Addysg

10.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi cysylltu â'r Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr Lleol (GTLO). O ystyried y ffactorau uchod, ac mai ond yng Ngwynedd y ceir swydd GTLO, atebwyd y cwestiwn hwn gan 10% o'r ymatebwyr.

10.14 Roedd 65% o ymatebwyr Gwynedd wedi cysylltu â'u Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan bawb ar wahân i un ymatebydd. Dywedodd cyfranogwyr mewn grŵp ffocws fod y swyddog yn "barod iawn i helpu, ond mae arni hi angen cymorth i'n helpu ni", tra

dywedodd ymatebydd arall mewn cyfweliad *"Allwn i ddim rhoi gormod o ganmoliaeth iddi, yn gefnogol iawn ym mhob ffordd".*

10.15 Roedd ychydig yn llai na hanner (46%) yr ymatebwyr wedi cysylltu â'u hadran Dai leol, a deuai'r mwyafrif o'r rhain o Sir y Fflint. Dywedodd yr ymatebwyr fod yr Adran Dai yn "iawn", neu ei bod wedi'u "helpu i lenwi ffurflenni".

10.16 Dim ond un ymatebydd, dyn o Gonwy, a oedd wedi cysylltu â'i adran HOST leol. Ni wnaeth yr ymatebydd roi unrhyw wybodaeth bellach.

10.17 Roedd 19% o'r ymatebwyr wedi cysylltu â'u hadran Gwasanaethau Cymdeithasol. Deuai mwyafrif yr ymatebwyr o Sir y Fflint neu Gonwy. Dywedodd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau am eu hadran Gwasanaethau Cymdeithasol leol fod yr adran honno'n iawn.

10.18 Roedd 11% o'r ymatebwyr wedi cysylltu â'u hadran Iechyd yr Amgylchedd leol. Roedd yr holl breswylwyr o Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint a Gwynedd wedi cysylltu â'u hadran leol, ac ychydig dros hanner o breswylwyr Sir y Fflint wedi gwneud hynny. Ychydig iawn o farn wirioneddol a fynegwyd am y gwasanaethau. Roedd y sylwadau prin a gafwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwasanaeth gwirioneddol a ddarparwyd. Fodd bynnag, dywedodd un cyfwelai fod y "Gwasanaethau Amgylcheddol wedi ein cyhuddo ni o losgi teiars/gwastraff gwenwynig. *Teithiwr newydd ydoedd mewn gwirionedd. Ysgrifennodd y cyngor atom yn awgrymu mai ni oedd wedi gwneud hynny gan mai Sipsiwn ydych chi"*

10.19 Awgrymodd cyfanswm o 5 ymatebydd o Ynys Môn, Gwynedd a Sir y Fflint eu bod wedi cysylltu â'u Hadran Gynllunio leol. Dywedodd un ymatebydd fod ei Adran Gynllunio leol yn 'iawn'. Roedd gweddill y sylwadau'n negyddol. Awgrymodd un ymatebydd nad oedd ei Adran Gynllunio "yn barod iawn i helpu". Awgrymodd ymatebydd arall: “Os ydych chi eisiau eiddo, fyddwch chi ddim yn cael un, gan mai Teithiwr ydych chi. Fydden ni'n hoffi bod yn berchen ar ein tir ein hunain - fyddwn ni ddim yn gallu cael tir gan na fyddwn ni'n cael caniatâd cynllunio - chawson ni erioed gyngor gan gynllunwyr - dydyn nhw ddim am drafferthu â ni".

10.20 O gymharu ag unrhyw wasanaeth arall o fewn y Cyngor, roedd y gyfradd uchaf o fynediad o fewn y gwasanaethau addysg (21 y cant). Awgrymodd ymatebwyr o bob awdurdod lleol ar draws ardal yr astudiaeth eu bod wedi cysylltu â'u Hadran Addysg leol. Gwnaeth yr holl ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ynglŷn â'r gwasanaeth sylwadau cadarnhaol ynghylch parodrwydd y gwasanaeth i helpu.

### *Gwasanaethau Lleol*

10.21 Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r cyfranogwyr, neu eu perthnasau, sydd wedi defnyddio cyfleusterau lleol yn eu hardal leol. Roedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn brics a morter (83%) fymryn yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau lleol na'r rhai sy'n byw ar safleoedd parhaol (81%)[1]. Ar y cyfan, roedd Sipsiwn a Theithwyr yn ardal yr astudiaeth yn gadarnhaol iawn ynghylch gwasanaethau lleol, yn enwedig siopau lleol (93%) a Swyddfa'r Post (89%). Cafwyd y gyfradd ymateb isaf ar gyfer llyfrgelloedd lleol (61%). Tabl 7. Defnydd o wasanaethau lleol gan Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn brics a morter neu ar safle parhaol.

| Math o lety | Siopau lleol | Banciau | Cludiant cyhoeddus | Swyddfeydd Post | Llecyn chwarae i blant | Llyfrgelloedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle parhaol** | 93% | 74% | 82% | 89% | 87% | 61% |
| **Tai** | 93% | 81% | 87% | 79% | 86% | 72% |

10.22 O ran sylwadau penodol am wasanaethau lleol, roedd y rhan fwyaf o sylwadau'n canolbwyntio ar siopau lleol, Swyddfeydd Post a chludiant cyhoeddus. Rhoddodd 50% o'r rheiny fanylion pellach am eu profiadau o wasanaethau lleol, gan adael sylwadau cadarnhaol. Soniodd ymatebwyr pa mor gyfeillgar oedd staff mewn siopau: *"Pobl dda, pobl neis"* meddai un ymatebydd ar safle parhaol, tra dywedodd ymatebydd eraill a oedd yn byw mewn llety brics a morter fod y staff mewn siopau "yn neis, yn ein trin ni fel pawb arall". Soniodd ymatebwyr eraill ynghylch pa mor barod oedd staff i helpu:*"Mae pobl yn awyddus i helpu ni."* Rhoddodd llawer o'r ymatebwyr ganmoliaeth i Swyddfa'r Post yn arbennig:

*"Maen nhw (y Swyddfa'r Post) yn dda iawn. Maen nhw'n fy helpu i lenwi ffurflenni", ac "Annwyl a pharod iawn i helpu."*

10.23 Roedd nifer o ymatebwyr (10%) yn niwtral ynghylch gwasanaethau yn eu hardal, gan awgrymu bod "rhai gwasanaethau'n iawn, eraill ddim." O fewn y categori hwn, soniodd rhai o'r ymatebwyr eu bod wedi profi problemau mewn siopau pan ddaethant i fyw yn yr ardal leol i ddechrau.

*"Mae pethau'n iawn, a minnau bellach yn hŷn, ond rydw i wedi profi problemau yn y gorffennol, yn cael fy hebrwng allan o dafarndai, siopau a marchnadoedd"*

10.24 Rhoddodd nifer sylweddol (40%) o'r rhai hynny a ddewisodd wneud sylw penodol am wasanaethau lleol sylwadau negyddol. Roedd a wnelo'r sylwadau'n bennaf â'r ffaith bod ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaethau lleol wedi'u trin mewn ffordd negyddol, *“mae siopau lleol yn tueddu i edrych i*

*lawr eu trwynau arnoch chi" "Mae rhai siopau'n ein trin ni'n od".* Thema arall ymhlith y sylwadau negyddol a gafwyd am wasanaethau lleol oedd teimlad gan y gymuned o Sipsiwn a Theithwyr eu bod yn cael eu trin yn wahanol i aelodau eraill o'r gymuned. Awgrymodd un ymatebydd, er bod siopau lleol yn "iawn, mae'n debyg....mae rhai ohonyn nhw'n OK, bydd rhai'n eich gwylio chi yn y siop", tra'r oedd ymatebydd mewn grwpiau ffocws, a oedd yn byw ar safle parhaol, yn teimlo ei bod yn cael ei thrin "fel pe bai'n mynd i ddwyn". Dywedodd ymatebydd arall a gafodd ei gyfweld wrth deithio ei fod wedi gweld:*"arwydd mawr yn y ffenest yn dweud "Dim Teithwyr". Roeddwn i'n meddwl bod hyn yn erbyn y gyfraith?"*

10.25 O ran banciau, awgrymodd un ymatebydd eu bod yn *"iawn, ond dydyn nhw (y banc) ddim yn gwybod mai Teithiwr ydw i"* tra nododd cyfwelai arall*: "Dydw i ddim bob amser yn gwybod sut i lenwi ffurflenni gan na chefais i lawer o addysg, ac maen nhw'n edrych arnoch chi'n wirion fel pe baen ni'n dwp".* Cafwyd llai o sylwadau am gludiant cyhoeddus, ond awgrymodd un ymatebydd nad oedd yn ei ddefnyddio am ei fod yn teimlo *"os oes llawer o Deithwyr wrth y safle bws bydd y bws yn gyrru heibio".* O ran llyfrgelloedd lleol, ni chafwyd unrhyw sylwadau cadarnhaol na negyddol, dim ond awgrym cyffredinol y byddai'r ymatebwyr yn hoffi defnyddio'r gwasanaeth neilltuol hwn.

10.26 Dim ond nifer fach o ymatebwyr a adroddodd eu bod wedi defnyddio'r ganolfan Cyngor ar Bopeth leol (4 y cant), gwasanaethau Cyngor Cyfreithiol (2 y cant) a Gwasanaethau Cynghori Teithwyr (2 y cant). Cafwyd nifer fach o sylwadau ynglŷn â'r gwasanaethau hyn. Yn anffodus, roeddent i gyd yn negyddol. O ran y ganolfan Cyngor ar Bopeth, nododd un cyfwelai nad oeddent yn barod i helpu, "doedden nhw ddim am wybod". Awgrymodd ymatebydd arall fod cyfreithwyr lleol yn gwrthod ymdrin â'i achos. O ran Gwasanaethau Cynghori Teithwyr, "doedden nhw ddim yn dda iawn, allen nhw ddim ein helpu ni gan nad oedd yr achos yn ddigon mawr".

10.27 Gofynnwyd i'r cyfweleion beth oedd eu barn ynghylch yr Heddlu lleol (Heddlu Gogledd Cymru). Roedd y canlyniadau ar draws ardal yr astudiaeth yn gymysg. Cynigiodd nifer fach o ymatebwyr (10 y cant) o Gonwy, Gwynedd a Sir y Fflint eu safbwyntiau.

10.28 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn Sir y Fflint yn gadarnhaol. Dywedodd ymatebydd a oedd yn byw ar safle preifat yn Sir y Fflint "Bydd gŵr ifanc o'r heddlu'n galw heibio am baned o de a brechdan. *[Mae'r Heddlu] wedi bod yn dda iawn "* tra nododd cyfwelai a oedd yn byw mewn llety brics a morter "Yn ddiweddar, es i i weld yr Heddlu i gael tawelwch meddwl, gan fod yna lawer o giangiau'n byw yn y cyffiniau. *Roeddwn i'n fodlon â'r adborth".* Fodd bynnag, dywedodd ymatebydd a oedd yn byw mewn gwersyll yn Sir y Fflint: *Mae'r*

*Heddlu wedi bod yn ymosodol; [maen nhw'n] bygwth llosgi carafanau. [Maen nhw'n ein] cyhuddo o ddwyn graean".*

10.29 Rhoddodd dau ymatebydd o Gonwy sylwadau gwrthwynebol ynglŷn â'r Heddlu lleol. Teimlai un cyfwelai fod yr Heddlu "yn neis iawn yn yr ardal hon", tra awgrymodd cyfwelai arall "Rwy'n teimlo bod yr Heddlu'n ymateb mwy i gorgas. *Pe bai'r cymydog yn galw'r Heddlu, bydden nhw'n dod i ddelio â'r mater yn llawer cynt".*

10.30 Roedd sylwadau'r cyfweleion o Wynedd hefyd yn gymysg. Teimlai un ymatebydd fod yr Heddlu yn "iawn, dydw i ddim wedi cael unrhyw broblemau erioed", tra awgrymodd un arall "cyn gynted ag y byddan nhw'n gwybod eich bod yn Deithiwr, maen nhw'n eich trin chi i gyd yr un fath"

## ***Addysg***

10.31 Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr am y defnydd y maen nhw'n ei wneud o feithrinfeydd neu gylchoedd chwarae cyn ysgol. Atebodd pedwar o'r ymatebwyr eu bod wedi mynychu darpariaeth cyn ysgol. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â'r sylw oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru mai ychydig o brofiad os o gwbl y bydd plant Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gael o ddarpariaeth cyn ysgol (Cemlyn at al, 2009:113)

10.32 Yr ymatebwyr a oedd wedi mynychu meithrinfeydd neu gylchoedd chwarae cyn ysgol oedd y rhai hynny a oedd yn byw mewn ardaloedd lle ceir cymuned fwy sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr (Gwynedd neu Sir y Fflint). Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng llety brics a morter a safle preifat, ac wedi byw yno am 2 - 5 mlynedd.

10.33 Adroddodd ymatebydd o Ynys Môn mewn llety brics a morter fod ganddo blant a oedd yn mynychu ysgol yn eu hardal leol. Fodd bynnag, roedd y data yn aneglur ynghylch faint o blant sy'n mynd i'r ysgol, a'r math o ysgol yr oedd hi.

10.34 Dim ond dau o'r ymatebwyd a gynigiodd sylwadau am eu profiadau o ysgolion cynradd neu uwchradd. Awgrymodd un cyfwelai o Wynedd fod "pobl yn fwy parod i helpu mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd. *Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl ddiddordeb mewn Teithwyr".* Roedden nhw hefyd yn teimlo bod *"gwasanaethau fel pe baent yn amrywio yn dibynnu ar yr ardal".* Tra awgrymodd ymatebydd o Ynys Môn fod:*“angen i lawer mwy o blant Teithwyr fynd yno [i'r ysgol]”*

10.35 Adroddodd pum ymatebydd o Sir y Fflint naill ai fod ganddynt blant a oedd yn mynychu'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr yn Sir y Fflint neu eu bod hwythau wedi mynychu'r gwasanaeth eu hunain. Disgrifiodd un unigolyn y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr yn annwyl fel 'Ysgol y Sipsiwn'. Awgrymodd

yr ymatebwyr eu bod yn hoffi mynd i'r ysgol gan mai "ond ychydig o blant sydd yno, a phawb yn Deithwyr, felly rydyn ni i gyd yn deall ein gilydd".

10.36 Adroddodd dau ymatebydd o Wynedd a oedd yn byw ar safle Llandegai fod ganddynt diwtor yn y llyfrgell. Dywedodd ymatebydd o Ynys Môn fod ganddynt diwtor gartref.

10.37 Gofynnwyd i'r cyfweleion am unrhyw gefnogaeth yr oeddent wedi'i chael gan y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr, neu gan Swyddogion Lles Addysg. Ymddengys fod cydberthynas dda rhwng cefnogaeth y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr neu adrannau Lles Addysg a'r broses o ymrestru i dderbyn rhyw fath o addysg yn y pen draw, gan fod 54% o'r ymatebwyr yr aeth eu plant naill ai i ysgolion prif ffrwd neu i ganolfan y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr yn Sir y Fflint wedi adrodd eu bod wedi bod mewn cysylltiad â swyddog y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr lleol. Roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ystyried yn gadarnhaol iawn. Dyma'r sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr o Gonwy a Sir y Fflint ynglŷn â'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr:

*"Parod iawn i helpu ac yn gefnogol" (Sir y Fflint).*

*"Merch hyfryd, yn barod iawn i helpu". (Conwy).*

10.38 O ran addysg neu hyfforddiant pellach, adroddodd un ymatebydd ei fod yn dilyn cwrs gwallt a harddwch yn y coleg ar hyn o bryd.

10.39 Holwyd yr ymatebwyr ynghylch gwerth addysg i blant Sipsiwn a Theithwyr. Roedd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau oll yn cytuno bod addysg yn bwysig. Awgrymodd un ymatebydd "mae addysg yn gwbl hanfodol" tra dywedodd un cyfwelai arall fod addysg yn:*"Bwysig iawn yn yr oes sydd ohoni. Pae popeth wedi datblygu cymaint gyda chyfrifiaduron. Mae angen i blant wybod mwy"*

10.40 Rhoddodd ymatebydd arall grynodeb o'r amryw o resymau pam bod y gymuned o Sipsiwn a Theithwyr o'r farn fod addysg yn bwysig. *“Yn bwysig iawn, gan fod angen iddyn nhw [Sipsiwn a Theithwyr] weithio. Mae plant heddiw am fod yn feddygon neu'n gyfreithwyr, a gallan nhw helpu rhieni nad ydynt yn gallu ysgrifennu na darllen."*

10.41 Holwyd y cyfweleion hefyd ynghylch lefel yr addysg ffurfiol yr oeddent wedi'i derbyn. Roedd yr ymatebion yn amrywio rhwng "Gallaf ddarllen ac ysgrifennu'n dda iawn" ac "Alla i ddim darllen nac ysgrifennu". Roedd yr ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o'i chael hi'n anodd darllen ac ysgrifennu. Adroddodd y rhai a oedd yn byw mewn brics a morter neu a oedd wedi byw yn eu hardal leol am ddeng mlynedd neu fwy, fod ganddynt lefel well o sgiliau sylfaenol nag ymatebwyr eraill.

10.42 Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd ganddynt hwy eu hunain neu eu teulu unrhyw anghenion addysg neu hyfforddiant. Er mai ond 6% a atebodd y cwestiwn hwn, cafwyd amrywiaeth o opsiynau galwedigaethol a oedd o ddiddordeb iddynt. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- Crefftau fel adeiladu, gwaith coed, torri coed, gosod brics, garddio, plymwr, creu palmentydd bloc
- Cyfrifiadura
- Coedwigaeth
- Gwnïo
- Hyfforddiant gwallt a harddwch
- Sgiliau sylfaenol

10.43 Awgrymodd dau ymatebydd y byddent yn hoffi cael gwybodaeth am hunangyflogaeth ynghyd â gwybodaeth am y cyrsiau a'r grantiau sydd ar gael.. Roedd ymatebydd arall am gael gwybodaeth ynghylch *"sut i gael lle mewn coleg"*

10.44 Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu yn ôl y rhywiau, gyda'r benywod o blith y Sipsiwn a Theithwyr am gael gwybodaeth am gyrsiau gwallt a harddwch, a'r gwrywod o'u plith (neu eu gwragedd ar eu rhan) am gael gwybodaeth am gyrsiau a fyddai'n eu helpu i ddysgu crefft.

### *Cyflogaeth*

10.45 Holwyd yr ymatebwyr hefyd ynglŷn â'r math o waith yr oeddent hwy neu eu teulu'n ei wneud. Swyddi galwedigaethol neu wasanaeth oedd yn fwyaf cyffredin. Gwaith coed (25 y cant) a gwaith pafinau bloc/gosod tarmac (23 y cant) oedd yr ymatebion mwyaf poblogaidd. Roedd gosod carpedi a garddio hefyd yn atebion poblogaidd.

10.46 Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r rhywiau, gan fod y math o gyflogaeth yn adlewyrchu cyflogaeth y gŵr yn hytrach na chyflogaeth y wraig. Y rheswm mwyaf tebygol am hyn yw bod y merched o blith yr ymatebwyr yn tueddu i aros adref i ofalu am aelodau agos o'r teulu ac am berthnasau eraill.

10.47 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu wrth chwilio am gyflogaeth. Dim ond 10% o'r cyfweleion a ymatebodd i hyn. Awgrymodd dros hanner (57%) y rhai a wnaeth ymateb eu bod wedi profi gwahaniaethu wrth chwilio am gyflogaeth.

10.48 Awgrymodd un ymatebydd ifanc iddi *wneud cais am swydd, ac y dywedwyd wrthi fod brys i lenwi'r swydd. "Pan es i yno, dywedon nhw wrthyf fod y swydd wedi mynd". Aeth fy ffrind i mewn ar fy ôl i a chael y swydd. Merch o'r wlad [heb fod yn Sipsiwn nac yn Deithiwr] oedd hi.*

10.49 Awgrymodd un ymatebydd ei fod wedi profi gwahaniaethu "sawl gwaith. *Pan fyddan nhw'n gwybod mai Sipsiwn yr ydym ni, fyddan nhw ddim yn rhoi swyddi i ni...fydd rhai pobl ddim yn talu am y gwaith yr ydym ni'n ei wneud".* Awgrymodd cyfwelai o wersyll ei bod hi hyd yn oed yn fwy anodd cael swydd pan fyddwch yn rhywun "heb gyfeiriad sefydlog". Ni wnaeth y 43% o ymatebwyr a awgrymodd nad oeddent wedi profi unrhyw enghreifftiau o wahaniaethu wrth chwilio am gyflogaeth ychwanegu unrhyw sylwadau pellach.

### *Hiliaeth a gwahaniaethu*

10.50 Gofynnwyd i'r cyfweleion a wrthodwyd gwasanaeth iddynt ar unrhyw adeg dros y deuddeg mis diwethaf, yn unrhyw un o'r llefydd a grybwyllwyd yn flaenorol yn y bennod hon, gan mai Sipsi neu Deithiwr yr oeddent. Cynigiodd 37 y cant o'r ymatebwyr eu safbwyntiau ar gyfer adran olaf y bennod hon. Awgrymodd deg y cant o'r rhai y cyfwelwyd â hwy eu bod wedi profi gwahaniaethu yn y llefydd canlynol: Tafarndai; Yr ystafelloedd ffitrwydd; Y siopau Meysydd gwersylla (yn enwedig yn Nhywyn); Yr ali fowlio (yn enwedig yn Sir y Fflint) a'r Sinema

10.51 Roedd enghreifftiau o hiliaeth a gwahaniaethu yn cynnwys: galw enwau, gofyn i bobl adael llefydd neu wrthod rhoi gwasanaeth iddynt, dilyn pobl o amgylch siopau, ystyried mai 'felly maen nhw i gyd', gwrthod cyflogaeth. Rhoddodd yr ymatebwyr hefyd enghraifft o'r hyn yr oeddent wedi'i brofi.

*“pan fydd pobl yn gwybod mai Teithiwr ydych chi, gallan nhw fod yn rhyfedd mewn tafarndai, siopau, meddygfeydd, deintyddfeydd, parciau ac ati".*

*“Eu hagwedd nhw yw 'adar o'r unlliw' - h.y. rydyn ni wedi blino arnoch chi a'ch criw yn dod i'n hardal ni”*

*"Bydd pobl yn gwneud sylwadau dan din sawl gwaith".*

10.52 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi profi hiliaeth neu wahaniaethu dros y 12 mis diwethaf. Dywedodd 35 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi profi hynny. Fodd bynnag, dylid nodi na wnaeth 50% o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn. Rhoddodd ymatebwyr atebion tebyg i'r hyn a geir yn yr adrannau blaenorol. Roedd hi'n ymddangos bod nifer fwy o ymatebwyr yn Sir y Fflint ac yn Sir Ddinbych yn adrodd am enghraifft o hiliaeth neu wahaniaethu.

10.53 Roedd hi'n ymddangos bod y cyfweliadau'n amlygu'r ffaith bod y rhan fwyaf o ymatebwyr fel pe baent yn derbyn bod y digwyddiadau gwahaniaethol hyn yn 'normal', a bron yn rhan o'u bywyd bob dydd. Fodd bynnag, soniodd nifer fach o'r ymatebwyr am yr effaith y byddai'r digwyddiadau hyn yn ei chael arnynt. Yn gryno, dywedodd un ymatebydd ifanc ei bod wedi profi hiliaeth neu wahaniaethu, ond nad oedd hi'n gallu "dod i delerau â'r peth eto".

### *Argymhellion*

10.54 *Argymhelliad 15*: Mae bod yn berchen-feddianwyr yn ddyhead gan lawer o aelodau o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr. Gan hynny, mae angen datblygu deialog adeiladol rhwng Sipsiwn a Theithwyr sy'n dymuno datblygu safleoedd preifat ac awdurdodau cynllunio.

10.55 *Argymhelliad 16*: Dylai adrannau cynllunio gynnig cyngor a chefnogaeth briodol i Sipsiwn a Theithwyr ynghylch gweithrediad y system gynllunio a'r meini prawf a ystyrir mewn ceisiadau. Bydd angen cynllunio'r cyngor hwn i ryw raddau er mwyn bodloni anghenion penodol y grŵp neilltuol hwn o gleientiaid.


10.56 *Argymhelliad 17:* Mae angen i Grŵp Cydgysylltu Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ledaenu gwybodaeth am yr holl faterion sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau mor eang ag sy'n bosibl, mewn ymgynghoriad â Grŵp Cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru. Canlyniad hyn fydd creu strategaeth ynghylch sut i wella profiadau'r gymuned leol o Sipsiwn a Theithwyr, ynghyd â dull o adrodd am enghreifftiau eraill.

## 11 Cyfrifiadau o'r angen am Safleoedd Parhaol

11.1 Yn y bennod hon, ceir amlinelliad o'r tablau cyfrifo anghenion mewn perthynas â safleoedd preswyl, gan gynnwys trafodaeth ynghylch safbwyntiau'r gymuned o deithwyr o ran lleoliad a'r gofyn am leiniau.

11.2 Teimlai 100% o'r ymatebwyr yn y sampl fod angen darparu mwy o lety parhaol. Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr ym mha fath o lety y byddai'n well ganddynt fyw. Mae'r graff isod yn dangos eu hymatebion. Hoffai 87% fyw mewn llety ar safle. Safle preifat sy'n eiddo i "chi a'ch teulu" oedd y math mwyaf poblogaidd o lety ar safle. Roedd yn well gan 13 y cant o'r boblogaeth sampl lety brics a morter, ac fe gafwyd cyfradd ychydig yn uwch o ymatebion ar gyfer llety brics a morter perchen-feddianwyr o gymharu â mathau eraill o lety brics a morter.

Siart 12: Dewisiadau Llety (llety parhaol) ar gyfer oedolion o blith y Sipsiwn a'r Teithwyr.



11.3 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gyfleusterau oedd angen eu darparu ar safleoedd parhaol, neu yr oedd angen iddynt fod yn hygyrch i'r safleoedd hynny, yn eu tyb hwy. Cyfeiriwyd at y cyfleusterau canlynol amlaf:

- **o** Wynebau caled;
- **o** Terfynau clir ar leiniau;
- **o** Dŵr, prif gyflenwad trydan a nwy;
- **o** Draenio;
- **o** Dosbarthu post;
- **o** Storio a chasglu sbwriel;
- **o** Ystafell gyfarfod neu gyfleusterau cymdeithasol;
- **o** Llecyn chwarae i blant;
- **o** Safle bws gerllaw;
- **o** Blociau amwynder gyda: baddonau / cawodydd; toiledau; golchdy a chegin; Swyddfa Warden ac
- **o** yn agos at ysgolion, meddygon a deintyddion.

11.4 Gofynnwyd cwestiwn agored i'r ymatebwyr hefyd ynghylch lle'r oeddent yn teimlo y dylid lleoli llety safle. Roedd llawer o'r ymatebion yn gyffredinol; 'Ledled Cymru'; 'bob yn ail dref yng ngogledd Cymru' 'O amgylch Iwerddon a'r DU'. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r ymatebion a grybwyllai leoliadau penodol.

Tabl 8: Dewisiadau ardal oedolion o blith Sipsiwn a Theithwyr (llety parhaol).

| Nifer yr ymatebion | Tref / ardal. |
|---|---|
| **1-5** | Caernarfon, Dinbych, Llanfairfechan, Yr Wyddgrug, Y Bala, Yr A55, Bethesda, Abergele, Pwllheli, Queensferry, Tywyn, Llanelwy, Treffynnon, Y Fflint, Porthmadog, Ynys Môn, Prestatyn, Llandudno, Conwy |
| **6-10** | Bae Colwyn, Caergybi, Bangor, Y Rhyl |

11.5 Y Rhyl, Bangor, Bae Colwyn a Chaergybi oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd ar gyfer lleoliad safle parhaol. Cafodd Ynys Môn, Prestatyn, Llandudno a Chonwy hefyd eu crybwyll yn aml. Awgrymodd rhai na wnaeth enwi ardal benodol y dylid cael safleoedd parhaol drwy'r holl drefi ar hyd yr A55.

11.6 Gan nad oes unrhyw deimlad cryf o blaid unrhyw leoliad a nodwyd, mae'r ymatebion yn awgrymu y byddai'r gymuned yn croesawu dewis ehangach o leoliadau ar gyfer safleoedd newydd.

### *Cyfrifo'r anghenion preswyl ar gyfer 2011-16 (a 2016-21).*

11.7 O'r cychwyn cyntaf, mae angen cyfleu tri pheth am y tabl hwn:

11.8 Mae'r cyfrifiad yn dangos yr ardaloedd awdurdod lle ceir y galw. Mae hyn yn rhannol oherwydd y fformiwla cyfrifo, sy'n pwysleisio'r galw gan breswylwyr ar safleoedd carafanau presennol. Fel y nodir ym mharagraff 11.5, mae'n bosibl y byddai'n well gan y gymuned adleoli i ardaloedd eraill mewn awdurdodau lleol eraill.

11.9 Mae'r cyfrifiad yn cynnwys amcangyfrifon sydd o bosib yn geidwadol eu natur ar gyfer y niferoedd a fydd eisiau symud i lety safle o frics a morter. Efallai y bydd preswylwyr eraill mewn llety bricks and mortar hefyd yn dymuno adleoli i safle, o gael tir a chyllid ar gyfer datblygiadau preifat, ac mae rhai ymatebion i'r holiadur yn cefnogi'r dybiaeth hon. Mae hyn yn codi materion yn gysylltiedig ag angen a galw, ac fe drafodir y rhain isod.

11.10 Ni ystyriwyd aelodau iau o'r gymuned sydd ar hyn o bryd yn byw mewn llety brics a morter a fyddai am drosglwyddo i lety ar safle. Yn yr achos hwn hefyd, mae'r ymatebion yn cyfeirio at ddymuniad i ailgydio yn y ffyrdd traddodiadol o fyw, ond gallai amgylchiadau ariannol fod yn rhwystr i hyn.

Tabl 9: Cyfrifo Anghenion Preswyl 2011-16

| | | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflenwad Preswyl Presennol | | | | | | |
| **1** | Lleiniau rhent cymdeithasol | 0 | 0 | 20 | 7 | 0 | 27 |
| **2** | Lleiniau awdurdodedig preifat | 0 | 0 | 44 | 5 | 0 | 49 |
| **3** | Cyfanswm y lleiniau awdurdodedig | 0 | 0 | 66 | 12 | 0 | 78 |
| **4** | Lleiniau ar gyfer Teithwyr Sioe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Lleiniau preswyl sydd eu hangen | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-16 | | | | | | |
| **5** | Caniatâd cynllunio dros dro yn dod i ben | 0 | 0 | 6 | 0 | 0 | 6 |
| **6** | Ffurfio aelwydydd newydd o safleoedd | 0 | 0 | 10 | 2 | 0 | 12 |
| **7** | Datblygiadau diawdurdod [A oddefir/Nas goddefir] | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 4 |
| **8a** | Symud rhwng safleoedd a thai (allan o safleoedd) | 0 | 0 | 0 | -1 | 0 | -1 |
| **8b** | (i safleoedd) | 2 | 1 | 5 | 5 | 1 | 14 |
| **9** | Cau safleoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **10** | Gwersylloedd diawdurdod | 1 | 1 | 1 | 1 | 10 | 14 |
| **11** | Angen preswyl ychwanegol | | | | | | |
| **a** | : Yn orlawn ar hyn o bryd | 0 | 0 | 12 | 1 | 0 | 13 |
| **b** | : Mewnfudo / allfudo net | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **c** | : Angen preswyl arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cyflenwad ychwanegol 2011-16 | | | | | | |
| **12** | Lleiniau ar gau ar hyn o bryd ond yn dechrau cael eu defnyddio o'r newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **13** | Lleiniau gyda chaniatâd ond heb eu datblygu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **14** | Safleoedd newydd a gynlluniwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **15** | Llefydd gwag ar safleoedd rhent cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **16** | Cyfanswm Cyflenwad 2011-16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **17** | Gweddill Diffyg yr Angen Preswyl 2011-16 | 3 | 2 | 36 | 10 | 11 | 62 |

11.11 Mae Rhes 1 yn dangos y nifer presennol o leiniau rhent cymdeithasol yn yr ardal.

11.12 Mae Rhes 2 yn dangos nifer y lleiniau sydd ar gael ar hyn o bryd ar safleoedd preifat gyda chaniatâd cynllunio.

11.13 Cyfanswm syml o'r niferoedd a geir yn rhes tri.

11.14 Mae rhes pedwar yn dangos nad oes angen lleiniau ar hyn o bryd. Mae teithwyr sioe i'w cael yn ardal yr astudiaeth [e.e. Knightly's, Tywyn] ond ni cheir unrhyw wybodaeth leol am anghenion y mae angen eu bodloni ar frys. Ceir un cyfweliad gan deithiwr sioe mewn gwersyll diawdurdod yn yr ardal, ond a chanddo safle parhaol yn rhywle arall ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen cymorth arno i ganfod eiddo addas os yw'n dymuno symud i'r ardal.

11.15 Mae rhes pump yn dangos angen sy'n deillio o safleoedd lle bydd caniatâd cynllunio dros dro yn dod i ben yn ystod y cyfnod asesu. Ceir caniatâd cynllunio ar gyfer chwe llain dros gyfnod o bum mlynedd ym Mharc Doller, Sir y Fflint, a ddaw i ben ar 4 Chwefror 2016.

11.16 Mae a wnelo rhes chwech ag aelwydydd a gaiff eu ffurfio yn y dyfodol o fewn y cyfnod cynllunio, ac nid yw'n cynnwys aelwydydd presennol ac arnynt angen llety (e.e. Rhes 11a). Nid yw'r rhes hon ond yn berthnasol i aelwydydd sy'n byw ar safleoedd awdurdodedig (awdurdod lleol a phreifat), ac mae'n seiliedig ar gyfrifiad o 3 y cant o dwf cyfansawdd mewn angen. [$(78*1.03)^5$]. Awgrymodd Niner y dylid 2 y cant a 2 y cant fel cyfraddau twf aelwydydd (ODPM, 2003:189). Mae defnyddio'r dybiaeth 3 y cant wedi troi'n ddull safonol o gyfrifo angen mewn GTANAs. Mewn nifer fach o GTANAs defnyddiwyd cyfrifiadau gwahanol yn seiliedig ar samplu helaeth, neu gyfrifiad cyflawn. Yn Iwerddon, cafwyd bod amcangyfrifon twf cyfansawdd o 4

y cant 'yn rhyfeddol o gywir' (DCLG, 2009:30). O ddefnyddio'r cyfrifiad olaf hwn, awgrymir y byddai angen llety ar safle i 5 o aelwydydd eraill.

11.17 Mae'r ffigur cyfredol yn tybio y bydd y canlynol yn wir am yr holl aelwydydd a gaiff eu ffurfio yn y dyfodol ar safleoedd awdurdodedig a) y bydd arnynt angen llety ar safle, yn hytrach na llety brics a morter a (b) na fyddant yn priodi preswylydd o safle sydd oddi mewn i ardal yr astudiaeth. Yn rhai GTANAs defnyddiwyd ffigurau rhwng 70 a 90 y cant ar gyfer aelwydydd newydd a fyddai'n cael eu ffurfio fel y cynnydd llinell sylfaen er mwyn caniatáu ar gyfer yr achosion hyn.

11.18 Yn rhes saith ceir datblygiadau diawdurdod (a oddefir ac nas goddefir) ar dir sy'n eiddo i'r preswylwyr. Mae'r cyfrifiad hwn yn cynnwys dwy aelwyd yn Llanaelhaearn a dwy garafán o Gwern Lane. Mae'r rhan fwyaf o GTANAs wedi cynnwys addasiadau ar gyfer datblygiadau diawdurdod ar sail un am bob un (DCLG, 2007: 28), ac mae'r drefn hon wedi'i mabwysiadu yn yr achos hwn.

11.19 Rhes 8 a + b Symud rhwng safleoedd a thai Dyma faes sy'n achosi anhawster wrth amcangyfrif mewn sawl GTANA, oherwydd er bod cyfrif carafanau yn rhoi gwybodaeth fanwl am y niferoedd ar safleoedd ac mewn gwersylloedd, nid oes unrhyw fanylion cyfatebol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn brics a morter. Ar ben hynny, tra bydd rhai preswylwyr yn symud o safleoedd i stadau cyfagos, gall patrwm setlo Sipsiwn a Theithwyr mewn brics a morter fod yn wahanol i batrwm setlo preswylwyr safleoedd. Mae rhai GTANAs wedi defnyddio data'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr a CYBLD fel procsi er mwyn canfod maint cymharol y boblogaeth sydd mewn tai, ond mae hyn yn golygu gwneud tybiaethau ynghylch proffil oedran preswylwyr mewn brics a morter.

11.20 Efallai y bydd preswylwyr safleoedd am symud i lety brics a morter am resymau iechyd, neu resymau eraill. Mae un ymatebydd wedi mynegi ei fod yn dymuno symud o Landegai i dŷ. Fodd bynnag, nid yw llawer o Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety brics a morter ar hyn o bryd yno trwy ddewis, ond oherwydd ffactorau eraill fel gorlenwi, anghenion iechyd, prinder safleoedd awdurdodedig, neu gyflwr neu leoliad rhai o'r safleoedd presennol.

11.21 Yn arweiniad Llywodraeth Cymru ar AMDL, caiff 'angen' ei ddiffinio fel "aelwydydd na allant gael mynediad at dai addas heb ryw fath o gymorth ariannol" (LlCC: 5), ac yn mynd ymlaen i ddweud

*Mewn llawer o achosion, bydd y diffiniadau o angen a galw ar gyfer y gymuned sefydledig hefyd yn briodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn tai brics a morter. Fodd bynnag, bydd gofynion llety neilltuol rhai Sipsiwn a Theithwyr yn achosi mathau*

*tebyg o angen, ond bod yr anghenion hynny mewn cyd-destun gwahanol, er enghraifft:*

*Aelwydydd mewn anheddau brics a morter:*

*• y mae eu llety presennol yn orlawn neu'n anaddas (gall 'anaddas' yn y cyd-destun hwn gynnwys anaddasrwydd oherwydd atgasedd seicolegol wedi'i brofi tuag at lety brics a morter; er y bydd awdurdodau lleol am eu bodloni eu hunain bod hyn yn ddigon difrifol i fod yn angen yn hytrach na ffafriaeth);*

*• sy'n cynnwys aelwydydd wedi'u dal yn ôl na allant sefydlu unedau teulu ar wahân, ac na allant gael mynediad at lety addas neu briodol. (LlCC, 2006:159)*

11.22 Cafwyd peth cyfraith achosion (e.e. *R (Price) v CS Gaerfyrddin* [2003] EWHC 42 (Gwein.); *Lee v Cyngor Bwrdeistref Sirol* Rhondda Cynon Taf, [[2008] EWCA Civ 1013;*Sheridan ac ORS v Basildon BC* [2012] EWCA Civ 335)
a drafodai a oes angen atgasedd seicolegol, neu ofyniad cryfach am niwed seiciatrig posibl, cyn iddo fod yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu llety ar safle.

11.23 Yn yr arolwg hwn, ac mewn arolygon GTANA eraill, cafwyd adroddiadau gan rai ymatebwyr am effeithiau seicolegol negyddol yn sgil byw mewn llety brics a morter. Pe bai mwy o safleoedd awdurdodedig ar gael, byddai'n well ganddynt lety o'r math hwnnw. Ni wyddys faint fyddai'n symud i'r llety hwnnw mewn gwirionedd, ac mae'r prinder data am gyfanswm y teuluoedd hefyd yn peri problemau.

11.24 Yn GTANA Llundain, amcangyfrifwyd bod 16 y cant o Sipsiwn a Theithwyr wedi'u cartrefu yn bodloni'r meini prawf anghenion (Fordham, 2008). Dylid nodi bod grwpiau eraill (e.e. LGTU, 2009:8) wedi beirniadu'r diffiniad a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer yr amcangyfrif hwn. O gymryd yr 16% o aelwydydd yr amcangyfrifwyd eu bod yn byw mewn brics a morter yn ardal yr astudiaeth, byddai hyn yn golygu y byddai angen ailgartrefu 14 o aelwydydd (ar ôl talgrynnu) ar safle. Mae'r niferoedd wedi'u dosbarthu rhwng yr awdurdodau, yn seiliedig ar y nifer y gwyddys eu bod yn bresennol ym mhob ardal.

11.25 Mae rhes naw wedi'i chynnwys, oherwydd cafwyd gostyngiad net o safleoedd a lleiniau awdurdod lleol yn y DU. Ni ragwelir, fodd bynnag, y bydd unrhyw safleoedd awdurdodedig yn cau yn ardal yr astudiaeth.

11.26 Mae rhes deg yn cynrychioli unrhyw angen am safle preswyl sy'n deillio o wersylloedd diawdurdod. Ceir dwy agwedd i'r categori hwn i bob pwrpas. Y categori cyntaf fyddai gwersylloedd diawdurdod sy'n ceisio canfod preswylfan

barhaol yn ardal yr astudiaeth (ond heb fod o fewn yr ardal awdurdod lleol y maent ynddi ar hyn o bryd o reidrwydd) Ar hyn o bryd, y brif elfen yn hyn o beth yw'r gwersyll a oddefir ger Pentraeth. O'r hyn yr ydym yn ei ddeall, mae rhai o breswylwyr Pentraeth wedi symud i lety brics a morter dros dro, ond byddai'n well ganddynt fyw mewn llety carafán/symudol mewn gwirionedd, ac efallai y bydd angen rhywfaint o ddarpariaeth benodol ar gyfer yr aelwydydd hyn.

11.27 Gwersylloedd byrdymor fyddai'r ail grŵp. Ceir rhywfaint o wrthdaro o fewn y dystiolaeth ar gyfer y grŵp hwn. Nododd y cyfweleion ym mhennod chwech eu bod yn ffafrio llety yng ngogledd Cymru, ac nad oedd ganddynt breswylfan barhaol. Er hynny, y dybiaeth weithredol mewn sawl GTANA fyddai bod 80 i 90 o'r holl breswylwyr mewn gwersylloedd byrdymor yn teithio drwy'r ardal, a byddai hyn felly'n effeithio ar y gofyniad am leiniau pontio, yn hytrach na lleiniau preswyl. Cefnogir y dehongliad hwn gan y safbwyntiau a fynegir gan gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol, ac yn natur dymhorol y data gwersylla a drafodir ym mhennod deuddeg. Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer hyn felly'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd preswylwyr 10% o wersylloedd dros dro, tua chwech yn ystod y flwyddyn, yn chwilio am lety ar safle parhaol. O ystyried bod 7 carafán yn ffigur sy'n hafal i'r gwersyll mwyaf, neu'n fwy na'r gwersyll mwyaf, mae hyn yn creu cyfartaledd o 3.5 o garafanau bob mis, neu 4 o dalgrynnu. Ni ellir tybio bod y rhain yn deuluoedd cysylltiedig, na'u bod yn gysylltiedig ag un ardal, ac fe'u dyrennir rhwng yr awdurdodau lleol, ar wahân i Ynys Môn, y dyrennir y nifer ar wersyll Pentraeth iddi.

11.28 Mae rhes un ar ddeg yn cynnwys is-gydrannau. Mae'r gyntaf yn defnyddio gwybodaeth leol i nodi aelwydydd ar safleoedd awdurdod lleol y gwyddys eu bod yn orlawn, oherwydd dyblu/am eu bod yn cynnwys tair cenhedlaeth ac ati. Weithiau, nid oherwydd prinder lleiniau y bydd hyn yn digwydd, ond am resymau eraill, e.e. diwylliant sy'n ffafrio byw fel teulu estynedig. Holir a oes unrhyw wybodaeth ar gael am y safle preifat [sydd wedi'i hen sefydlu] yn Sir y Fflint, oherwydd gallai unrhyw orlenwi ar y safle hwnnw gyfrannu at yr angen.

11.29 Mae a wnelo'r ail is-gydran â mewnfudo/allfudo net o ardal yr astudiaeth. Mae hyn yn eithaf anodd ei asesu. Dyma rai cwestiynau a allai helpu i roi seiliau cadarnach i'r asesiad hwn:

- o Yn hanesyddol, beth ydym yn ei wybod am fewnfudo i ardal yr astudiaeth, naill ai o awdurdodau cyfagos (Wrecsam, Swydd Gaer, Powys ac ati), Iwerddon neu o fannau pellach i ffwrdd. O'r holiaduron, ceir rhai arwyddion bod pobl yn symud i mewn, ond mae gan fwyafrif helaeth ohonynt gysylltiad â'r ardal leol. Fodd bynnag, nododd Niner (2006a:77)*: 'Mae'n amlwg mai ychydig y mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn ei olygu i lawer o Sipsiwn-Teithwyr. Er enghraifft roedd yr holl ferched y cyfwelwyd â nhw ar safle awdurdod lleol yn Sir y Fflint*

*wedi symud i'r safle hwnnw o rywle yn Lloegr.....wrth ddisgrifio eu teuluoedd estynedig, crybwyllodd sawl cyfwelai Sipsi-Teithiwr frodyr a chwiorydd neu feibion a merched a oedd bellach yn byw yn Lloegr (ac yn rhannau eraill o Gymru).'*

- o A oes unrhyw ddatblygiadau posibl a allai gynyddu (neu ostwng) y posibilrwydd o fewnfudo yn y dyfodol, fel cyfleoedd am swyddi, neu newid i'r safonau cynllunio (gweler Hargreaves and Brindley, 2011).

- o Nac oes, mae'r GTANA wedi llwyddo i ganfasio er mwyn cael barn Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw y tu allan i ardal yr astudiaeth, nad ydynt o leiaf wedi pasio drwy'r ardal honno yn ystod yr arolwg. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai astudiaeth o GTANAs ardaloedd cyfagos yn dangos rhywfaint o awydd i symud i ogledd Cymru.

11.30 Dylid nodi un gofyniad llety arall posibl, er nad yw wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad ar hyn o bryd, a chwestiynau eraill er mwyn caniatáu ar gyfer priodasau rhwng preswylwyr yn yr ardal a allai leihau cyfanswm y lleiniau sydd eu hangen.

11.31 Ar gyfer y drydedd gydran, mae Arweiniad LlCC hefyd yn diffinio galw fel “nifer y tai y mae aelwydydd yn barod i'w prynu neu eu rhentu, ac yn gallu eu prynu neu eu rhentu” (WAG, 2006:5) ac yn nodi:

*bod prinder safleoedd ac agwedd elyniaethus pobl leol, ynghyd â diffyg incwm, atal rhyddid Sipsiwn a Theithwyr i ddewis o blith y farchnad lety - ac mae'n bosibl na cheir unrhyw 'farchnad lety leol' ar gyfer safleoedd mewn gwirionedd.*

11.32 Mae'r risgiau ariannol o gaffael tir a methu â chael caniatâd cynllunio wedi hynny wedi effeithio ar dwf safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n eiddo preifat, ac argymhellir, yn ogystal â mynd i'r afael â'r anghenion a nodir, fod awdurdodau lleol yn ceisio adnabod safleoedd posibl lle gellid rhoi caniatâd ar gyfer safle preswyl.

11.33 Ceir peth tystiolaeth hefyd o'r arolygon o ddyhead ehangach ymhlith ymatebwyr am lety ar safle, ac mae hyn yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr iau sy'n byw mewn llety brics a morter ar hyn o bryd. Cafwyd 8 o ymatebion i'r holiadur 'pobl ifanc' gan unigolion a oedd rhwng 15 a 20 ar y pryd ac a oedd yn byw mewn llety brics a morter. Mae pob un ohonynt wedi mynegi eu bod yn ffafrio llety ar safle; cwestiynir i ba raddau y gellir bodloni'r ffafriaeth hon, o ystyried cyfyngiadau ariannol.

11.34 Mae rhesi 12-15 yn eitemau safonol yn y cyfrifiad, ac ar wahân i res 14, dangosir sero ym mhob bocs. Mae rhes un deg pedwar yn cynnwys cais cyfredol am safle preifat sy'n cynnwys pum llain nad oes penderfyniad wedi'i

wneud yn ei gylch ar adeg ysgrifennu. Os gwrthodir y cais hwn, ceir cynnydd o bum llain i'r angen preswyl net. Nid wyf wedi cynnwys unrhyw gynlluniau gan awdurdodau lleol i ymestyn y ddarpariaeth bresennol.

11.35 Rhes 16 yw cyfanswm 12-15, felly rhes 17 yw'r amcangyfrif cyfredol o anghenion hyd 2016.

11.36 Ar ôl 2016, gan dybio bod yr holl angen presennol wedi'i fodloni; y cyfrifiad safonol yw y bydd nifer y lleiniau sydd eu hangen yn parhau i gynyddu ar gyfradd o 3 y cant y flwyddyn. Byddai hyn yn creu gofyniad cyffredinol o 167 o leiniau (wedi ei dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf) erbyn 2021, cynnydd o 25 ar ffigur 2016, a 194 o leiniau, cynnydd pellach o 27, erbyn 2026. Gallai ffactorau eraill gynyddu'r gofyniad hwn.

11.37 Er bod y cyfrifiadau hyd at 2016 wedi'u cyflwyno ar sail awdurdod lleol, dylid nodi nad yw hyn yn awgrymu y dylid cyfyngu'n awtomatig ar ddarpariaeth i'r dyfodol i'r ffiniau a geir ar hyn o bryd. Mae cyfarwyddyd LlC (LlC, 2006) a chynigion polisi presennol (LlC, 2011) yn cefnogi'r safbwynt y dylid ffafrio ymagweddau cydweithredol at y materion hyn.

11.38 Yn benodol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi:

*34. Mae'n bosib bod y ffaith bod gwahanol awdurdodau lleol wedi mabwysiadu gwahanol ymagweddau at ddarparu a gorfodi ar hyd y blynyddoedd wedi llurgunio'r darlun o ble mae Sipsiwn a Theithwyr yn byw, ac o ble maent yn dymuno byw. Lle bo hyn yn wir, bydd angen i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r angen i'w gael ar hyn o bryd, gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol eraill yn yr ardal er mwyn canfod datrysiad ar y cyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol sy'n dangos lefel isel o angen ar hyn o bryd dderbyn y bydd angen iddynt chwarae mwy o ran er mwyn bodloni angen rhanbarthol. (LLCC, 2006:162)*

### Argymhellion

11.39 Argymhelliad 18: Dylai awdurdodau lleol geisio canfod safleoedd posibl lle gellid rhoi caniatâd ar gyfer safle preswyl.

## 12. Cyfrifiadau o'r Angen am Safleoedd Dros Dro

### *Cyd-destun*

12.1 I lawer o Sipsiwn a Theithwyr, mae teithio am gyfran o'r flwyddyn yn rhan o'u ffordd o fyw. Ceir sawl rheswm am hyn:

- o Teithio i'r gwaith, ac ar y ffordd i leoliadau gwaith
- o Teithio i ffeiriau (er enghraifft, Ffair Appleby yn Cumbria, neu ar genadaethau crefyddol.
- o Teithio i ddigwyddiadau teuluol
- o Teithio ar wyliau
- o Teithio gan nad oes ganddynt leoliad parhaol.

12.2 Yn ardal yr astudiaeth, ystyrir bod y rhan fwyaf o'r teithio'n digwydd wrth deithio i gyrchfannau eraill. Mae Treffynnon yn gyrchfan grefyddol, a gall ymwelwyr weithiau ddod yn sgil digwyddiadau teuluol.

12.3 Mae polisi cenedlaethol yn awgrymu y dylai lleiniau pontio fod ar gael er mwyn galluogi Sipsiwn a Theithwyr sy'n dymuno teithio i wneud hynny heb aros yn anghyfreithlon. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw safle pontio o fewn ardal yr astudiaeth nac yn wir yng Nghymru gyfan (LlC, 2012:37). Defnyddiwyd rhan o'r safle Sipsiwn a Theithwyr yn Llandegai yng Ngwynedd fel safle pontio yn flaenorol, ond daeth y defnydd hwn i ben yn 2005 ar ôl problemau rheoli sylweddol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r rhan hon o'r safle. (Gwynedd, 2008:5)

12.4 Gan y byddant yn methu defnyddio parciau carafanau gwyliau, neu'n amharod i'w defnyddio, gall diffyg safleoedd pontio swyddogol olygu bod Sipsiwn a Theithwyr sy'n symud drwy ardal yn sefydlu gwersylloedd diawdurdod.

12.5 Gall y rhain gael effaith sylweddol ar y berthynas rhwng y gymuned sefydlog a'r Sipsiwn a Theithwyr.

12.6 Ar wahân i niweidio perthnasoedd, gall mynd i'r afael â gwersylloedd diawdurdod achosi gwariant sylweddol i awdurdodau cyhoeddus ac i'r sector preifat. Fel y mae Clements a Morris (2002) wedi awgrymu, gall y costau hyn berthyn i sawl agwedd.

- **o** Costau cyfreithiol, gan gynnwys amser swyddogion yn mynychu achosion llys.
- **o** Costau staff eraill y gellir eu priodoli a darparu cyfleusterau.
- **o** Gwaith adeiladu, gan gynnwys mesurau ataliol fel adeiladu byndiau daear a chodi rhwystrau sy'n cyfyngu ar uchder ar gilfannau, a chostau trwsio a chlirio ar ôl gwersyll.

**o** Costau cyfreithiol yn gysylltiedig â materion cynllunio.

12.7 Mae Bryste yn enghraifft o werth safle pontio parhaol a ddyfynnir yn eang, ac yn honni iddo leihau ei gostau o uchafswm o oddeutu £350,000 y flwyddyn ers sefydlu safle pontio y gellir cyfeirio preswylwyr gwersylloedd diawdurdod iddo (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2009b:11) er bod y costau cyfalaf cychwynnol yn gysylltiedig â sefydlu'r safle wedi lleihau'r arbedion hyn. Roedd rhwng 20 a 30 o wersylloedd diawdurdod mawr yn dod i Fryste bob blwyddyn, gan gynnwys hyd at 50 o garafanau. Er bod eu profiad hwy'n wahanol i brofiad awdurdodau gogledd Cymru, gallai'r arbedion posibl yn sgil safleoedd pontio neu arosfannau awdurdodedig fod yn sylweddol o hyd. Bydd amlder gwersylloedd a'u lleoliad daearyddol yn ffactorau perthnasol i'w hystyried.

12.8 Daw'r dystiolaeth ar gyfer y drafodaeth ynglŷn â'r angen am safleoedd pontio o sawl ffynhonnell. Yn rhannol, mae'n seiliedig ar ddata awdurdod lleol, yn rhannol o'r cyfrifiad carafanau, ond hefyd o gofnodion gwersylloedd diawdurdod yn ardal y GTANA yn ystod 2009 a 2010. Nodir nifer sylweddol o wersylloedd yn ardal yr astudiaeth, y tybir bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwelwyr dros dro neu'n rhai sy'n pasio heibio, yn ystod y ddwy flynedd y ceir data llawn ar eu cyfer. Yn ogystal â hyn, mae profiadau a barn rhanddeiliaid wedi siapio'r argymhellion.

12.9 Mae data'r Cyfrifiad carafanau ar gyfer y cyfnod o fis Gorffennaf 2006 hyd fis Ionawr 2012 yn anghyflawn. Ni wnaeth Conwy ddarparu data ar gyfer cyfrifiadau Gorffennaf 2010 a Gorffennaf 2011, ac ni wnaeth Gwynedd ddarparu data ar gyfer cyfrifiadau Gorffennaf 2010, Ionawr 2011 ac Ionawr 2012. Yn y ddau achos, byddai'n rhesymol dadlau y byddai'r niferoedd yn cyfateb yn fras i'r hyn a gofnodwyd yn y blynyddoedd cynt, ac y byddai nifer y carafanau mewn gwersylloedd diawdurdod felly'n isel. Rhwng Gorffennaf 2008 ac Ionawr 2010, dim ond un garafán a gofnodwyd ar wersyll diawdurdod yn y ddwy sir. Mae cyfanswm siart cyfrifiad carafanau felly wedi'i seilio ar y tybiaethau hyn. Er mwy'n hwyluso'r dasg o fonitro'r galw, dylai'r holl siroedd gwblhau cyfrifiad carafanau chwe-misol.

12.10 Gofynnwyd i randdeiliaid gyflenwi data am wersylloedd diawdurdod hysbys. Mae'r data hwn yn debygol o fod yn anghyflawn; gan nad yw'r awdurdod lleol yn cael gwybod am rai gwersylloedd, neu fel arall, ni fyddant yn cael eu cofnodi.

12.11 Wrth drafod yr angen posibl am safleoedd pontio dylid nodi bod y data a gofnodir ar hyn o bryd yn amrywio rhwng awdurdodau pan fyddant yn cael gwybod am wersylloedd diawdurdod. Bydd rhai awdurdodau'n nodi'r union leoliad, y diwrnod pan roddwyd gwybod am y gwersyll, a nifer y carafanau a'r cerbydau dan sylw. Weithiau ceir amcangyfrifon o nifer yr oedolion a'r plant

sy'n bresennol, a chofnod o'r dyddiad pan ddaeth y gwersyll i ben. Mewn awdurdodau eraill, dim ond y mis a disgrifiad bras o'r lleoliad a gofnodir. Mae'r tabl isod yn dangos pa wybodaeth sydd wedi bod ar gael ac sydd wedi cael ei defnyddio gan bob un o'r awdurdodau mewn perthynas â gwersylloedd diawdurdod.

Tabl 10: Ffurf y data ar gyfer gwersylloedd diawdurdod

| | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad adrodd** | Diwrnod / mis | Diwrnod / mis | Mis | Diwrnod / mis | Diwrnod / mis |
| **Dyddiad dod i ben** | Weithiau | Nac oes | Nac oes | Weithiau | Nac oes |
| **Lleoliad** | Union[1] | Union[1] | Cymuned[1] | Union[1] | Union[1] |
| **Nifer y carafanau** | Oes | Oes | Nac oes | Oes[2] | Oes |
| **Ethnigrwydd** | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Oes[2] | Nac oes |
| **Amcangyfrif o nifer yr oedolion ac/neu blant** | Oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |

[1]Mae 'union' yn golygu gwybodaeth fanwl am leoliad y gwersyll, e.e. Stad Fasnachol Tir Llwyd, Bae Cinmel. Ystyr cymuned yw'r gymuned lle cafwyd y gwersyll.

[2]Nid oedd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y gronfa ddata, ond fe'i darparwyd gan y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr o'i gwybodaeth bersonol

12.12 Dylid cytuno ar ffurf gyffredin ar gyfer cofnodi gwersylloedd, a chynnwys data gan Heddlu Gogledd Cymru er mwyn helpu i sicrhau bod y data yn gyson ac yn gyflawn.

12.13 Nid yw'r amrywiadau hyn yn anarferol, ond maent yn effeithio ar rai materion - nid oes modd gwneud awgrymiadau manwl ynghylch maint neu leoliad unrhyw safleoedd pontio. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu GTANAs eraill, lle nad yw'r union leoliad na'r niferoedd wedi'u cynnwys, neu lle dyrennir safleoedd pontio ar sail 'darpariaeth gyfartal' neu ddulliau eraill fformat cyffredin ar gyfer cofnodi gwersylloedd.

12.14 Ni chafwyd data gan bob awdurdod dros y pum mlynedd 2006-2010, felly canolbwyntir ar y blynyddoedd 2009 a 2010 yn y dadansoddiad. Roedd rhanddeiliaid yn tybio nifer y gwersylloedd yn ystod y blynyddoedd hyn wedi

tueddu i ostwng, a hynny am resymau economaidd o bosib. Ni ystyriwyd y byddai'r duedd hon yn debygol o barhau.

12.15 O'r data sydd ar gael, yn ystod y blynyddoedd 2009 a 2010, cofnodwyd un gwersyll o leiaf yn ardal yr astudiaeth ym mhob mis o bob blwyddyn. Cafwyd y rhan fwyaf o wersylloedd yn ystod tymor teithio'r haf, er y cafwyd gwersylloedd ger porthladd Caergybi ym mis Ionawr a mis Chwefror.

12.16 Cofnodwyd cyfanswm o 110 o wersylloedd gan y pum awdurdod lleol yn ardal yr astudiaeth yn ystod 2009 a 2010. Cafwyd 41 ohonynt yn Sir y Fflint, 30 ar Ynys Môn, 22 yng Ngwynedd, 12 yng Nghonwy a 5 yn Sir Ddinbych. Ar wahân i Ynys Môn, adroddodd yr holl awdurdodau y cafwyd llai o wersylloedd yn 2010 nag yn 2009.

12.17 Y nifer fwyaf o wersylloedd a gofnodwyd yn ardal yr astudiaeth yn ystod un unrhyw fis oedd 18, a hynny ym mis Medi 2010. Heb ddata cyflawn, ni ellir canfod faint o'r gwersylloedd hyn oedd yn wersylloedd gan yr un grŵp a oedd wedi gwersylla o'r blaen, na faint oedd uchafswm y carafanau mewn gwersylloedd, yn ystod y mis hwn, nac yn ystod unrhyw fis arall.

Tabl 11: Nifer y gwersylloedd a gofnodwyd fesul blwyddyn ac awdurdod lleol

| | Ynys Môn | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **2007** | | 10 | | | |
| **2008** | | 8 | | | 18 |
| **2009** | 12 | 6 | 0 | 27 | 18 (+4) |
| **2010** | 18 | 6 | 5 | 14 | 4 (+1) |
| **2011(<7/11)** | 1 | 1 | 7 | 11 | |

12.18 Lle cofnodwyd nifer y carafanau, (ym mhob awdurdod ar wahân i Sir y Fflint) roedd mwyafrif y gwersylloedd yn ardal yr astudiaeth (57%) yn cynnwys chwe charafán neu lai. Dim ond 11 y cant o wersylloedd oedd yn cynnwys mwy na 12 carafán. Dros gyfnod yr astudiaeth, y nifer fwyaf o garafanau ar un gwersyll oedd 20, er bod data hanesyddol yn awgrymu y cafwyd gwersylloedd ac ynddynt 56 o garafanau yn y blynyddoedd cynt.

Tabl 12: Maint y gwersylloedd, lle cofnodwyd hynny

| | Ynys Môn | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **<6** | 13 | 23 | 4 | | 19 |
| **6-12** | 6 | 4 | 8 | | 13 |
| **12>** | 3 | 4 | 0 | | 5 |

12.19 Roedd nifer cyfartalog y carafanau fesul gwersyll bob blwyddyn yn amrywio rhwng 3.0 a 7.4 rhwng gwahanol awdurdodau.

12.20 Pan fydd yr union leoliad wedi'i nodi, nid yw'r rhan fwyaf o'r gwersylloedd ar ochr y ffordd neu mewn cilfan, ond ar dir agored wedi'i wynebu. Ymhlith lleoliadau hyn, stadau diwydiannol, meysydd parcio archfarchnadoedd a meysydd parcio eraill sydd i'w gweld yn fwyaf amlwg. O edrych ar amrywiaeth a natur y lleoliadau, gan gynnwys meysydd parcio archfarchnadoedd, gellir gweld yr anawsterau'n gysylltiedig â chymhwyso mesurau ataliol effeithiol.

Tabl 13: Lleoliad y gwersylloedd

| | Ynys Môn | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyngor** | | | | | |
| **Ar ochr y ffordd** | 4 | 1 | 2 | | 3 |
| **Diwydiannol** | 9 | 19 | 2 | | 12 |
| **Archfarchnad** | 12 | 1 | 2 | | 3 |
| **Arall** | | 11 | 6 | | 10 |

12.21 Mae data ar ddyddiadau terfynu meddiannaeth yn arbennig o brin, felly nid oes gwybodaeth ar gael am hyd yr arhosiad.

12.22 Lle bo modd, nodir nifer cyfartalog [cymedrig] yr ôl-gerbydau sy'n bresennol. Mae gwersylloedd graddfa fawr yn brin.

Tabl 14 Nifer cyfartalog o garafanau sy'n bresennol

| | Ynys Môn | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **2007** | | 4.3 | | | |
| **2008** | | 5.0 | | | |
| **2009** | 7.1 | 3.0 | - | | 7.4 |
| **2010** | 4.5 | 5.8 | 6.0 | | 5.4 |
| **2011** | 5 | | 6.7 | | |

### *Safbwyntiau Sipsiwn a Theithwyr*

12.23 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd angen datblygu llety pontio yng Ngogledd Cymru. Dywedodd pawb o'r ymatebwyr yr hoffent i lety pontio fod ar gael ar draws ardal yr astudiaeth.

12.24 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr ym mha leoliad yr hoffent gael safle pontio. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion, ac mae crynodeb o'r rhain yn y tabl isod. Caergybi, Y Rhyl a Bangor oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd. Cyfeiriwyd yn aml hefyd at Brestatyn, Conwy, Abergele/Pensarn a'r Fflint. Ar y cyfan, awgrymodd y rhai hynny na wnaeth enwi ardal benodol y dylid cael safleoedd parhaol drwy'r holl drefi ar hyd yr A55.

Tabl 15: Dewisiadau ardal yr oedolion o blith y Sipsiwn a'r Teithwyr (llety pontio).

| Nifer yr ymatebion | Tref / ardal. |
|---|---|
| **1-5** | Glannau Dyfrdwy; Treffynnon; Yr Wyddgrug; Penmaenmawr; Bethesda; Rhosgoch; Tregarth; Caernarfon; Llanberis; Dinbych; Porthmadog; Llanelwy / Bodelwyddan; Llanddulas; Llangefni; Queensferry; Tywyn; Rhuddlan; Bae Colwyn; Llandudno; Ynys Môn; |
| **6-10** | Y Fflint; Abergele / Pensarn; Conwy a Phrestatyn |
| **11-15** | Bangor |
| **16-20** | Y Rhyl a Chaergybi |

12.25 Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr am y math o gyfleusterau yr oedd eu hangen ar safleoedd pontio yn eu barn hwy. Cyfeiriwyd at y cyfleusterau canlynol amlaf:

- **o** Wynebau caled;
- **o** Dŵr a thrydan prif gyflenwad;
- **o** Toiledau unigol
- **o** Baddonau / cawodydd unigol
- **o** Storio a chasglu sbwriel;

12.26 Mae'r cyfleusterau ychwanegol y cyfeiriwyd atynt hefyd yn cynnwys: ystafell gyfarfod neu gyfleusterau cymdeithasol; llecyn chwarae i blant; camera ar y gât; at drydanol er diogelwch; ystafell olchi gymunol; tapiau y tu allan i lanhau ôl-gerbydau a gosod pibell ddŵr.

12.27 Cyfeiriwyd yn aml at y safle Sipsiwn a Theithwyr yn Wrecsam fel enghraifft o safle a fyddai'n addas i Sipsiwn a Theithwyr.

12.28 Byddai 80% o'r ymatebwyr yn defnyddio safleoedd swyddogol pe baent yn cael eu darparu. Roedd pob un ohonynt yn barod i dalu i ddefnyddio safleoedd swyddogol, gan awgrymu £5 y dydd a rhwng £20 a £45 yr wythnos, ar yr amod "bod warden ar y safle, ynghyd â thrydan, toiled a chyfleusterau eraill sylfaenol". O ran maint, y maint a awgrymwyd gan yr ymatebwyr fel un a oedd yn cael ei ffafrio oedd digon o le ar gyfer 10 - 15 o ôl-gerbydau.

12.29 Pan ofynnwyd am eu barn ynghylch cyfuno lleiniau preswyl a phontio ar yr un safle, nid oedd 70 y cant o'r ymatebwyr yn meddwl bod hynny'n syniad da.

*"Ni fyddai'n deg i'r bobl sy'n aros yno'n llawn amser."*

*"Nac ydi, achos os bydd pobl sy'n mynd ac yn dod yn gwneud drygioni, y preswylwyr parhaol fydd yn cael y bai. "*

*"Nac ydw, dydw i ddim. Gormod o drafferth, gormod o helbul."*

12.30 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr am y pethau pwysicaf i'w hystyried wrth greu safleoedd yn y dyfodol. Rhoddwyd ymatebion amrywiol:

*"[Byddai angen i safleoedd gynnwys] bloc parhaol gyda chegin ac ardal fyw. Llecyn chwarae i'r plant [yn ogystal â] chyfleusterau trydan a dŵr sylfaenol"*

*"Mae'r lleoliad yn allweddol"*


*"Yn fy marn i, bydd yn well i Deithwyr redeg y safle, gan mai nhw sy'n ei ddeall. Gallai Teithwyr drafod unrhyw broblemau".*

12.31 Mae barn y gymuned yn cyd-fynd â chyngor Llywodraeth Cymru, sef na ddylai safleoedd gynnwys cymysgedd o safleoedd parhaol a safleoedd pontio

(LlCC, 2009:29). Cefnogir hyn hefyd gan brofiadau blaenorol ar safle Llandegai.

12.32 Mae Siart 13 isod yn dangos nifer y gwersylloedd diawdurdod a gofnodwyd fesul mis a'r ardal awdurdod lleol. Nid yw'r data yn gyflawn drwy gydol y cyfnod, ond mae'n dangos natur dymhorol gwersylloedd. Yn ôl y dystiolaeth, teithwyr tymhorol sy'n pasio drwy'r ardal a geir yn y rhan fwyaf o wersylloedd, yn hytrach na phreswylwyr hirdymor sy'n symud oddi mewn iddi.

Siart 13: Gwersylloedd Diawdurdod 2009-10




## *Cyfrifo'r angen am Safleoedd Pontio*

12.33 Mae anawsterau gyda'r data sydd ar gael wedi esgor ar sawl ymateb i'r broblem safleoedd pontio mewn GTANAs eraill, gan hepgor unrhyw ymdriniaeth â'r broblem ar adegau. Seilir y cyfrifiad hwn o'r gofyniad am safle dros dro ar y rhagdybiaethau a nodir isod. Dyma nhw:

- Bob blwyddyn, ceir tua 55 o wersylloedd yn ardal yr astudiaeth.
- Mae'r bobl ar 10% o wersylloedd dros dro, tua chwech bob blwyddyn, yn chwilio am safle sy'n cynnig llety parhaol. Trafodir yr achosion hyn o dan y gofyniad am safleoedd parhaol.
- Felly, mae angen llety dros dro ar 90% o'r gwersylloedd, sef cyfanswm o tua 49.
- Mis fyddai uchafswm yr arhosiad, er y byddai rhai gwersylloedd yn cael eu cynnal am gyfnodau byrrach. Byddai ymestyn uchafswm yr arhosiad yn golygu ail-gyfrifo'r gofynion llety.
- Byddai lle i 7 carafán yn ddigon ar gyfer y rhan fwyaf o wersylloedd.

12.34 O ddefnyddio 7 fel ffigur gweithiol, byddai'r gofynion dros dro ar gyfer (49 wedi'i luosi â 7) o garafanau'r flwyddyn, neu 343 yn ystod y flwyddyn. Ar sail fisol, mae hyn yn gyfystyr â 28.5 o garafanau. Fodd bynnag, am y rhesymau

a drafodwyd, mae'n bosibl bod y ffigurau hyn yn cynnwys achosion o gyfrif ddwywaith. Ar ffurf cyfrannau, mae tua 47% o wersylloedd wedi'u cofnodi yn ardal Gwynedd ac Ynys Môn, 15% wedi'u cofnodi yn ardal ganol Conwy a Sir Ddinbych, a 37% yn Sir y Fflint.

12.35 Awgrymir felly fod yr awdurdodau'n ystyried tri neu bedwar o safleoedd pontio a all gynnwys hyd at saith o garafanau. Ffafrir cael mwy nag un safle, am sawl rheswm.

- Maent yn fwy tebygol o gael eu defnyddio os ydynt yn agos at fannau aros traddodiadol.
- Byddai pob safle o faint llai.
- Ceid llai anawsterau'n gysylltiedig â thensiynau ethnig neu rhwng gwahanol deuluoedd.
- ni fyddai un safle dros dro ar gyfer yr ardal yn datrys y problemau. Mae'n bwysig cael rhywle i'r preswylwyr symud ymlaen iddo, ac mae angen rhwydwaith ar gyfer hyn.

12.36 Dylai'r awdurdodau lleol gydweithio i ganfod safleoedd priodol ar gyfer llety dros dro ar sail ranbarthol. Gall y rhain fod yn safleoedd pontio a chanddynt ystod cymharol lawn o gyfleusterau, neu'n arosfannau dros dro a chanddynt ddarpariaeth fwy cyfyngedig. Dylai natur y ddarpariaeth, yn ogystal â'i lleoliad, fod yn seiliedig ar ddata am batrymau gwersylloedd diawdurdod dros y blynyddoedd diwethaf. Ar ôl dweud hynny, o ddadansoddi'r data presennol gwelir bod y patrymau'n amrywio rhwng awdurdodau lleol yn y consortiwm. Opsiwn arall er mwyn ateb peth o'r galw yw caniatáu arosiadau dros dro ar leiniau mwy ar safleoedd preswyl.

12.37 Ar Ynys Môn, roedd hi'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r gwersylloedd dros dro yn ardal Caergybi. Roedd rhai ohonynt yn wersylloedd dros nos, neu'n wersylloedd a adawodd o fewn diwrnod, gan awgrymu mai mannau cyfarfod oeddynt cyn neu ar ôl defnyddio'r fferi rhwng Cymru ac Iwerddon.

12.38 Yng Ngwynedd, mae'r gwersylloedd a gofnodwyd ar wasgar drwy'r sir, sydd efallai'n adlewyrchu gwahanol lwybrau teithio; Dwyrain/Gorllewin ar hyd arfordir Gogledd Cymru, neu Gogledd/De drwy'r sir, neu argaeledd tir agored lle gellir aros. Cafwyd y dystiolaeth gryfaf o breswylio ailadroddus yng nghyffiniau Bangor.

12.39 Yng nghanol ardal yr astudiaeth, efallai y bydd angen safle pontio ar y ffin rhwng Conwy a Sir Ddinbych, ond safle o bosib lle bydd yr awdurdodau'n cydweithredu i'w ddarparu, er mwyn sicrhau cymaint o ddefnydd ag sy'n bosibl o'r safle. Yng Nghonwy, roedd hi'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r gwersylloedd yn agos at yr A55, gyda 90 y cant ohonynt ar stadau diwydiannol ac ar safleoedd eraill heb fod yn bell o Abergele. Cafwyd 65 y cant o'r gwersylloedd a gofnodwyd yn y sir ar Stad Fasnachol Tir Llwyd ym

Mae Cinmel. Roedd y rhan fwyaf o wersylloedd yn Sir Ddinbych hefyd yn agos at goridor yr A55 neu'n agos at Y Rhyl.

12.40 Yn Sir y Fflint, lle cofnodwyd 37% o'r holl wersylloedd yn yr ardal, mae'r safleoedd yn fwy ar wasgar. Fodd bynnag, dros flynyddoedd yr arolwg, efallai y bydd angen darpariaeth sydd bendant o fewn cyrraedd i Dreffynnon.

12.41 Gallai rhai o'r gwersylloedd hyn fod wedi cael eu sefydlu gan yr un grŵp sy'n teithio drwy'r ardal, ac felly o awdurdod i awdurdod, ond oherwydd amrywiadau yn y data a gasglwyd, mae'n anodd canfod achosion lluosog o breswylio.

12.42 Mae polisi'n awgrymu ymagwedd gydweithredol at ddarparu safleoedd pontio, a gallai hyn ymestyn y tu hwnt i derfyn ardal yr astudiaeth. O ran awdurdodau cyfagos, cynhaliodd Wrecsam ei GTANA ei hun. Ni chafwyd unrhyw arwydd ffurfiol o'r angen am safleoedd pontio [na data ar gyfer gwersylloedd]. Argymhellai y dylai Wrecsam gydweithio ar sail ranbarthol. (Fordham Research, 2007).

12.43 Mae GTANAs eraill o awdurdodau cyfagos ar gael ar gyfer Powys (Y Ganolfan Astudiaethau Trefol a Rhanbarthol, Birmingham (2008) Gypsy & Traveller Accommodation Assessment Shropshire, Herefordshire, Telfor & Wrekin and Powys) a Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (Brown et al, 2007) Cheshire Partnership Area Gypsy and Traveller Accommodation and Related Services Assessment Final Report) a Cheredigion (ORS, 2011) Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Ceredigion.

### *Argymhellion*

12.44 Argymhelliad 19: bod pob sir yn cwblhau'r cyfrifiad carafanau a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

12.45 Argymhelliad 20: bod yr awdurdodau lleol yn cytuno ar brotocol cyffredin ar gyfer adrodd am bresenoldeb gwersylloedd diawdurdod a mynd i'r afael â'r materion cysylltiedig.

12.46 Argymhelliad 21: Dylai'r holl awdurdodau o fewn ardal yr astudiaeth, neu pa grŵp bynnag sy'n parhau â phroses y GTANA, benderfynu ar ddull cyffredin o gofnodi gwersylloedd. Yn ddelfrydol, dylai'r cofnod gynnwys yr eitemau canlynol o leiaf:

- Dyddiad adrodd am y gwersyll
- Dyddiad dod â'r gwersyll i ben
- Lleoliad, natur y safle [cyhoeddus/preifat; parc diwydiannol neu barc busnes, maes parcio adwerthu, arall]
- Nifer y carafanau,
- Amcangyfrif o nifer yr oedolion a phlant.

12.47 Argymhelliad 22: Argymhellir hefyd y dylid cynnwys data gan Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyson a chyflawn.

12.48 Argymhelliad 23: Argymhellir bod yr awdurdodau lleol yn cydweithio i nodi safleoedd priodol ar gyfer llety dros dro. Gall y rhain fod yn safleoedd pontio, gydag ystod cymharol lawn o gyfleusterau, neu os yw'r defnydd ohonynt yn debygol o fod yn ysbeidiol, gallant fod arosfannau dros dro sy'n cynnwys darpariaeth fwy cyfyngedig, lle gellir cyfyngu ar yr arhosiad i 28 diwrnod. (LlCC, 2009:29-32) Dylai natur y ddarpariaeth, yn ogystal â'i lleoliad, fod yn seiliedig ar ddata am batrymau gwersylloedd diawdurdod dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi dweud hynny, o ddadansoddi'r data presennol, gwelir bod y patrymau'n amrywio rhwng awdurdodau lleol y consortiwm.

## 13. Myfyrdod

13.1 GTANA Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint yw un o'r GTANAs olaf i gael ei gwblhau, yn y don gyntaf o asesiadau GTANA. Gan fod adroddiadau GTANA eraill wedi'u cwblhau cyn adroddiad GTANA Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint, bu modd cael mynediad at beth o'r gwaith dadansoddi a'r myfyrio mewn adroddiadau blaenorol, yn enwedig gan CURS (2008a), ond hefyd i asesiadau rhanbarthol ac asesiadau GTANA eraill.

13.2 O'r asesiadau eraill hyn, gellir canfod materion sy'n adleisio profiadau GTANA cyfredol Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint.

13.3 Ni ellir ond ystyried hyn yn gam cyntaf mewn proses barhaus o ymgysylltu ac asesu anghenion llety'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr yn ardal yr astudiaeth.

13.4 Er mwyn parhau â'r broses hon, argymhellir y dylid cymryd y camau canlynol ar unwaith:

13.5 Mae angen sefydlu grŵp i gymryd yr awenau oddi ar grŵp llywio presennol y GTANA. Dylai'r grŵp hwn fod yn gysylltiedig â strategaeth gyffredinol er mwyn parhau â'r AMDL ar gyfer Gogledd Cymru, ac adrodd wrth grŵp cydlynu ehangach. Yn ddelfrydol, dylai'r grŵp gynnwys y canlynol o leiaf:

13.6 Cynrychiolwyr o'r holl awdurdodau lleol perthnasol. Mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun cyfarwyddiadau manwl yn arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynnal GTANAs (LlCC, 2006), a chynigion mwy cyffredinol ar gyfer cydweithio rhwng cynghorau yng ngogledd Cymru (Cabinet Llywodraeth Cymru, 2011). Efallai y bydd angen grŵp mwy nag ardal yr arolwg presennol.

13.7 Cynrychiolwyr o'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr. Yn ddelfrydol, dylai mwyafrif y grŵp hwn fod yn lleol, a chynnwys aelodau o bob grŵp ethnig ac o bob crynodiad daearyddol. *Mae "Sipsiwn a Theithwyr" yn cynnwys cymunedau amrywiol ac mae angen cynnwys pob un (CURS 2008a: 3)* , ynghyd ag unrhyw gynrychiolwyr eraill perthnasol.

13.8 Mae'n bwysig i awdurdodau lleol a chynrychiolwyr cymunedol gymryd rhan yn y broses am y tymor hir. Un o amcanion AMDL Gogledd Orllewin Cymru oedd datblygu stoc o arbenigedd mewnol a allai gynnig safbwynt tymor hwy o faterion tai lleol yn hytrach na chael contractwyr allanol i wneud gwaith cymharol fyrdymor.

13.9 Gallai ymgysylltu tymor hwy hefyd fod o gymorth i fynd i'r afael â rhai materion eraill a ganfuwyd yn y cylch cyntaf o arolygon GTANA. Mae'r

materion hyn yn cynnwys, yn arbennig, yr anawsterau wrth amcangyfrif nifer y Sipsiwn a Theithwyr mewn llety brics a morter, p'un a ydynt mewn llety brics a morter o ddewis neu oherwydd prinder opsiynau eraill, ac ystyriaethau ynghylch angen, galw a dyhead.

## Llyfryddiaeth


Aspinwall, T. & Larkins, C. (2010) *Travellers and Gypsies: Generations for the Future* London: Save the Children http://www.travellingahead.org.uk/userfiles/files/GT%20Strategy%20Consultation%20Report%20March%202010.pdf

Brown, P. et al, (2007) *Cheshire Partnership Area Gypsy and Traveller Accommodation and Related Services Assessment Final Report*. http://www.northwestplanpartialreview.org.uk/downloads/GTANA/Cheshire%20Partnership%20Area%20GTANA,%20Full%20Report%20May%202007.pdf

Brown, P. & Niner, P. (2009) *Assessing local housing authorities' progress in meeting the accommodation needs of Gypsy and Traveller communities in England.* Research Report 13, London: Equality and Human Rights Commission. http://www.equalityhumanrights.com/en/policyresearch/research/pages/assessinglocalhousingauthorities'progressinmeetingtheaccommodationneedsofgypsyandtravellercommunities.aspx

Brown, P, Henning, S and Niner, P (2010) *Assessing Local Authorities' Progress in Meeting the Accommodation Needs of Gypsy and Traveller Communities in England and Wales: 2010 update,* Research Report 68, London: Equality and Human Rights Commission. http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/research/rr68_gt_web_version.pdf

Cemlyn, S. et al (2009) *Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review.* Research Report no. 12, London: Equality and Human Rights Commission. http://www.equalityhumanrights.com/en/policyresearch/research/Pages/ReviewofinequalitiesexperiencedbyGypsyandTravellercommunities.aspx

Centre for Urban and Regional Studies, Birmingham, (2008) *Gypsy and Traveller Accommodation Assessment, Revised Final Report, Shropshire, Herefordshire, Telford & Wrekin And Powys*. http://www.2shrop.net/live/images/cme_resources/Groups/gED901E42-1252-45B6-801E-341444BDC670/strategy%20documents/Gypsy-and-Travellers-Assessment-Final-Report.pdf

Clark, C. & Cemlyn, S. (2005) 'The social exclusion of gypsy and traveller children.' In: *At Greatest Risk: the children most likely to be poor* pp. 150-165. London: CPAG

Commission for Racial Equality (2006) *Common Ground: Equality, good race relations and sites for Gypsies and Irish Travellers.* http://www.equalityhumanrights.com/en/publicationsandresources/Pages/CommonGroundfullreport.aspx

Community Law Partnership (2012) *The Road Ahead: A response to 'Travelling to a Better Future'* http://www.gardencourtchambers.co.uk/imageUpload/File/TheRoadAhead.pdf

Crawley, H. (2004) *Moving Forward; The provision of accommodation for Travellers and Gypsies London*: Institute for Public Policy Research http://www.ippr.org/images/media/files/publication/2011/05/Moving_Foward_full_1299.pdf

Cullen et al (2008) *Good practice guide: Working with housed Gypsies and Travellers* London: Shelter http://england.shelter.org.uk/__data/assets/pdf_file/0010/57772/Working_with_housed_Gypsies_and_Travellers.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyfle Cyfartal (2003). *Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid*. http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000009105.pdf

Department for Communities and Local Government (2007) *Preparing Regional Spatial Strategy reviews on Gypsies and Travellers by regional planning bodies* London: DCLG. http://www.theshowmensguild.com/downloads/321445.pdf

Equalities and Human Rights Commission (2009) *Gypsies and Travellers: Simple solutions for living together* http://www.equalityhumanrights.com/en/projects/goodrelations/gypsiestravellers/pages/variationsitedefault.aspx

Estyn (2005) *Addysg Disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr* Caerdydd:Estyn Ar gael yn: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/201910.8/addysg-disgyblion-syn-sipsi-deithwyr-diweddariad-ar-y-ddarpariaeth-mewn-ysgolion-uwchradd-mehefin-2011/

Fordham Research (2007), *Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Adroddiad Terfynol*

Fordham Research (2008) *London Boroughs'Gypsy and Traveller Accommodation Needs Assessment*

Greenfields, M. and Smith, D. (2010) 'Housed gypsy travellers, social segregation and the reconstruction of communities.' *Housing Studies*, 25 (3). pp. 397-412.

Greenfields, M. and Smith, D. (2011) *A question of identity: the social exclusion of housed gypsies and travellers.* Research, Policy and Planning, 28 (3).

Cyngor Sir Gwynedd, Pwyllgor Craffu Gofal, Papur ar y Polisi Sipsiwn a Theithwyr, 5 Chwefror 2008 http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2008/Pwyllgorau%20Craffu/Gofal/2008-02-05/cymraeg/07_01_Polisi%20Sipsiwn%20a%20Theithwyr.pdf

Hansard *Dadleuon Tŷ'r Cyffredin*, 528 (16 Mai 2011) col. 59W.

Kelley, K. et al, (2003) 'Good practice in the conduct and reporting of survey research' *Int. Journal for Quality in Health Care* 15(3):261-66.

Lloyd, M. a Carrick, K. (2000) *Having Our Say; A Peer Research Project with Young Gypsy/Travellers in Scotland* Scottish Parliament: Equal Opportunities Committee. http://archive.scottish.parliament.uk/business/committees/historic/equal/reports-01/eor01-01-vol02-05.htm

London Gypsy and Traveller Unit (2009) *Gypsy and Traveller accommodation in London: a strategic view* http://www.lgtu.org.uk/publications/London%20Strategic%20view.pdf

Johnson, C. & Willers, M (eds) (2007) *Gypsy and Traveller Law* 2nd ed. London: Legal Action Group.

Llywodraeth Cymru, (2012), *Cartrefi i Gymru; Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell* tudalen 37 http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/120521whitepapercy.pdf

Llywodraeth Cymru (2011b) *Polisi Cynllunio Cymru*, 4ydd argraffiad Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/110228ppwedition4cy.pdf

Llywodraeth Cymru (2011a) *Teithio i Ddyfodol Gwell'- Sipsiwn a Theithwyr - Fframwaith ar gyfer Gweithredu a Chynllun Cyflanwi* http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/equality/110928gypsytravellercy.pdf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Arweiniad i Asesu'r Farchnad Dai Leol* http://wales.gov.uk/desh/publications/housing/marketassessguide/guide.pdf?lang=en

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Canllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru* Ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/091112gpgdesigningcy.pdf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Canllaw Arfer Da o ran Rheoli Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru*http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/091112gpgmanagingcy.pdf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007), *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* Cylchlythyr LlCC 30/2007 Ar gael yn: http://wales.gov.uk/pubs/circulars/2007/1948530/gypsy.pdf?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Polisi Cynllunio Cymru*, Argraffiad 1 af Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ar gael yn: www.disabilitywales.org/1814.file.dld

Morgan, L. & Melhuish, E. C. (1998) *Traveller Children and Educational Need in Wales* Cardiff: Cardiff University, School of Education.

Morris, R. and Clements , L. (2002) *At What Cost?: the Economics of Gypsy and Traveller Encampments* Bristol: Policy Press. Dyfyniadau o: http://books.google.co.uk/books?id=oj5U7x36C9sC&pg=PA9&lpg=PA9&dq=morris+clements+2002&source=bl&ots=buNjjNzO9W&sig=_Be8s4eTZujh4ECiQIHQgtnFDZc&hl=en&sa=X&ei=2CjuTrbxGc6T8gOXndWCCg&ved=0CB0Q6AEwAA#v=onepage&q=morris%20clements%202002&f=false

Niner, P. (2006) *Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru; Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru http://www.sewrec.org.uk/pat_niner_wales.pdf

Niner, P (2008) *Gypsy and Traveller Accommodation Assessments: Perceptions of Progress.* Birmingham: CURS http://www.bshf.org/publishedinformation/publication.cfm?lang=00&thePubID=905E1568-15C5-F4C0-99EB35BF91B47990

Office for National Statistics, 2009 Information Paper: Deciding which tick-boxes to add to the ethnic group question in the 2011 England and Wales Census, version 1.1 http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/the-2011-census/2011-census-questionnaire-content/question-and-content-recommendations/ethnic-group-prioritisation-tool-v1-1.pdf

Offerynnau Statudol (Cymru)(2007) *Housing (Assessment of Accommodation Needs) (Meaning of Gypsies and Travellers) (Wales) Rheoliadau Tai (Asesiad o Anghenion Llety) (Ystyr Sipsiwn a Theithwyr) (Cymru) SI 2007, 3235 (W. 285) http*://www.legislation.gov.uk/2007/3235

Office for National Statistics (2013) Table QS211EW 2011 Census: Ethnic group (detailed), unitary authorities in Wales

Office of the Deputy Prime Minister, (2003) *Local Authority Gypsy/Traveller Sites in England* http://communities.gov.uk/documents/housing/pdf/138832.pdf

O'Nions, H (1995) 'The Marginalisation of Gypsies' 3 Web JCLI (*Web Journal of Current Legal Issues*) http://webjcli.ncl.ac.uk/articles3/onions3.html#criminal

Opinion Research Services (2011) *Astudiaeth Cyngor Sir Ceredigion o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr* http://www.ceredigion.gov.uk/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=36760&langtoken=eng

Richardson, J. (2007) *Providing Gypsy and Traveller Sites: Contentious spaces*, Coventry: Chartered Institute of Housing/York: Joseph Rowntree Foundation..

Ryder, A., Acton, T., Alexander, S., Cemlyn, S., van Cleemput, P., Greenfields, M., Richardson, J., and Smith, D. (2011*) A Big or Divided Society? Interim Recommendations and Report of the Panel Review into the Impact of the Localism Bill and Coalition Government Policy of Gypsies and Travellers.* Kidwelly: Travellers Aid Trust

Showmens Guild, Lancashire Section (2007) , *The North West's Travelling Showpeople's Current*
*Base Location, Preferred Base Locations and Operating Patterns* http://www.northwestplanpartialreview.org.uk/downloads/consultation-documents/Travelling_Showpeople_in_the_North_West.pdf p. 16

Y Swyddfa Gymreig (1994) *Polisi Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod* Cylchlythyr 76/94 Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/desh/policy/941123circular7694en.pdf

Y Swyddfa Gymreig (1994a) *Safleoedd Sipsiwn a Chynllunio* Cylchlythyr 2/94 Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

Ureche, H. and Franks, M. (2008) *This is Who We Are: A Study of the experiences of Roma, Gypsy and Traveller children throughout England*, London: the Children's Society.
http://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/tcs/research_docs/This%20is%20who%20we%20are%20-%20A%20study%20of%20the%20experiences%20of%20Rroma%2C%20gypsy%20and%20traveller%20children%20throughout%20England_0.pdf

Van Cleemput, P. (2008) 'Health Impact of Gypsy Sites Policy in the UK.' *Social Policy and Society* 7:1, 103-11

Royal Town Planning Institute (RTPI) (2007) *RTPI Good Practice Note 4 Part B: Gypsy and Traveller needs assessments*, London: Royal Town Planning Institute. Ar gael yn: http://www.rtpi.org.uk/download/616/GoodPracticeNotes4_B.pdf